



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 13EG GORFFENNAF, 2021

Lleoliad

Zoom

Pwynt Cyswllt

Natalie Lloyd Jones

01286 679780

NatalieLloydJones@Gwynedd.Llyw.Cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 5 Gorffennaf 2021)

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

AELODAETH (17)

Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Linda Morgan
Simon Glyn

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Berwyn Parry Jones

Aled Wyn Jones
Gethin Glyn Williams
Dafydd Owen

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Mike Stevens
Angela Russell

Kevin Morris Jones
Elfed Powell Roberts

Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels

Owain Williams

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

Aelodau Eraill a Wahoddwyd

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2021/22.

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried

6. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Ebrill, 2021 fel rhai cywir.

7. BINIAU HALEN

9 - 12

I adrodd ar y sefyllfa gyfredol.

8. TRAFNIDIAETH - GWERTH CYMDEITHASOL

13 - 93

I Ddiweddarau'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS 94 - 106

Darparu adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.

10. RHAGLEN WAITH DDRAFFT CRAFFU 2021/22

107

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft craffu 2021/22 i'w mabwysiadu.

Pwyllgor Craffu Cymunedau 22 Ebrill 2021

Presenoldeb:

Y CYNGHORWYR: Stephen Churchman, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Elfed Roberts, Angela Russell, Gethin Williams ac Mike Stevens.

Swyddogion yn bresennol:

Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Iaith ac Democratiaeth), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Eirian Roberts a Natalie Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5:

Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Dirprwy Arweinydd) a Nonn Gwenllian Hughes (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (BGC)).

Yn bresennol ar gyfer eitem 6:

Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) ac Andrew Parry (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach, Marchnadoedd a Ffeiriau)).

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:

Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Kevin Morris Jones, Linda Morgan, Glyn Daniels, Owain Williams ac Elwyn Edwards.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 25ain o Chwefror 2021, fel rhai cywir.

5. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - CYNNYDD AR WIREDDU'R CYNLLUN LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn diweddarau'r aelodau ar gynnydd y ffrydiau gwaith. Ategwyd bod hyn yn statudol o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwyd bod heriau wedi codi yn sgil y pandemig, fodd bynnag gwelwyd cynnydd mewn rhai manau.

Adroddwyd bod yr is-grwpiau wedi ail ymafael ar eu cynlluniau gwaith ac bod y Bwrdd yn cynghori iddynt ystyried eu briff gwreiddiol ac ystyried beth sydd wedi ei gyflawni ac beth sydd eisoes angen ei wneud.

Aethpwyd drwy'r adroddiad yn fanwl gan tynnu sylw at y prif bwyntiau a fyddai o ddiddordeb i aelodau'r Pwyllgor fel a ganlyn;

- Nodwyd bod cydweithio yn digwydd er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus, er enghraifft mewn derbynfeydd
- Soniwyd am y gwaith sy'n cyd-fynd a'r strategaeth tai er mwyn sicrhau mwy o gartrefi fforddiadwy yng Ngwynedd. Ategwyd eu bod yn rhannu gwybodaeth a chydweithio er mwyn osgoi dyblygu ar waith sydd eisoes yn digwydd.
- Ysgrifennwyd at Lywodraeth Cymru er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd argaeledd tai i gyfrannu at lesiant cymunedau.
- Cyfeiriwyd at waith ynghylch newid hinsawdd, sef bod yr Is-Grŵp wedi cwrdd a Cyfoeth Naturiol Cymru a rhannu eu datganiadau ardal.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Diolchwyd y Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am yr adroddiadau dan sylw.
- Tynnwyd sylw at yr adroddiad sy'n trafod '7 cam at Llesiant' a gofynnwyd i'r rheolwr a fyddai'n bosib atgoffa o'r rhain yn ei hadroddiad nesaf er mwyn atgoffa'r Pwyllgor o beth sydd angen ei wneud.
- Cwestiynwyd ai tasg ar gyfer yr adran Gynllunio yn gwerthuso safleoedd at berthynas tai i bobl leol.
- Awgrymwyd mai edrych ar gynlluniau a gwerthuso fforddiadwyedd a pholisïau y dylai fod yn blaenoriaeth er mwyn osgoi dyblygu gwaith.
- At berthynas 'Newid Hinsawdd', rhannwyd bod gan eiddo lleol broblem gydag llifogydd ac eu bod wedi derbyn cyngor ar gyfer ei warchod rhag difrod pellach. Gofynnwyd os byddai modd rhannu gwybodaeth ychwanegol gyda trigolion mewn ardaloedd dan fygythiad o lifogydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y pwyntiau isod:-

- Nodwyd mai briff yr Is-grŵp gyda'r tai fforddiadwy oedd oedd edrych ar datblygu ar y cyd, er enghraifft, edrych ar safleoedd segur i weld y sgôp am eu ddatblygu.
- Grŵp ychwanegol technegol wedi rhoi ystyriaeth i hyn.
- Diolchwyd am y sylwadau ynghylch yr ffrwd Newid Hinsawdd a byddai'r sylwadau yn cael eu cyfleu yn ôl cyn iddynt fynd allan i ymgysylltu.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod.

6. TREFNIADAU TÂN GWYLLT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd yn gryno er mwyn egluro'r trefniadau gwaith sydd yn gysylltiedig a tân gwyllt. Ategwyd yr Aelod Cabinet at hyn gan nodi mai pwrpas yr adroddiad oedd ymateb i rhybydd o gynnig a daeth o'r cyfarfod llawn o'r Cyngor.

Eglurwyd bod gofynion statudol yn ymwneud a gwerthiant tan gwyllt a storio'r tan gwyllt a pha mathau a chaniateir ynghyd a chyfyngiadau sŵn a cyfnodau gwerthiant sydd yn bodoli. Mewn perthynas a rheoleiddio, nodwyd bod gan y Cyngor pwerau statudol yn ymwneud a sŵn, ond bod angen tystiolaeth wedi ei gasglu dros gyfnod. Nodwyd mai'r math o bethau sy'n cael eu cyfeirio at gyda than gwyllt yw defnydd anghymdeithasol yn fwy na sŵn cyffredinol.

Trafodwyd rôl y Cyngor er mwyn datrys hyn sef, cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth ar defnydd da, cydweithio a'r Gwasanaeth Tân, paratoi datganiadau i'r wasg, defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hybu ymarfer da (cyfeiriwyd at enghraifft yn atodiad 2). Eglurwyd bod y gyfraith yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i newid rheolau ynghylch tan gwyllt.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Croesawyd yr adroddiad ac awgrymwyd bod angen diwygio'r cod tan gwyllt neu gosod cyfyngiadau ar trwyddedau arwerthwyr a canllawiau pellach iddynt er mwyn osgoi defnydd anghymdeithasol.
- Codwyd pryder bod effaith ar anifeiliaid ffarm sy'n arwain ar adegau at niwed i eiddo pan mae gwartheg yn cael eu dychryn.
- Gofynnwyd os fydd modd tynhau cyfyngiadau ar werthwyr fel bod y niwed yma i anifeiliaid fferm ac eiddo yn cael ei leihau.
- Ategwyd bod rhan fwyaf o drigolion yn dilyn y rheolau ac y lleiafrif sy'n anghymdeithasol ac yn eu difodd o ganol mis Hydref ymlaen ac nid ar ddiwrnod tan gwyllt yn unig.
- Gofynnwyd beth yw'r bwriad er mwyn symud ymlaen a hyn, ac oes adroddiad ychwanegol yn dod yn ôl i'r Pwyllgor. Awgrymwyd sefydlu is-grŵp i'w drafod sy'n cynnwys y Cynghorydd sydd wedi rhoi y rhybydd o gynnig ymlaen.
- Anghytunwyd yn aelod bod hyn y fater broblemus, ategwyd mai dim ond bod yn oddefgar am ychydig o wythnosau'r flwyddyn lle mae'r tan gwyllt yn digwydd sydd angen ar bobl.
- Ategwyd bod y tan gwyllt yn dod a llawer o hwyl i blant a phobl a bod sawl datrysiadau posib i perchenogion anifeiliaid anwes fel eu cadw yn tŷ neu defnyddio meddyginiaeth.
- Anghytunwyd a'r sylw uchod gan egluro bod tan gwyllt wedi datblygu erbyn hyn i fod llawer fwy swnllyd ac yn amharu ar bobl ar raddfa uwch.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, nodwyd:-

- Bod cynghori prynwyr cyn y digwyddiadau yn rhywbeth mae swyddogion yn ei wneud ers tro. Er mwyn gwella, nodwyd bod modd wella hyn o ran diwygio'r canllawiau ac hefyd o ran y berthynas sydd gennym efo'r gwerthwyr.
- Er mwyn mynd a'r adroddiad yn ei flaen, cytunwyd i adolygu'r ddarpariaeth a thrafod a'r Cynghorydd sydd wedi cyflwyno'r cynnig.
- Bod modd addasu a rhannu arfer da gyda gwerthwyr a defnyddwyr fel ffordd ymlaen gan ein bod wedi cyfyngu gan y gyfraith.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod.

7. GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD

Rhodddwyd rhagair gan yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd yn nodi mai adroddiad i amlinellu gwaith pwysig yr adran Gwarchod y Cyhoedd yn ystod cyfnod y pandemig sydd gerbron yr aelodau heddiw. Ategwyd bod llawer iawn o waith cefndirol yn digwydd ac yn anaml y byddai pawb yn clywed am y gwaith hwn sy'n rhan bwysig o'r cyngor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd ac ategwyd diolchiadau'r Aelod Cabinet i'r holl staff yr adran. Aethpwyd ymlaen i nodi bod swyddogion a staff yn parhau i fod yn brysur â materion ynghylch Covid-19 ar ben eu dyletswyddau arferol sy'n ail gychwyn dros y cyfnod nesaf. Pwysleiswyd bod y staff yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau yma er eu bod yn gweithio gyda niferoedd staffio is o ganlyniad i ddegawd o doriadau.

Ategwyd bod y toriadau wedi arwain at ddiffyg gwydnwch o fewn yr adran bellach. Thynnwyd sylw at y math o doriadau sydd wedi bod, er enghraifft yn 2011/12 roedd 63 o swyddogion o fewn yr adran sydd bellach wedi disgyn at 42. Parhawyd i egluro effaith y toriadau sef bod galw mawr am swyddogion sydd a'r arbenigedd angenrheidiol ac yn cwrdd â gofynion y swydd.

Trafodwyd elfen arall sy'n ategu at ddiffyg gwydnwch o fewn yr adran, sef bod anghysondeb cyflogau'r swyddi ar draws y siroedd yng Ngogledd Cymru. Eglurwyd bod Cyngor Gwynedd gyda chyflogau is na siroedd eraill cyfagos a bod pryder y byddai swyddogion yn cael eu colli gan fod rhai eisoes wedi symud i swyddi mewn siroedd eraill.

Cyfeiriwyd at y datrysiadau i'r pwysau ar y gwasanaeth gan gynnwys penodi swyddogion newydd gan ddefnyddio arian o gronfa caledi. Parhawyd i drafod eu dyletswyddau cychwynnol sef ymgysylltu efo cymunedau, ysgolion a busnesau lleol. Eglurwyd y byddai'r swyddogion newydd yma gyda chyfleoedd i barhau fel technegwyr neu swyddogion parhaol i'r adran yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Diolchwyd am yr adroddiad yn enwedig yn sgil newyddion am fathau gwahanol o Covid-19 sy'n ymddangos. Ategwyd y bydd Covid-19 yma am gyfnod ac mae angen cynllunio ar gyfer y tymor hir.
- Mewn perthynas â'r materion ynghylch cyflogau, gofynnwyd a ydi'r swyddi yn cael eu harfarnu i adlewyrchu'r nifer is o adrannau sydd erbyn hyn a'r llwyth gwaith ychwanegol. Ategwyd bod angen cryfhau'r adran gan fod datblygiadau newydd gyda'r pandmeig.
- Cytunwyd bod wir angen ail edrych ar y raddfa cyflogau os yw swyddogion talentog yn cael eu colli i siroedd sydd â chyflogau uwch am yr un swydd.
- Codwyd pryder ynghylch faniau bwyd symudol sy'n cynyddu yn ystod y cyfnod hwn ac os ydynt wedi derbyn y caniatâd cywir i weithredu, mewn perthynas ag hylendid bwyd.
- Datganwyd bod y toriadau swyddi wedi mynd yn rhy bell o fewn yr adran, ac o ganlyniad mae gwir angen recriwtio staff. Nodwyd o safbwynt cadw staff bod angen sicrhau cyflogau teg.
- Gofynnwyd pwy sy'n gyfrifol am gyflogi staff olrhain newydd yn sgil y niferoedd uchel sydd angen.

- Cydnabuwyd bod Cyngor Gwynedd yn is o ran graddfa cyflogau o gymharu â siroedd cyfagos a bod angen gweithredu ar hyn er mwyn cadw staff. Ategwyd bod angen symud y mater o raddfeydd cyflogau at sylw'r cabinet.
- Yn sgil llacio cyfyngiadau, atgoffwyd bod angen i bawb gofio cefnogi busnesau Gwynedd sydd yn ail agor ar ôl cyfnod anodd iawn.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nodwyd y canlynol:-

- Diolchwyd y Pennaeth Adran Amgylchedd am y sylwadau a'r gefnogaeth gyda'r adroddiad ac i argymhell nod angen diwygio graddfeydd cyflogau.
- Eglurwyd bod y swyddi wedi eu harfarnu a bod cydnabyddiaeth wedi ei rhoi ar gyfer swyddogion sy'n ymgymryd amryw o ddyletswyddau ychwanegol.
- Mewn perthynas â'r faniau bwyd newydd sy'n ymddangos, sicrhawyd bod angen trwydded hylendid bwyd ar bawb a bod bob busnes angen sgôr o ran hylendid wedi ei arddangos ar eu safle.
- Nodwyd nad oedd trefn benodol ar drwyddedu lleoliadau ar hyn o bryd yng Ngwynedd.
- Cytunwyd bod angen edrych ar y faniau bwyd newydd er mwyn sicrhau diogelwch ac ymddygiadau priodol n cael eu dilyn.
- Cadarnhawyd mai Llywodraeth Cymru sy'n talu cyflogau swyddogion olrhain ac mai Sir Fflint sy'n derbyn yr arian a'i ddioli. Nodwyd bod swyddogion Gwynedd wedi eu cyflogi gan sir Fflint. Eglurwyd bod hyn yn digwydd er mwyn osgoi anghysondeb yn yr arfarniad swydd ac i sicrhau cysondeb cyflogau.

PENDERFYNWYD

- (a) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod.**
- (b) Argymhell i'r Cabinet ystyried edrych ar raddau cyflogau staff ar draws y Cyngor a sut maent yn cymharu â chyflogau cynghorau cyfagos.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 11:50yb.

Eitem 7

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad	13 Gorffennaf, 2021
Teitl	Biniau Halen
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Catrin Wager
Awdur	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Pwrpas	Adrodd ar y sefyllfa gyfredol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Hydref 2015 bu i'r Adran gysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref y Sir yn eu hysbysu o benderfyniad y Cyngor yn Rhagfyr 2014 i beidio darparu a llenwi biniau halen yn y dyfodol fel rhan o'u 'Cynllun Arbediad Effeithiolrwydd', ffigur o £100k. Amlygwyd hefyd nad oedd dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaeth biniau halen i'r cyhoedd. Byddai'r trefniant newydd yn gweld y Cynghorau Cymuned a Thref yn cyfrannu at gost o lenwi'r bin halen ond byddai'r ased yn aros ym mherchnogaeth y Cyngor ynghyd â unrhyw fater yswiriant.
- 1.2 Ceir yma gefndir am y Gwasanaeth Cynnal Gaeaf ynghyd â diweddariad o'r sefyllfa gyfredol gan amlygu materion sydd wedi codi ers cyflwyno'r newid.

2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

2.1 Halen (Rocksalt)

- Cytundeb cyflenwi newydd gyda Salt Union
- Halen yn cael ei gyflenwi ar drefn 'stock management': ail-gyflenwi'r storffeydd ar ddefnydd.
- Storfa Halen Ychwanegol Blaenau a Llandygai, Bangor (ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru) yn galluogi i'r Cyngor gadw mwy o halen na blynnyddoedd cynt.

Er bod ganddom ni a Llywodraeth Cymru well 'resilience' o ran stoc halen, mae posibilid o gyfyngiad ar ddefnydd halen yn parhau, h.y. does dim gwarant o gyflenwad ar gyfer biniau halen er enghraifft.

- 2.2 Yr ydym a 6 Cromen Halen drwy'r Sir a gwelir y rhain yng Nghaernarfon, Afonwen, Dolgellau, Blaenau Ffestiniog, Bala a Mona.

- 2.3 Mae'r tabl isod yn amlygu'r tunelledd sydd yn gallu eu cadw ynddynt:

Cibyn Caernarfon	2500 t
Afonwen Pwllheli	3000 t
Ffordd Bala Dolgellau	3500 t
Blaenau Ffestiniog	4000 t
Bala	3000 t
Mona	1800 t
Strategol – (Blaenau a Llandygai)	4000 + 5000 = 9000 t

- 2.4 Yr ydym a threfn o raeanu ffyrdd prif-flaenoriaeth, rhain yn cynnwys prif ffyrdd, prif lwybrau bysus a llwybrau'r gwasanaethau brys. Mae'r rhain wedi eu gweithredu ar sail ardal.
- 2.5 Heblaw Stryd Fawr Bangor, Y Maes/Stryd y Llyn, Caernarfon sydd yn 'pedestrianised' ac yn lwybrau Graeanu Blaenoriaeth 1, nid ydym yn graeanu troedffyrdd hyd nes bod sicrwydd bod y Prif Rwydwaith (Blaenoriaeth 1) wedi ei drin a bod adnoddau yn caniatáu.
- 2.6 Y nesaf o ran blaenoriaeth yw'r Ffyrdd Eilradd – os heb eu trin a'r sefyllfa'n parhau wedi 36 awr. Yn ddilynol i hyn, bydd troedffyrdd yn derbyn sylw pan fydd adnoddau yn caniatáu. Yn hanesyddol, byddwn yn defnyddio gweithlu bwrdeistrefol i drin troedffyrdd yn ein trefi ynghynt yn y broses os yw'r adnoddau a'r amgylchiadau yn caniatáu.
- 2.7 Graeanu i eraill - Mae ganddom drefniadau penodol gyda'r Ymddiriedolaeth Iechyd, gwasanaethau brys i sicrhau parhad gwasanaeth fel graeanu, ymdrin â gwastraff a chadw'r depos yn agored. Trefniadau arbennig ar gyfer sefyllfaoedd o salwch difrifol a phrofedigaethau fel y maent yn codi. Graeanu ysgolion, mynediad i lyfrgelloedd, canolfannau hamdden a.y.y.b, mae hyn yn cael ei wneud dan gytundeb/drefniant gyda'r gweithlu bwrdeistrefol. Mae hwn yn waith llaw, faniau bychain/bagiau graean/halen.
- 2.8 Y Bin halen - Mae'n rhaid cael cynhwysydd priodol (sy'n dal dŵr), mae'n amgylcheddol ddinistriol/drosedd peidio gwneud hyn. Maent yn destun fandaliaeth, camddefnydd (defnyddio ar gyfer sbwriel/baw ci ac yn y blaen).
- Angen cynhwysydd pwrpasol, wedi ei leoli mewn lle diogel, ddim yn achosi problemau gwelededd, tramwyo a mynediad. Angen rheolaeth ar ei ddefnydd, atal camddefnydd, defnydd gan eraill.
- 2.9 Biniau Halen Presennol - Mae'r biniau haled wedi eu lleoli mewn lleoliadau trafferthus hysbys gan gynnwys ar lethrau, cyffyrdd a throadau sydyn ar ffyrdd di-flaenoriaeth. Nid ydynt ar lwybrau graeanu prif flaenoriaeth.
- 2.10 Rôl Cyngorau Cymuned a Thref (presennol)
- Yn Atodiad 1 gweler fanylder o'r Cyngorau Cymuned a Thref sydd wedi arwyddo fyny hyd yn hyn
 - Cost llenwi bin halen - erbyn hyn £42 y bin halen (cost gang o ddau i'w llenwi a'r halen) ceisio pecynnu gwaith
 - Anodd rhoi nifer ceisiadau/nid oes gaeaf caled iawn wedi bod/nifer sydd yn gofyn am gael llenwi bin halen yn ad-hoc iawn
 - Pe byddai pob Cyngor Cymuned sydd wedi ymrwymo yn llenwi'r bin halen unwaith mewn tymor gaeaf, byddai hyn gyfwerth â thua £21k
 - Nid oes gofyn statudol o gyflenwi biniau halen
 - Gwyddom yn hanesyddol fod nifer yn helpu ei hun i'r halen a rhai ar ffyrdd preifat
 - Yn sicr mae'r drefn dan reolaeth erbyn hyn pan ddaw at geisiadau am finiau halen
 - Ble mae cais am fin halen o'r newydd, mae hyn yn cael ei gytuno gyda'r Cyngor Cymuned/Tref ac rydym yn edrych ar ail-leoli yn hytrach na ychwanegu (nid oes fawr o geisiadau erbyn hyn).

3. Camau Nesaf

3.1 Tra gweler bod nifer o'r Cyngorau Cymuned a Thref wedi arwyddo fyny, ers cyflwyno'r newid nid ydym wedi cael gaeaf caled iawn er gweld sut mae'r drefn yn gweithio.

3.2 Mae'n deg nodi bod pryderon wedi eu codi a rhestraf isod y materion hyn.

- Ein trefniadau ail-flaenoriaeth ddim yn weithredol mewn rhai manau lle oedd binnau halen
- Nifer o Gyngorau Cymuned a Thref yn dal heb arwyddo fyny ac felly dim trefniant bin halen yn bodoli
- Ein gweithwyr wedi mynegi pryder am yrru ar hyd rhai ffyrdd cul a serth
- Posib effaith ar yswiriant rhai o'n gyrwyr
- Yn hanesyddol, anghysondeb yn y nifer o finiau mewn rhai cymunedau, fyddai'n golygu cost uchel i'r gymuned os yn llenwi pob bin.

3.3 Ffyrdd gwahanol o weithredu

- Darparu biniau graean mewn ardaloedd trefol a gwledig i drigolion lleol eu defnyddio (bydd angen cyllideb ychwanegol ar y Gwasanaeth er cyflawni)
- Edrych ar amseriad ein trefniadau ein ail-flaenoriaeth
- Darparu gwasanaeth lle byddai'r bin halen yn cael ei lenwi ar ddechrau'r tymor gan weld Cyngorau Cymuned yn talu am unrhyw ail-lenwi pellach yn ystod tymor y gaeaf
- Cyflwyno cynllun ar sail uchder tir (byddai angen cytundeb ar y trothwy)
- Ail-lunio'r cynllun ar sail poblogaeth y ward
- Edrych ar gyfleon o weithio gyda'r gymuned leol (e.e. cyflwyno trefn o roi aradr i ffermwyr).

3.4 Trefniadau sydd mewn lle gan awdurdodau eraill

Mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cyswllt ac awdurdodau ar draws Cymru ac mae'r tabl isod yn amlygu'r sefyllfa gyfredol:

8	Nodi trefn lle mae dim biniau halen
3	Nodi trefn o ollwng halen ar ymylon lleoliadau problemus
6	Nodi trefn biniau halen fel yr oedd ganddom yma yng Ngwynedd
5	Heb adrodd yn ôl

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Biniau Halen

Arfon			Dwyfor			Meirionnydd		
Wedi Ymrwymo								
Cyngor Cymuned	Nifer	Ceisiadau 2021	Cyngor Cymuned	Nifer	Ceisiadau 2021	Cyngor Cymuned	Nifer	Ceisiadau 2021
Abergwyngregyn	8	1	Botwnnog	9		Arthog	8	4
Bangor	11		Llanaelhaearn	8		Brithidr, Llanfachreth a Rhydymain	13	4
Bontnewydd	3		Llanbedrog	3		Corris	2	
Llanberis	28		Llannor	5		Dolgellau	10	
Llanddeiniolen	62	2	Llanystumdwy	5		Dyffryn Ardudwy	4	
Waunfawr	4		Pistyll	6		Ffestiniog	25	24
Llandygai	36	1	Pwllheli	5	1	Ganllwyd	10	
Betws Garmon	6		Tudweiliog	3	3	Harlech	6	
Llanllechid	10	1	Clynnog	19	3	Llanbedr	5	
Llanfelinheli	17	1	Llanengan	10		Llanegryn	3	3
Llanfentir	15	1				Llanelltyd	8	3
Llanfawr	11					Llanfair	7	1
Llanfyllfn	25					Llanfihangel y Pennant	6	1
Llandwrog	18					Llanfrothen	9	2
						Llangelynnin	12	4
						Llangywer	10	10
						Llanuwchllyn	17	6
						Maentwrog	8	
						Mawddwy	13	13
						Talsarnau	10	2
						Tywyn	2	
						Bermo	9	9
Cyfanswm: 14			Cyfanswm: 10			Cyfanswm: 22		
Heb Ymrwymo								
Bethesda			Aberdaron	8		Aberdyfi		
Llanwnda			Beddgelert	8		Bala		
Llanrug			Buan	1		Bryncrug		
			Criccieth	2		Llandderfel		
			Dolbenmaen	41		Llanycil		
			Nefyn	6		Pennal		
			Porthmadog	8		Penrhyndeudraeth		
						Trawsfynydd		
Cyfanswm: 3			Cyfanswm: 7			Cyfanswm: 8		

Eitem 8

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD Y CYFARFOD	13 Gorffennaf 2021
TEITL	Diweddariad - Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Gareth W Griffith
PWRPAS	Diweddaru'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma

1. CEFNDIR

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor er rhoi diweddariad ar yr Adolygiad Strategol Cludiant.
- 1.2 Mae'r Adran Amgylchedd wedi cyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ar yr 9fed Hydref 2018 yn amlinellu'r trafferthion gyda chwmnïau bysiau sydd wedi effeithio teithwyr yng Ngwynedd ers 2014. Yr oedd yr adroddiad hwn yn adnabod risgiau, a'r prif risg o ystyried yr hanes oedd orddibyniaeth ar gwmnïau bysiau. Prif effaith y risg hwn ymysg eraill oedd cynyddu costau cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd gan leihau nifer o wasanaethau ar gael i'r defnyddwyr.
- 1.3 Er mwyn lliniaru'r risgiau yma datganwyd bwriad yr Adran i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth Cludiant Cyhoeddus ac i ymgynghori gyda chymunedau i wneud y canlynol:
 - Adnabod yr angen
 - Asesu'r gwerth cymdeithasol
 - Blaenoriaethu gwasanaethau
 - Cynnig cludiant drwy arloesi a chael mwy am ein harian prin
- 1.4 Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 4ydd Ebrill 2019 yn cynnig diweddariad ac yn benodol amlinellu nod yr adolygiad Cludiant Cyhoeddus a'r dull o weithredu. Esboniwyd bod yr adolygiad am ystyried y rhwydwaith cludiant cyhoeddus presennol ac asesu os yw'n addas at y diben gyda'r bwriad o sefydlu rhwydwaith diogel, dibynadwy a chost effeithiol i'r dyfodol.
- 1.5 Diweddarwyd y Tîm Arweinyddiaeth ar 24 Fedi 2019 a'r Pwyllgor Craffu ar 26 Fedi 2019 [Atodiad 1] ar gynnydd yr Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus.

- 1.6 I atgoffa'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, bwriedir cyflawni'r adolygiad drwy ymgymryd â'r 7 cam canlynol:
1. Canfod beth yw'r angen gan y cyhoedd; nid yn unig beth yw'r galw gan y rhai sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd ond hefyd beth fyddai'n annog aelodau eraill o'r cyhoedd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Gwneir hyn drwy ymgysylltu ac ymgynghori.
 2. Wedi sefydlu'r angen, bydd y rhwydwaith presennol yn cael ei archwilio i sicrhau y gall ddiwallu anghenion y cyhoedd sy'n teithio. Byddai hyn yn cynnwys gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r rhwydwaith.
 3. Wedi sefydlu'r rhwydwaith, bydd angen ystyried pa fath o ddarpariaeth fydd y mwyaf diogel, mwyaf dibynadwy a chost effeithiol. Dyma ble fydd angen i ni dynnu ar brofiad awdurdodau eraill ac arbenigwyr i werthuso opsiynau.
 4. Ymgynghori â chymunedau i rannu canlyniad yr adolygiad a'r amserlen ar gyfer sefydlu'r rhwydwaith newydd cyn cychwyn ar y broses dendro.
 5. Cychwyn y broses dendro.
 6. Os yw'r arian yn annigonol i ddiwallu'r angen, yna bydd angen blaenoriaethu'r llwybrau bws yn seiliedig ar ddadansoddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (Social Return on Investment).
 7. Cychwyn y gwasanaeth newydd.
- 1.7 Mae'r Adran yn awyddus i dreialu ffyrdd amgen o ddiwallu anghenion trafndiaeth drwy e.e. defnyddio dulliau trafndiaeth gymunedol, gwasanaethau ar-alw, bysiau mini, tacsis ayyb.
- 1.8 Amlinellwyd amserlen gweithredu [Atodiad 2] ac y mae nawr yn amserol i adrodd ar y cynnydd hyd yn hyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.
- 1.9 Felly prif bwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddarau ar gynnydd ynghyd a'r camau nesaf y bydd yr Adran yn gweithredu arnynt

2. DIWEDDARIAD

Gwaith holi

- 2.1 I sicrhau bod yr Adran yn deall pa wasanaethau mae ein trigolion eu hangen a hefyd i ddeall pwrpas siwrneiau unigolion casglwyd gwybodaeth angenrheidiol drwy ddefnyddio holiaduron.
- 2.2 Casglwyd holiaduron papur, a rhain yn bennaf o ddigwyddiadau cymunedol wedi eu trefnu mewn lleoliadau ar draws y Sir flaen llaw, neu swyddogion yn eistedd ar fws neu safle bws ac yn cwblhau'r holiaduron gyda defnyddwyr. Casglwyd nifer o holiaduron ar lein, ac yr oedd llwyddiant o gael ymateb mor uchel i lawr i nifer o aelodau a swyddogion farchnata'r angen i ymateb.

2.3 Mae'r gwaith dadansoddi'r holiaduron bellach wedi ei gwblhau, ac mae'r wybodaeth sydd wedi ei gasglu wedi bwydo 2 brif ffrwd gwaith sef:

- Canfod 'gwerth cymdeithasol' y gwasanaethau (wedi eu sybsideiddio) yr ydym yn eu paratoi
- Adolygu ein 'rhwydwaith cludiant cyhoeddus' i sicrhau ein bod yn cwrdd â'r angen yn y modd fwyaf effeithiol

3. GWERTH CYMDEITHASOL GWASANAETHAU YR YDYM YN EI BARATOI

3.1 Dylid nodi nad yw gwasanaethau masnachol na gwasanaethau 'Sherpa'r Wyddfa' wedi eu cynnwys fel rhan o'r gwaith 'gwerth cymdeithasol'. Mae adroddiad ar wahân wedi ei chwblhau i ystyried anghenion Pario a Thrafnidiaeth Gyhoeddus yng Ngogledd y Eryri drwy 'Partneriaeth yr Wyddfa'.

3.2 Mae adroddiad cynhwysfawr wedi ei gomisiynu gennym ac wedi ei baratoi gan Brifysgol Bangor [Atodiad 3] sydd yn esbonio mewn manylder y cefndir a'r fethodoleg i gyrraedd at y canlyniadau. Mae gwerth cymdeithasol wedi ei gyfrifo ar gyfer y 39 llwybr bws sydd wedi ei sybsideiddio. Wrth ystyried y gwerth cymdeithasol ynghyd a chost o baratoi gwasanaeth ar lwybr penodol mae 'enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad' yn gallu cael ei ganfod (Social Return on Investment [SROI]). Mae methodoleg SROI wedi ei argymhell gan y Trysorlys fel ffurf o asesu, ac wrth gwrs mae ystyried gwerth cymdeithasol yn rhan bwysig dros ben wrth i ni ystyried Deddf Cenedlaethau i'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.3 Wrth ystyried y cymhared SROI mae cryn dipyn o wahaniaeth rhwng gwahanol lwybrau. Ar un pegwn mae 9 llwybr yn amlinellu bod gwerth cymdeithasol dros £10 am bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi ac ar y pegwn arall mae 4 llwybr yn amlinellu bod gwerth cymdeithasol o llai na £1 am bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi. Mae'r tabl perthnasol wedi ei gynnwys yn nhabl 12.2 o'r adroddiad yn Atodiad 3 ac wedi ei gynnwys isod yn Nhabl 1.

Tabl 1: Methodoleg Gwerth Cymdeithasol i gymharu llwybrau bysiau (fel Tabl 12.2 adroddiad Atodiad 2)

Cymarebau gwerth cymdeithasol yn fwy na £10 : 1		Cymarebau gwerth cymdeithasol rhwng £10 : 1 a £6 : 1		Cymarebau gwerth cymdeithasol rhwng £6 : 1 a £3 : 1		Cymarebau gwerth cymdeithasol llai na £3 : 1	
1) Llwybr 38	£59.96	10) Llwybr 1F	£9.93	19) Llwybr 83	£5.87	29) Llwybr 29	£2.97
2) Llwybr 88	£36.36	11) Llwybr 8	£9.79	20) Llwybr 37	£5.30	30) Llwybr 27	£2.75
3) Llwybr 3B	£22.89	12) Llwybr 67S	£9.02	21) Llwybr 76	£4.78	31) Llwybr 1S	£2.34
4) Llwybr 30	£16.38	13) Llwybr 28	£8.53	22) Llwybr 17	£3.98	32) Llwybr 1NS	£2.25
5) Llwybr 12E	£14.31	14) Llwybr 85	£8.16	23) Llwybr 1E	£3.91	33) Llwybr 23	£2.20
6) Llwybr 93	£13.63	15) Llwybr 39	£7.96	24) Llwybr 18	£3.64	34) Llwybr 88S	£2.03
7) Llwybr 5E	£12.44	16) Llwybr 35	£6.77	25) Llwybr 3	£3.44	35) Llwybr 67E	£1.31
8) Llwybr 1N	£11.38	17) Llwybr 92	£6.21	26) Llwybr 3S	£3.27	36) Llwybr 8S/18S	£0.76
9) Llwybr 78	£10.69	18) Llwybr 1A	£6.15	27) Llwybr 91	£3.11	37) Llwybr 14	£0.72
				28) Llwybr 33	£3.08	38) Llwybr 2S	£0.44
						39) Llwybr 8AB	£0.31

3.4 Yn gryno iawn mae'r gwaith yn adnabod bod teithwyr o bob oedran yn cael budd o wasanaethau bws sydd wedi ei sybsideiddio. Mae'r adroddiad yn tynnu ein sylw at ein poblogaeth sy'n heneiddio ac yn ddibynol ar Gludiant Cyhoeddus ar gyfer ei annibyniaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu bod oddeutu 1 ym mhob 5 o gartrefi heb gerbyd yng Ngwynedd. Mae'r adroddiad yn dod i'r canlyniad bod gwasanaethau bws sydd wedi eu sybsideiddio yn cynnig gwerth cymdeithasol positif drwy alluogi pobl i deithio i'w gwaith, addysg, siopau, apwyntiadau meddygol, cyfleoedd i wirfoddoli ac i gymdeithasu a gofalu am eraill.

4. ADOLYGU'R RHWYDWAITH CLUDIANT CYHOEDDUS

4.1 Mae'r rhwydwaith Cludiant Cyhoeddus presennol wedi datblygu'r raddol dros flynyddoedd a does dim adolygiad cynhwysfawr wedi ei gynnal i sicrhau ein bod yn cyfarch yr angen yn y modd fwyaf effeithiol.

4.2 Gyda'r cyfoeth o wybodaeth sydd wedi ei gasglu drwy'r holiaduron ynghyd a chanlyniadau'r adroddiad gwerth cymdeithasol sydd wedi ei baratoi gan Brifysgol Bangor mae cyfle arbennig i fod yn edrych yn fanwl ar y rhwydwaith presennol a sicrhau ei fod yn addas i bwrpas ac yn cwrdd â'r gofyn.

4.3 Mae'r Adran Amgylchedd wedi derbyn cefnogaeth arbenigol gan 'Trafnidiaeth i Gymru (Transport for Wales [TfW]) i fod yn ystyried y rhwydwaith. Mae gwaith trylwyr iawn wedi ei wneud ganddynt sy'n adnabod rhai gwasanaethau sy'n cael eu dyblygu gan y gwasanaethau 'Traws Cymru' sydd yn wasanaethau sydd wedi eu sybsideiddio gan Llywodraeth Cymru. Mae hyn wrth gwrs yn codi'r cwestiwn a yw hi'n bosib i un gwasanaeth gyfarch anghenion lleol a 'Traws Cymru'? Mae'r cwestiwn yma wedi ei ystyried yn ddwys iawn, ac mae posib ond fe fyddai angen i'r Gwasanaethau Traws Cymru (yn benodol y llwybrau T2 a T3) fod yn rhedeg pob awr yn hytrach na phob 2 awr.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru erbyn hyn wedi comisiynu gwaith i ystyried rhwydweithiau bysiau ledled Cymru gyda'r golwg o ganfod cysondeb a llif gwell drwy Siroedd i gludo ein trigolion yn y modd fwyaf effeithiol. Mae swyddogion o'r Adran yn gweithio'n agos iawn gyda 'Trafnidiaeth i Gymru' a chwmni ARUP i'r perwyl hyn ac yn awyddus iawn sicrhau bod gwasanaethau pwysig cefn gwlad yn cael eu gwarchod.

4.5 Yn ogystal i hyn mae'r Adran wedi cychwyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddeall a yw'n bosib cynyddu amllder y gwasanaethau 'Traws Cymru'. Ar hyn o bryd mae costau sylweddol yn ymddangos yn rhwystr. Mae opsiynau ehangach yn cael eu hystyried gan gynnwys cyd-ariannu i geisio sefydlu rhwydwaith cadarn sy'n cwrdd ag anghenion y sawl sy'n teithio'n lleol ynghyd a'r sawl sy'n awyddus teithio pellter. Mae'n galonogol bod Gwynedd wedi derbyn dros £3.7 miliwn ar gyfer paratoi is-adeiledd a phwrcasu bysiau trydan i gyfarch gwasanaethau bysiau Traws Cymru T22 [rhwng Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon gan fynd heibio Cricieth a Rhoslan]. Fe fydd y gwasanaeth ychwanegol yn rhoi gwell gwasanaeth i gymunedau Gwynedd rhwng Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon

4.6 Ar yr un pryd mae'r Adran wedi bod yn ystyried pecynnau tendr ar gyfer gwasanaethau wedi eu sybsideiddio ac eto mae cyswllt gyda TfW o ran sicrhau ein bod yn arloesi i sicrhau gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian tra'r cwrdd â'r angen. Bwriad yr Adran oedd ail dendro Ardal Arfon o'r Sir yn gyntaf, gyda'r gwasanaethau newydd yn cychwyn yn ystod mis Medi 2021. Yn ystod 2021 yr oedd bwriad gan yr Adran yn ail dendro gwasanaethau yn Nwyfor gydag ail dendro Meirionnydd yn 2022 ond mae pandemig COVID wedi gorfodi'r Adran oedi ar y gwaith hwn.

4.7 Yn gyffredinol mae defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cludiant Cyhoeddus yn sylweddol is, ac o'r adborn yr ydym yn ei dderbyn y rheswm tu cefn i hyn yw hyder i fod yn cymysgu gydag eraill ar y daith yng nghyd-destun y pandemig COVID. Mae cyfyngiadau ar y niferoedd all deithio ar fws yn ogystal ag angen i gadw ffenestri yn agored a gwisgo gorchudd wyneb. Mae'r Adran yn cydweithio gyda darparwyr Cludiant Cyhoeddus yn ogystal â chyrff eraill i geisio ail-sefydlu hyder teithwyr a galluogi'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau gael y rhyddid i fyw yn annibynnol unwaith eto.

5. AMSERLEN BERTHNASOL

5.1 Bwriad yr Adran, yn unol â'r amserlen oedd symud ymlaen i'r broses tendro er gosod rhan Arfon o'r rhwydwaith newydd yn ei le erbyn Medi 2020 gyda'r ardaloedd eraill i ddilyn. Mae'r cyfnod heriol sydd wedi ein taro gyda COVID 19 wedi golygu ail feddwl ar hyn. Mae'r Adran o'r farn y byddai prisiau ddim yn gystadleuol gan fod hyder cwmnïau yn isel. Mae penderfyniad felly i oedi ar ddechrau'r ail dendro hyd nes y Gwanwyn 2021.

5.2 Mae'r Adran y gweithio gyda Thrafnidiaeth i Gymru a chwmni ARUP i adolygu rhwydwaith bysiau yng Ngwynedd ac mae hyn y cyd-destun cenedlaethol adolygiad rhwydwaith bysiau cenedlaethol.

5.3 Mae'r adran yn gweithio i osod isadeiledd pwrpasol a phwrcasu bysiau trydan i redeg gwasanaeth T22 [Blaenau Ffestiniog i Gaernarfon] gyda'r golwg o ddechrau'r gwasanaethau hyn yn ystod y Gwanwyn 2022

5.4 Fe fydd yr Adran yn monitro defnydd Gwasanaethau Cludiant Cyhoeddus a chydweithio gyda'r darparwyr a chyrff eraill i hyrwyddo ac ail sefydlu hyder teithwyr sydd wedi ei danseilio oherwydd y pandemig.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu 26.09.19

Atodiad 2: Amserlen Gweithredu

Atodiad 3: Adroddiad Prifysgol Bangor

ENW'R PWYLLGOR CRAFFU	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD Y CYFARFOD	26 MEDI 2019
TEITL	Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Gareth W Griffith
PWRPAS	Diweddaru'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma

1. CEFNDIR

- 1.1 Fe gyflwynwyd adroddiad gan yr Adran Amgylchedd i'r Tîm Arweinyddiaeth ar yr 9fed Hydref 2018 yn amlinellu'r trafferthion gyda chwmnïau bysiau sydd wedi effeithio teithwyr yng Ngwynedd ers 2014. Yr oedd yr adroddiad hwn yn adnabod risgiau, a'r prif risg o ystyried yr hanes oedd orddibyniaeth ar gwmnïau bysiau. Prif effaith y risg hwn ymysg eraill oedd cynyddu costau cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd gan leihau nifer o wasanaethau ar gael i'r defnyddwyr.
- 1.2 Er mwyn lliniaru'r risgiau yma datganwyd bwriad yr Adran i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth Cludiant Cyhoeddus ac i ymgynghori gyda chymunedau i wneud y canlynol:
- Adnabod yr angen
 - Asesu'r gwerth cymdeithasol
 - Blaenoriaethu gwasanaethau
 - Cynnig cludiant drwy arloesi a chael mwy am ein harian prin.
- 1.3 Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 4ydd Ebrill 2019 (Atodiad 1) yn cynnig diweddariad ac yn benodol amlinellu nod yr adolygiad Cludiant Cyhoeddus a'r dull o weithredu.
- 1.4 Esboniwyd y bod yr adolygiad am ystyried y rhwydwaith cludiant cyhoeddus presennol ac yn asesu os yw'n addas at y diben gyda'r bwriad o sefydlu rhwydwaith diogel, dibynadwy a chost effeithiol i'r dyfodol.
- 1.5 Cyflawnir hyn drwy ymgymryd â'r 7 cam canlynol:
1. Canfod beth yw'r angen gan y cyhoedd; nid yn unig beth yw'r galw gan y rhai sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd ond hefyd beth fyddai'n annog aelodau eraill o'r cyhoedd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Gwneir hyn drwy ymgysylltu ac ymgynghori,
 2. Wedi sefydlu'r angen, bydd y rhwydwaith presennol yn cael ei archwilio i sicrhau y gall ddiwallu anghenion y cyhoedd sy'n teithio. Byddai hyn yn cynnwys gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r rhwydwaith,
 3. Wedi sefydlu'r rhwydwaith, bydd angen ystyried pa fath o ddarpariaeth fydd y mwyaf diogel, mwyaf dibynadwy a chost effeithiol. Dyma ble fydd angen i ni dynnu ar brofiad awdurdodau eraill ac arbenigwyr i werthuso opsiynau,
 4. Ymgynghori â chymunedau i rannu canlyniad yr adolygiad a'r amserlen ar gyfer sefydlu'r rhwydwaith newydd cyn cychwyn ar y broses dendro,

5. Cychwyn y broses dendro,
 6. Os yw'r arian yn annigonol i ddiwallu'r angen, yna bydd angen blaenoriaethu'r llwybrau bws yn seiliedig ar ddadansoddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (Social Return on Investment),
 7. Cychwyn y gwasanaeth newydd.
- 1.6 Bydd yr adolygiad hefyd yn rhoi cyfle i'r Cyngor dreialu ffyrdd amgen o ddiwallu anghenion trafniadaeth drwy e.e. defnyddio dulliau trafniadaeth gymunedol, gwasanaethau ar-alw, bysiau mini, tacsis ayyb.
 - 1.7 Amlinellwyd amserlen gweithredu (Atodiad 2) ac y mae nawr yn amserol i adrodd ar y cynnydd hyd yn hyn i'r Tîm Arweinyddiaeth a hefyd i'r Pwyllgor Craffu perthnasol
 - 1.8 Felly prif bwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddarau ar gynnydd ynghyd a'r camau nesaf y bydd yr Adran yn gweithredu arnynt.

2. DIWEDDARIAD

- 2.1 Gwelwch o'r amserlen y bod cryn dipyn o fuddsoddiad amser ac ymdrech wedi ei neilltuo ar gyfer casglu gwybodaeth gan er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael eu seilio ar yr angen ac yn cael eu blaenoriaethu ar sail gwerth cymdeithasol. Gasglwyd yr wybodaeth angenrheidiol drwy ofyn i'n trigolion gwblhau holiaduron (Atodiad 3)
- 2.2 Casglwyd 951 o holiaduron papur, a rhain yn bennaf o ddigwyddiadau cymunedol wedi eu trefnu mewn 13 lleoliad ar draws y Sir flaen llaw, neu swyddogion yn eistedd ar fws neu safle bws ac yn cwblhau'r holiaduron gyda defnyddwyr. Casglwyd 1,070 o holiaduron ar lein, ac yr oedd llwyddiant o gael ymateb mor uchel i lawr i nifer o aelodau a swyddogion farchnata'r angen i ymateb.
- 2.3 Mae cyfoeth o wybodaeth wedi ei hel, rhywfaint yn feintiol (quantative) a rhywfaint yn ansoddol (qualitative).
- 2.4 Mae gwaith dadansoddi cychwynnol wedi ei wneud ar yr 2021 o holiaduron a gwblhawyd, sydd yn rhoi blas o'r math o fanylder gallwn ddisgwyl. O'r wybodaeth gychwynnol mae'n ymddangos y bod 40% o ddefnyddwyr gyda 'tocyn mantais' a 38% ohonynt dros 60 oed. Mae oddeutu 60% o deithwyr yn ferched a tua hanner y teithwyr yn teithio pob dydd, gyda thua 37% yn defnyddio'r bws yn wythnosol.
- 2.5 Y prif reswm dros ddefnyddio'r bws (roedd posib dewis fwy nac un rheswm) yw cymdeithasu (56%), a siopa (52%). Mae defnydd o'r bws i waith yn 23%, ac apwyntiadau iechyd yn 21% gyda defnydd o gludiant i wneud ymarfer corff yn 13% ac 10% fel mynediad i addysg.
- 2.6 Be sydd yn ddiddorol yw bod 31% wedi datgan na fyddent yn gwneud y siwrne pe byddai cludiant ddim ar gael. Fe wnaeth 20% amlinellu y byddent yn gorfod dibynnu ar ffrindiau neu deulu ac eraill yn ceisio defnyddio tacsî (17%), cerdded (12%), neu gyrru gyda cherbyd personol (9%).

- 3.7 O ran sut mae cludiant cyhoeddus yn cyfoethogi bywydau'r sawl sy'n teithio yr oedd 88% yn teimlo bod hyn yn cynnig fwy o annibyniaeth a rhyddid iddynt, ac yn galluogi iddynt weld eraill, cymdeithasu (76%) a siopa (70%). Yr oedd y gallu i fynychu apwyntiadau meddygol yn rhywbeth yr oedd cludiant cyhoeddus yn galluogi trigolion ei wneud (44%) a chael mynediad i'w gwaith (32%).
- 2.8 Dyma rhai enghreifftiau o ymatebion pan ofynnwyd y cwestiwn 'Os na fuasai'r bws yn rhedeg, sut y byddai yn effeithio eich bywyd?'
- "Sa' waeth i chwi roi fi mewn bocs, fysa fy mywyd i ddim gwerth ei fyw, does gen i ddim teulu."
 - "Styc yn t?, fyswn i ddim yn gallu mynd i weld fy ngwraig sydd mewn cartref ym Mhwillheli, mae tacsï rhy ddrud"
 - "Ddim yn gallu teithio i fynd i'r ganolfan waith fysa yn golygu colli fy mudd-daliadau ac wedyn colli fy nghartref oherwydd dim budd-daliadau yn dod i mewn"
 - "Colli fy annibyniaeth, gorfod dibynnu ar ffrindiau a theulu i fynd a fi i siopa"
 - "Ddim yn gallu mynd i apwyntiadau Ysbyty Gwynedd"
- 2.9 Ymatebodd 140 nad oeddent yn defnyddio'r bws, ac esbonio'r prif resymau am hynny fel a ganlyn:
- Dim digon o amllder yn y gwasanaeth
 - Dim gwasanaeth o gwbl
 - Rhy ddrud
 - Stopio gormod

3. CAMAU NESAF

- 3.1 Mae gwaith asesu'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i ystyried yr holl holiaduron, ac ar sail yr ymatebion fe fyddwn yn mynd ati i wneud 3 prif agwedd sef:
- Adolygu addasrwydd y rhwydwaith cludiant presennol
 - Sicrhau ein bod yn cwrdd ar angen yn y modd fwyaf cost effeithiol (gan leihau gorddibyniaeth ar gwmnïau bws)
 - Blaenoriaethu'r siwrneiau/ llwybrau ar sail gwerth cymdeithasol
- 3.2 Mae'r rhwydwaith presennol (dartun wedi ei atodi yn Atodiad 4) wedi datblygu ers degawdau, ac nid oes unrhyw dystiolaeth y bod hwn wedi ei adolygu'n gynhwysfawr yn ystod y cyfnod hwn.
- 3.3 Y nod yma yw sicrhau bod y rhwydwaith yn cwrdd â'r angen. Mae hwn yn waith eithaf technegol ac mae'r adran yn cydweithio gyda swyddogion o 'Drafnidiaeth Cymru' i geisio sefydlu rhwydwaith sy'n cwrdd â'r galw. Mae'r gwaith yma bron wedi ei gwblhau, a'r bwriad yw cael rhannau o'r rhwydwaith mewn sefyllfa i fynd i'r ail gam sef tendro teithiau i sicrhau ein bod yn cwrdd ar angen yn y modd fwyaf cost effeithiol. Bwriad yr Adran yw tendro holl deithiau Cludiant Cyhoeddus yn Ardal Arfon o'r Sir fel y bod y Gwasanaethau newydd yn cychwyn yn yr Ardal mis Ebrill 2020. Disgwylir i'r broses ail dendro gan ddefnyddio cludiant amgen i fws alluogi'r Adran gyflwyno'r gwasanaethau cludiant cyhoeddus sydd eu hangen o fewn y gyllideb ar gael.

- 3.4 Rhan arall hynod bwysig o'r gwaith sydd yn mynd rhagddo yw'r elfen o adnabod y gwerth cymdeithasol sy'n cael ei gynnig gan bob gwasanaeth cludiant cyhoeddus ac fe fyddwn yn blaenoriaethu'r teithiau ar sail Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (Social Rate of Return). Wrth gwrs, os nad oes arian digonol i gyfarfod y gost o ddarparu'r gwasanaethau mae posib torri'r gwasanaethau sy'n cyflwyno'r Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau isaf neu ddefnyddio'r dystiolaeth 'gwerth cymdeithasol' i geisio canfod arian ychwanegol.

Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau 04.04.19

Atodiad 2: Amserlen yr Adolygiad

Atodiad 3: Holiadur



Gwerth cymdeithasol llwybrau bws cymorthdaledig i deithwyr bws yng Ngwynedd.

*“Rhoi llais i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn penderfyniadau
am ddyrannu adnoddau.”*



Dr Ned Hartfiel
Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards
Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
Prifysgol Bangor



Cynnwys

Cydnabyddiaeth	2
Crynodeb Gweithredol.....	3
1. Ynghylch Gwynedd	4
2. Ynghylch gwasanaethau bws cymorthdaledig	6
3. Cyflwyniad i'r gwerthusiad hwn	7
4. Dadansoddiad cost budd cymdeithasol	8
4.1 Parodrwydd i dalu / Parodrwydd i dderbyn	8
4.2 Adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad	9
4.3 Adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (gan ddefnyddio'r gwerth llesiant)	9
4.2 Adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (yn y gwerthusiad hwn)	10
5. Adnabod budd-ddeiliaid	10
6. Datblygu Damcaniaeth Newid	11
7. Mewnbynau.....	12
8. Deilliannau	14
8.1 Dangosyddion deilliannau	14
8.2 Tystiolaethu deilliannau	15
9. Rhoi gwerth ar ddeilliannau	19
10. Cyfrifo'r gymhareb gwerth cymdeithasol	20
10.1 Amcangyfrif y gymhareb gwerth cymdeithasol	21
10.2 Amcangyfrif y llwyth ('deadweight')	21
11. Dadansoddiad sensitifrwydd	22
12. Cymharu llwybrau bws	22
12.1 Cymharu'r dull gwerth cymdeithasol â'r dull cost fesul siwrne	23
12.2 Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr	24
13. Trafodaeth.....	25
13.1 Prif ganfyddiadau	26
14. Casgliad.....	28
15. Deunydd Cyfeiriol	28
Atodiad 1: Holiadur Bws Lleol Gwynedd 2019	30
Atodiad 2: Crynodeb gwerth cymdeithasol o bob llwybr bws	34

Cydnabyddiaeth

Diolch arbennig i Ffion Haf am hwyluso'r gwaith o gasglu data, i Andrew Johnson am gefnogi'r dadansoddiad ystadegol, i Dr Catherine Lawrence a Dr Llinos Haf Spencer am olygu, ac i Tom Pollock (excellent-design.co.uk) am y gwaith dylunio graffeg, ac i Efan Thomas am ei luniau bws.



Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Bu i'r astudiaeth hon amcangyfrif y gwerth cymdeithasol a grëwyd ar gyfer 1,729 o deithwyr bws yng Ngwynedd a gwblhaodd holiaduron rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2019. Amcangyfrifwyd gwerth cymdeithasol drwy gymharu'r gwerth cymdeithasol a grëwyd i deithwyr gyda'r costau a dalwyd gan yr Awdurdod Lleol (ALL) i ddarparu gwasanaethau bws cymorthdaledig.

Roedd mesur gwerth cymdeithasol yn cynnwys meintioli a rhoi gwerth ariannol ar y pwysigrwydd yr oedd teithwyr bws yn ei roi ar y prif ddeilliannau yr oeddynt yn eu profi, gan gynnwys mynediad at waith cyflogedig, mynediad at apwyntiadau gofal iechyd, mynediad at weithgareddau cymdeithasol a siopa, mynediad at addysg a hyfforddiant, a mynediad at wirfoddoli neu ofalu am aelodau'r teulu.

Dulliau

Defnyddiwyd methodoleg adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI) i amcangyfrif y gwerth cymdeithasol i deithwyr. Roedd y rhesymau dros ddull SROI yn cynnwys: yn gyntaf, mae SROI yn ffurf ymarferol o wneud dadansoddiad cost-budd cymdeithasol, sy'n cael ei argymhell yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (2018) i asesu effaith ymyraethau ar les cymdeithasol; yn ail, mae SROI wedi'i wreiddio mewn cyfranogiad budd-ddeiliaid, sy'n elfen bwysig o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; yn drydydd, defnyddiwyd SROI yn y gorffennol fel dull o amcangyfrif gwerth cymdeithasol mewn cynlluniau cludiant yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon; ac yn bedwerydd, roedd y deilliannau y rhoddwyd gwerth ariannol iddynt yn y SROI hwn yn seiliedig ar 'werth llesiant', dull cyson a chadarn a argymhellir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (2018).

Canlyniadau

Dangosodd y canfyddiadau mai'r gost flynyddol i'r Awdurdod Lleol wrth is-contractio 39 o lwybrau bws cymorthdaledig yn 2019 oedd £1,854,221. Bu i'r gost alluogi 1,230,054 o siwrneion i deithwyr. Y gost gyfartalog fesul siwrne i deithiwr oedd £1.51, a gyfrifwyd drwy rannu'r gost flynyddol i'r Awdurdod Lleol â nifer y siwrneion i deithwyr bob blwyddyn.

Dangosodd data meintiol ac ansoddol o holiaduron o deithwyr bod 39 o lwybrau bws cymorthdaledig wedi creu gwerth cymdeithasol sylweddol. Yn ddibynol ar y llwybr, roedd y gwerth cymdeithasol fesul siwrne i deithwyr yn amrywio o £4.73 i £17.54. Darparu cludiant i ac o'u gwaith cyflogedig oedd ffynhonnell fwyaf y gwerth cymdeithasol i deithwyr. Roedd llwybrau bws gyda chanran uwch o siwrneion i waith cyflogedig yn tueddu i greu cymarebau gwerth cymdeithasol uwch.

Cyfrifwyd cymarebau gwerth cymdeithasol ar gyfer pob llwybr drwy rannu'r gwerth cymdeithasol fesul siwrne i deithiwr â'r gost fesul siwrne i deithiwr. Pan gymharwyd y 39 llwybr, roedd amrediad eang o gymarebau gwerth cymdeithasol, gyda naw llwybr yn adrodd am gymarebau oedd yn fwy na £10 am bob £1 a fuddsoddwyd, a phedwar llwybr yn dangos cymarebau gwerth cymdeithasol o lai na £1 am bob £1 a fuddsoddwyd. Roedd nifer is o siwrneion teithwyr bob blwyddyn ar hyd y pedwar llwybr hyn (llai na 5,000 y flwyddyn) a chanran is o siwrneion teithwyr i ac o waith cyflogedig (llai nag 20%). Argymhellir ailstrwythuro'r pedwar llwybr hwn.

Casgliad

Er bod angen gwneud peth ailstrwythuro i'r llwybrau, nododd data'r holiaduron fod teithwyr o bob oedran yn elwa o wasanaethau bws cymorthdaledig. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym a chyda mwy nag un ymhob pump o gartrefi heb gar yng Ngwynedd, mae gwasanaethau bws cymorthdaledig yn cyflwyno gwerth cymdeithasol cadarnhaol drwy alluogi pobl i deithio i'r gwaith, i'r ysgol, i siopau, i weithgareddau cymdeithasol, i apwyntiadau gofal iechyd, i gyfleoedd i wirfoddoli, ac at aelodau o'r teulu sydd angen gofal.


1. Ynghylch Gwynedd

Yn ddaeryddol, Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru (Ffigur 1.1). Yn gartref i Barc Cenedlaethol Eryri, mae Gwynedd yn sir sy'n bennaf wledig gyda phoblogaeth o oddeutu 124,000 o bobl. Nid oes gan oddeutu 21% o gartrefi yng Ngwynedd gar ac maent yn ddibynnol ar wasanaethau bws cyhoeddus er mwyn iddynt gael mynediad at gyflogaeth, addysg, apwyntiadau gofal iechyd, gweithgareddau cymdeithasol a siopa. Heb wasanaethau bws cyhoeddus, mae pobl heb geir mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol, ac mae hyn yn aml yn cynnwys yr henoed (Transport Scotland, 2015).

Rhwng 1981 a 2011, bu i nifer y bobl hŷn sydd dros 80 mlwydd oed yng Ngwynedd gynyddu 96.2%, tra y bu i nifer y bobl ifanc dan 16 mlwydd oed ostwng 10.1% (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, 2017). Disgwylir i nifer y bobl dros 80 mlwydd oed gynyddu 60% dros yr 20 mlynedd nesaf, ond nid oes ond disgwyl i nifer y bobl rhwng 16 a 64 mlwydd oed gynyddu 2% (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, 2017).

Gyda phoblogaeth gynyddol sy'n heneiddio yng Ngwynedd, bydd pobl hŷn a'u gofalwyr angen cludiant cyhoeddus da at wasanaethau iechyd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, 2017). Mae'n hanfodol cael mynediad at gyfleusterau gofal iechyd, yn enwedig yng Ngwynedd lle mae canran uchel o bobl mewn perygl o gyflyrau iechyd cronig oherwydd eu bod dros eu pwysau neu'n ordeu (52%), yn ysmegu (22%) ac yn yfed mwy o alcohol na'r lefel a argymhellir (42%) (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, 2017).

Ffigur 1.1: Llwybrau bws Gwynedd



2. Ynghylch gwasanaethau bws cymorthdaledig


Mae oddeutu 80% o wasanaethau bws yng Nghymru yn cael eu gweithredu'n fasnachol ac mae 20% yn rhai cymorthdaledig (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae gwasanaethau bws masnachol yn ennill elw pan fo'r incwm o docynnau bws yn fwy na'r gost o ddarparu'r gwasanaeth. Ar y llaw arall, mae gwasanaethau bws cymorthdaledig yn cael eu darparu gan yr Awdurdod Lleol ar sail disgresiynol. Er nad oes dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu gwasanaethau cymorthdaledig, noda'r Ddeddf Trafnidiaeth (1985) bod gan Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ymyrryd pan fo'n 'gymdeithasol angenrheidiol'. Er na ddarperir unrhyw ddiffiniad clir o 'cymdeithasol angenrheidiol', mae llwybrau cymorthdaledig yn cynnig gwasanaethau mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw lwybrau masnachol, neu maent yn gweithredu ar amseroedd pan nad yw gwasanaethau masnachol yn hyfyw, megis gyda'r nos neu ar ddydd Sul.

Yng Ngwynedd, mae mwyafrif y gwasanaethau cymorthdaledig mewn ardaloedd gwledig lle mae nifer y siwrneion i deithwyr yn tueddu i fod yn is, a lle mae hyd y siwrne'n golygu bod y costau gweithredu yn aml yn uwch. Ystyrir bod y llwybrau cymorthdaledig hyn yn 'gymdeithasol angenrheidiol' gan eu bod yn galluogi pobl ifanc i gyrraedd yr ysgol a bod yn fwy annibynnol, yn galluogi oedolion oedran gwaith i deithio i ac o'r gwaith, ac yn galluogi pobl hŷn i adael y tŷ a mynd i weithgareddau cymdeithasol ac apwyntiadau gofal iechyd.

Yn 2011, bu i doriad o 28% i gyllid cludiant Awdurdodau Lleol yng Nghymru arwain at ostyngiad sylweddol mewn gwasanaethau bws cymorthdaledig (Campaign for Better Transport, 2018). Rhwng 2014 a 2017, bu i nifer y milltiroedd bws cymorthdaledig yng Nghymru ostwng 36% yng Nghymru, a nifer y siwrneion teithwyr ar lwybrau bws cymorthdaledig ostwng 44% (Ffigur 2.1).

Ffigur 2.1: Siwrneion teithwyr bws yng Nghymru (llwybrau cymorthdaledig a masnachol wedi eu cyfuno)

Siwrneion teithwyr (miliwn)



Ffynhonnell: Yr Ardan Drafnidiaeth

BBC


Bu i'r gostyngiad hwn mewn gwariant cyhoeddus arwain at ostyngiad sylweddol yng nghapasiti'r Awdurdodau Lleol i roi cefnogaeth ariannol i wasanaethau bws cymorthdaledig sy'n gweithredu gyda'r nos, ar ddydd Sul ac mewn ardaloedd gwledig. Pobl sydd heb geir yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf, ac mae hyn yn cynnwys pobl ar incwm isel, yr henoed a phobl gydag anabledau sy'n dibynnu ar y gwasanaeth bws i gynnal eu hannibyniaeth a chael mynediad at wasanaethau hanfodol. Yn ogystal, mae hyn yn cynnwys y 5% o'r gweithlu yng Nghymru sy'n dibynnu ar wasanaethau bws cyhoeddus i deithio i ac o'r gwaith, a phobl ifanc sy'n dibynnu ar y bws am gyfleoedd addysg, hyfforddiant a gwaith (Campaign for Better Transport, 2011).

Cyflwyniad i'r gwerthusiad hwn

Mewn ymateb i'r toriadau i'r gyllideb, mae Awdurdodau Lleol wedi ceisio cynnal buddion y gwasanaethau cymorthdaledig drwy leihau amllder y gwasanaethau gyda'r nos ac ar y Sul. Yn ogystal, mae Awdurdodau Lleol wedi ailstrwythuro neu wedi rhoi'r gorau i rai gwasanaethau, yn enwedig llwybrau gyda llai o siwrneion teithwyr neu'r rhai gyda chost uchel o ran 'cost fesul siwrne teithiwr'. Er y defnyddir cost fesul siwrne teithiwr i rancio gwasanaethau bws, mae diddordeb cynyddol gan Awdurdodau Lleol yn y rhesymau dros siwrneion teithwyr a'r graddau y mae gwasanaethau bws penodol yn galluogi teithwyr i gael mynediad at wasanaethau hanfodol megis cyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gweithgareddau cymdeithasol. Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i Awdurdodau Lleol, wrth wneud penderfyniadau, i gydweithio â phobl ac ystyried effaith eu penderfyniadau ar lesiant pobl (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015) (Ffigur 3.1).

Er mwyn alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r gwerthusiad hwn yn cynnig dull ar wahân i gost fesul siwrne teithiwr i Awdurdodau Lleol ar gyfer blaenoriaethu gwasanaethau bws cymorthdaledig. Drwy ddata meintioli ac ansoddiol a gasglwyd o 1,729 o holiaduron, mae'r gwerthusiad hwn yn amcangyfrif y 'gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr' a grëwyd i deithwyr oedd wedi teithio ar 39 o lwybrau bws cymorthdaledig yng Ngwynedd rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2019. Yn y gwerthusiad hwn, mae 'gwerth cymdeithasol' yn cyfeirio at "y gwerth y mae defnyddwyr bws yn ei fwynhau wrth gael mynediad at wasanaethau penodol na fyddai ganddynt fynediad atynt fel arall" (Adran Trafnidiaeth, 2013).

Ffigur 3.1: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



4. Dadansoddiad cost budd cymdeithasol

I fesur a rhoi gwerth ariannol ar y gwerth cymdeithasol, argymhellir Dadansoddiad Cost-Budd Cymdeithasol yn aml (Trysorlys EM, 2018). Pan nad oes marchnad gystadleuol glir am nwydd neu wasanaeth, gellir defnyddio Dadansoddiad Cost-Budd cymdeithasol i asesu p'un a ddylid gweithredu gweithgaredd neu raglen (New Economics Foundation, 2013). Mae Dadansoddiad Cost-Budd Cymdeithasol yn ceisio mesur, nid yn unig y costau a'r buddion economaidd, ond hefyd y deilliannau cymdeithasol pwysig a all fod yn anodd i roi gwerth ariannol arnynt, megis gwell llesiant neu lai o unigrwydd. I fesur a rhoi gwerth ariannol ar y gwerth cymdeithasol, mae Dadansoddiad Cost-Budd cymdeithasol yn defnyddio data meintiol ac ansoddol perthnasol a gasglwyd gan y rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan weithgareddau neu raglenni penodol (New Economics Foundation, 2013).

Yn y gwerthusiad hwn, wrth fesur gwerth cymdeithasol gwasanaethau bws i deithwyr, mae'r Adran Trafnidiaeth (2013) yn argymhell dau ddull Dadansoddiad Cost-Budd Cymdeithasol posib: parodrwydd i dalu (WTP) / parodrwydd i dderbyn (WTA), ac adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (SROI).

4.1 Parodrwydd i dalu / Parodrwydd i dderbyn

Mae WTP/WTA yn declyn a ddefnyddir yn eang i roi gwerth ariannol ar nwyddau neu wasanaethau sydd ddim ar y farchnad. Mae'r dull hwn yn defnyddio holiaduron sydd wedi'u llunio'n arbennig i ganfod amcangyfrif o barodrwydd pobl i dalu neu eu parodrwydd i dderbyn deiliant penodol (Fujiwara a Campbell, 2011). Yn 2013, bu i'r Adran Trafnidiaeth ddefnyddio dull WTP/WTA i amcangyfrif gwerth cymdeithasol gwasanaethau bws cyhoeddus i deithwyr. Roedd eu dull yn cynnwys rhoi cyfres o ddewisiadau dwy ffordd damcaniaethol i deithwyr, a gofyn iddynt pa ddewis y buasant yn ei ffafrio. Hefyd, roeddynt yn gofyn i deithwyr rancio tri neu fwy o senarios amgen yn nhrefn eu dewis. Er enghraifft, gofynnwyd i deithwyr ddychmygu bod eu Hawdurdod Lleol yn gorfod wynebu toriadau i'w gwasanaethau. Yna, roedd cyfres o senarios gwahanol yn cael eu cyflwyno iddynt ac fe ofynnwyd iddynt osod pob senario yn nhrefn eu dewis.

Mae anfanteision y dull WTP/WTA yn cynnwys tuedd ddamcaniaethol, gwerthoedd protest a gwahaniaeth yn y WTP/WTA (Fujiwara a Campbell, 2011). Mae tuedd ddamcaniaethol yn cyfeirio at senarios damcaniaethol sydd ddim yn adlewyrchu ymddygiad a dewisiadau yn y byd go iawn (Fujiwara a Campbell, 2011). Yn ogystal, mae astudiaethau wedi dangos pan fo gan bobl fwy o amser i feddwl am senarios damcaniaethol, mae swm y WTP yn gostwng (Fujiwara a Campbell, 2011). Mae rhoi gwerth protest yn cyfeirio at bobl yn cyflwyno gwerth o sero pan maent yn gwrthwynebu'r syniad o dalu am nwydd neu wasanaeth. Mae gwahaniaeth yn y WTP/WTA yn cyfeirio at y senarios a gyflwynir o ran derbyn gwasanaeth (WTP) neu golli gwasanaeth (WTA). Noda ymchwil hefyd yn sgil 'osgoi colled' bod gwerth WTA hefyd yn llawer uwch na gwerth WTP ar gyfer yr un gwasanaeth (Kahnemann et al., 1993).

4.2 Adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad

Mae SROI yn ddull cymharol newydd ar gyfer aseinio gwerth ariannol ar nwyddau neu wasanaethau sydd ddim ar y farchnad. Mae SROI yn ddull pragmataidd o Dadansoddiad Cost-Budd cymdeithasol sy'n amcangyfrif y gwerth cymdeithasol a greir o weithgareddau sy'n ceisio gwella llesiant pobl a chymunedau (Swyddfa'r Cabinet, 2012). Yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon, defnyddiwyd SROI fel dull o amcangyfrif gwerth cymdeithasol cludiant cymunedol. Yn 2009, defnyddiwyd SROI i werthuso cynllun cludiant i gyflogaeth (T2E) yn Ucheldir yr Alban (Wright et al., 2009). Amcangyfrifwyd y gwerth cymdeithasol ar gyfer teithwyr T2E o'r cynnydd net mewn incwm gan deithwyr yn cael cyflogaeth (h.y. cyflog o'r swydd llai colled mewn budd-daliadau lles). Fodd bynnag, ni roddwyd gwerth ariannol ar y buddion anniriaethol i deithwyr T2E megis gwell hunan-barch neu fwy o sefydlogrwydd mewn bywyd.

Yn 2011, defnyddiwyd SROI i fesur budd cludiant cymunedol yng Ngogledd Iwerddon wledig (Gauge NI, 2011). Bu i'r astudiaeth hon amcangyfrif gwerth cymdeithasol i deithwyr 'dial-a-lift' drwy ddefnyddio amrywiaeth o werthoedd ariannol procsi i roi gwerth ariannol ar bethau megis mwy o annibyniaeth, gwell iechyd, mwy o ryngweithio cymdeithasol a hyder, a gwell mynediad at addysg, cyflogaeth, hamdden a siopa. Er y bu i'r SROI hwn adrodd am greu gwerth cymdeithasol sylweddol o fuddsoddi mewn cludiant cymunedol, roedd y procsi ariannol yn oddrychol. Un feirniadaeth o sawl adroddiad SROI yw bod diffyg gwerth procsi ariannol cyson a chadarn er mwyn rhoi gwerth ariannol ar ddeilliannau cymdeithasol pwysig.

4.3 Adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (gan ddefnyddio'r arfarniad llesiant)

I oresgyn y feirniadaeth o ran defnyddio procsi ariannol goddrychol, mae SROI yn gynyddol ymgorffori 'gwerth llesiant' i roi gwerth ar nwyddau neu wasanaethau sydd ddim ar y farchnad (Carpenter, 2015). Argymhellir ar y cyd â thechnegau lle datgenir ffafriaeth megis WTP/WTA yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (2018), mae gwerth llesiant yn dechneg gadarn a chyson sy'n seiliedig ar sut mae pobl yn graddio'u hapusrwydd neu eu bodlonrwydd â bywyd gan ddefnyddio gwerth deilliannau a gyfrifir o gyfresi data cenedlaethol mawr megis y British Household Panel Survey (Fujiwara, 2014).

Yn seiliedig ar werth llesiant, mae'r Banc Gwerth Cymdeithasol yn cynnwys y gyfres fwyaf o fetricsau gwerth cymdeithasol sy'n gyson yn fethodolegol. Mae'r Banc Gwerth Cymdeithasol yn rhoi gwerth ariannol ar amrediad eang o ddeilliannau cymunedol gan gynnwys gwerth ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant, gwirfoddoli a chyfranogiad cymdeithasol, gwell iechyd a gweithgarwch corfforol. Yn aml, defnyddir y Banc Gwerth Cymdeithasol fel teclyn gwerthuso ar gyfer SROI a Dadansoddiad Cost-Budd cymdeithasol (Carpenter, 2015).

4.4 Adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad (yn y gwerthusiad hwn)

Un nod pwysig yn y SROI hwn oedd rhoi gwerth ariannol ar y prif ddeilliannau a brofir gan deithwyr bws ar lwybrau cymorthdaledig, gan roi llais i fuddiolwyr mewn penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau. Bu i'r SROI hwn fesur deilliannau perthnasol ac arwyddocaol i deithwyr ac yna roi gwerth ariannol iddynt gan y Banc Gwerth Cymdeithasol. I gynhyrchu'r gymhareb SROI, rhoddwyd gwerth ariannol ar ddeilliannau teithwyr ac yna fe'u cymharwyd â'r costau a dalwyd gan yr Awdurdod Lleol:

$$\text{Cymhareb SROI} = \frac{\text{Gwerth cymdeithasol canlyniadau ar gyfer teithwyr}}{\text{Cost darparu gwasanaethau bws cymorthdaledig}}$$

Mae'r prif gamau sy'n gysylltiedig â chynnal dadansoddiad SROI yn cael eu disgrifio yn y Cabinet Office Guide to Social Return on Investment (Swyddfa'r Cabinet, 2012) (Ffigur 4.1):

Ffigur 4.1: Prif gamau'r dadansoddiad SROI

Mae SROI yn cynnwys:

1. Adnabod budd-ddeiliaid
2. Datblygu damcaniaeth newid
3. Cyfrifo mewnbynnau
4. Tystiolaethu deilliannau
5. Rhoi gwerth ar ddeilliannau
6. Amcangyfrif y gymhareb SROI

Mae'r fethodoleg SROI wedi'i halinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gofyn i Awdurdodau Lleol, wrth iddynt wneud penderfyniadau, gydweithio â phobl, ac ystyried yr effaith y maent yn eu cael ar lesiant pobl (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2015). Un egwyddor allweddol o SROI yw ei fod wedi'i seilio mewn ymgysylltu'n uniongyrchol â budd-ddeiliaid. Mae hyn yn sicrhau bod yr hyn sy'n golygu fwyaf i bobl yn cael ei gyfrif a'i adlewyrchu yn y penderfyniadau a wneir (New Economics Foundation, 2013).

Mae SROI yn ei gwneud yn bosib cyfrifo cymhareb o fuddion i gostau. Er enghraifft, byddai cymhareb o £3 : £1 yn nodi bod buddsoddiad o £1 yn cyflwyno £3 o werth cymdeithasol. Yn y gwerthusiad hwn, mae gwerth cymdeithasol yn cyfeirio at y gwerth y mae teithwyr bws yn ei brofi o gael mynediad at y gweithgareddau na fyddai ganddynt fynediad rhwydd atynt fel arall.

5. Adnabod budd-ddeiliaid

Cam cyntaf y dadansoddiad SROI hwn oedd adnabod y budd-ddeiliaid perthnasol ac arwyddocaol. I gyflawni hyn, crëwyd grŵp ffocws (n=10) ym mis Ionawr 2019 ar ddechrau'r gwerthusiad. Roedd y grŵp ffocws yn cynnwys teithwyr bws, staff Cyngor Gwynedd ac ymchwilwyr o Brifysgol Bangor. Penderfynodd y grŵp ffocws mai'r teithwyr bws oedd prif fuddiolwyr y gwasanaethau cymorthdaledig ac mai'r deilliannau cymdeithasol allweddol oedd mynediad at gyflogaeth, apwyntiadau gofal iechyd, gweithgareddau cymdeithasol, siopa, gwirfoddoli, addysg a hyfforddiant, a gofalu am aelodau'r teulu.


Yna, drafftiodd y grŵp ffocws holiadur a gafodd ei beilota ag oddeutu 30 o deithwyr bws. Yn seiliedig ar adborth gan deithwyr, mireiniwyd yr holiadur drafft ac fe grëwyd fersiwn derfynol o Holiadur Bws Lleol Gwynedd 2019 (Atodiad 1) yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ystod y cyfnod gwerthuso o chwe mis (1 Chwefror 2019 hyd 31 Gorffennaf 2019), dosbarthwyd copïau papur o'r holiadur i deithwyr bws mewn arosfannau bws ac wrth iddynt deithio ar y bws. Gweithwyr yr Awdurdod Lleol fu'n dosbarthu'r holiaduron, ac roedd llawer ohonynt yn siarad Cymraeg a Saesneg.

Yn ogystal â holiaduron papur, gwahoddiwyd teithwyr bws i gwblhau fersiwn ar-lein o'r holiadur. Roedd yr holiadur ar-lein ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan Cyngor Gwynedd o 1 Mawrth 2019 hyd 30 Ebrill 2019. Yn ystod y cyfnod gwerthuso o chwe mis, cwblhawyd dros 2,000 o holiaduron, ac o'r rheiny, roedd 1,729 (1,228 ar bapur a 501 ar-lein), yn berthnasol i'r 39 llwybr cymorthdaledig.

Noddod canlyniadau o'r holiadur bod:

- ◆ 60% o deithwyr yn fenywaidd
- ◆ gan 50% ryw fath o docyn bws mantais
- ◆ 15% rhwng 16 a 25 mlwydd oed (Ffigur 5.1)
- ◆ 18% rhwng 26 a 40 oed (Ffigur 5.1)
- ◆ 25% rhwng 41 a 59 mlwydd oed (Ffigur 5.1)
- ◆ 38% yn 60 mlwydd oed neu hŷn (Ffigur 5.1)


Ffigur 5.1: Grwpiau oedran teithwyr sy'n defnyddio llwybrau bws cymorthdaledig



6. Datblygu Damcaniaeth Newid

Crëwyd diagram Damcaniaeth Newid i ddangos y deilliannau a brofwyd gan deithwyr bws (Ffigur 6.1). Mae'r ddamcaniaeth newid yn disgrifio'r cyswllt rhwng mewbynnau, allbynnau a deilliannau:

Ffigur 6.1: Damcaniaeth Newid



7. Mewbynnau

Darparodd Cyngor Gwynedd ddata cost ar gyfer y cyfnod 12 mis rhwng 1 Tachwedd 2018 a 31 Hydref 2019. Yn ôl y data hwn, ymgwymerwyd â mwy na miliwn (1,230,054) o siwrneion gan deithwyr ar y 39 llwybr cymorthdaledig ar gost o £1,854,221 i'r Cyngor. Y gost gyfartalog fesul siwrne teithiwr oedd £1.51 (Tabl 7.1).




Tabl 7.1 Cost fesul siwrne teithiwr am bob un o'r 39 llwybr bws cymorthdaledig

Gwasanaeth	Siwrne	Siwrneion teithwyr bob blwyddyn	Siwrneion teithwyr bob wythnos	Cost flynyddol i weithredu'r gwasanaeth	Cost fesul siwrne teithiwr
38	Harlech - Abermaw	█	█	█	£0.23
88	Caernarfon - Llanberis	█	█	█	£0.39
93	Clipa Caernarfon	█	█	█	£0.51
12E/12S	Pwllheli - Caernarfon (gyda'r nos)	█	█	█	£0.52
3B	Porthmadog - Blaenau	█	█	█	£0.59
30	Dolgellau - Tywyn	█	█	█	£0.72
78	Maesgeirchen	█	█	█	£0.93
1N	Caernarfon – Penygroes – Nantlle	█	█	█	£1.04
5E	Bangor - Caernarfon	█	█	█	£1.04
8	Nefyn - Pwllheli	█	█	█	£1.11
92	Caernarfon – Maes Barcer	█	█	█	£1.11
1F	Caernarfon - Carmel	█	█	█	£1.38
37	Blaenau Ffestiniog	█	█	█	£1.41
39	Dolgellau – Bermo – Harlech - Porthmadog	█	█	█	£1.50
1A	Llanllyfni - Nasareth	█	█	█	£1.53
67S	Bangor – Bethesda (Sul)	█	█	█	£1.62
28	Dolgellau - Tywyn	█	█	█	£1.75
35	Dolgellau – Blaenau Ffestiniog	█	█	█	£2.03
85/85S	Caernarfon - Dinorwig	█	█	█	£2.15
83/83S	Bethel - Caernarfon	█	█	█	£2.38
3S	Pwllheli - Porthmadog (Sul)	█	█	█	£2.55
18	Pwllheli - Abersoch	█	█	█	£2.69
23	Clipa Pwllheli	█	█	█	£2.71
76	Bangor - Bethesda	█	█	█	£2.76
17	Pwllheli - Aberdaron	█	█	█	£2.87
91	Caernarfon – Dinas Dinlle a Lleol	█	█	█	£2.89
1NS	Caernarfon – Nantlle (Sul)	█	█	█	£3.26
33	Dolgellau – Dinas Mawddwy	█	█	█	£3.38
27	Pwllheli - Llithfaen	█	█	█	£3.43
3	Pwllheli - Porthmadog	█	█	█	£3.87
29	Clipa Tywyn	█	█	█	£3.88
1E	Caernarfon - Porthmadog	█	█	█	£3.91
1S	Caernarfon (Sul)	█	█	█	£3.92
88S	Caernarfon – Llanberis (Sul)	█	█	█	£5.27
67E	Bangor – Bethesda (gyda'r nos)	█	█	█	£6.17
8S/18S	Pwllheli – Abersoch (Sul)	█	█	█	£6.32
2S	Bangor – Dolgellau (Sul)	█	█	█	£10.86
8AB	Dinas – Rhydyclafdy - Pwllheli	█	█	█	£15.49
14	Caernarfon – Pwllheli (Berwyn)	█	█	█	£18.45
		1,230,054 (cyfanswm)	23,654 (cyfanswm)	£1,854,221 (cyfanswm)	£1.51 (cyfartaledd)

8. Deilliannau

Darparodd yr holiadur bws wybodaeth am y rhesymau am siwrneion teithwyr a faint yr oedd y gwasanaeth bws yn gwella bywydau'r teithwyr. Cafodd pum ardal deilliant eu hadnabod gan y grŵp ffocws fel rhai perthnasol ac arwyddocaol i deithwyr (Ffigur 8.1).

Ffigur 8.1: Prif ddeilliannau



8.1 Dangosyddion deilliannau

Cafwyd dangosyddion ar gyfer pob deilliant o ganlyniadau penodol yn yr holiadur i deithwyr bws (Tabl 8.1).

Crëwyd dangosyddion ar gyfer pedwar o'r pum prif ddeilliant o Gwestiwn 7 yn yr holiadur bws, oedd yn gofyn: *"Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy ddarparu trafndiaeth i ac o..."*

- ◆ cyflogaeth (7a)
- ◆ gwirfoddoli (7b)
- ◆ gofalu am aelod o'r teulu (7c)
- ◆ gweithgareddau cymdeithasol (7d)
- ◆ mynd i'r siopau (7e)
- ◆ addysg neu sesiynau hyfforddiant (7g)

Ar gyfer pob deilliant, gofynnwyd i deithwyr nodi faint oedd y gwasanaeth bws yn gwella eu bywyd ar raddfa o 0 (ddim o gwbl) i 10 ((llawer iawn). Yna, roedd y nifer ar gyfer pob deilliant yn cael ei gyfrifo drwy gyfrif nifer y teithwyr gyda sgorau o 8 neu fwy ar gyfer pob dangosydd deilliant. Roedd sgorau o 8 neu fwy yn nodi bod y deilliant yn berthnasol ac yn arwyddocaol i'r teithiwr (Atodiad 1).

Mynediad at apwyntiadau gofal iechyd

Crëwyd y dangosydd ar gyfer mynediad at apwyntiadau gofal iechyd o gwestiwn 11 yr holiadur bws, oedd yn gofyn i deithwyr: *"Os na fyddai'r bws hwn yn rhedeg, faint o apwyntiadau gofal iechyd fydddech chi wedi eu colli y llynedd?"* Yna, cyfrifwyd nifer cyfartalog yr apwyntiadau gofal iechyd a fethwyd ar gyfer pob llwybr, ac ar gyfer y 39 llwybr gyda'i gilydd (Tabl 8.1).



Tabl 8.1: Dangosyddion deilliannau

Deilliannau teithwyr	Dangosyddion Deilliannau	Dull cyfrifo nifer	Nifer y deilliannau
1. Gweithgareddau cymdeithasol neu siopa*	Cwestiwn 7d: "Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy ddarparu trafnidiaeth i ac o weithgareddau cymdeithasol, gan gynnwys cwrdd â ffrindiau?" Cwestiwn 7f: "Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy ddarparu trafnidiaeth i ac o siopau, gan gynnwys banciau a'r swyddfa bost?"	Roedd sgorau o 8 neu fwy yn nodi bod y deiliant yn berthnasol ac yn arwyddocaol i'r teithwyr.	909 o 1729 teithiwr (53% o deithwyr)
2. Gwaith cyflogedig	Cwestiwn 7a: "Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy ddarparu trafnidiaeth i ac o waith cyflogedig?"	Roedd sgorau o 8 neu fwy yn nodi bod y deiliant yn berthnasol ac yn arwyddocaol i'r teithwyr.	405 o 1729 teithiwr (23% o deithwyr)
3. Apwyntiadau gofal iechyd	Cwestiwn 11: "Os na fyddai'r bws hwn yn rhedeg, faint o apwyntiadau gofal iechyd fydddech chi wedi eu colli y llynedd?"	Cyfrifwyd nifer cyfartalog yr apwyntiadau gofal iechyd a fethwyd fesul teithiwr ar gyfer pob llwybr.	3.12 apwyntiad wedi'i fethu fesul teithiwr (n=1729)
4. Addysg a hyfforddiant	Cwestiwn 7g: "Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy ddarparu trafnidiaeth i ac o addysg neu sesiynau hyfforddiant?"	Roedd sgorau o 8 neu fwy yn nodi bod y deiliant yn berthnasol ac yn arwyddocaol i'r teithwyr.	188 o 1729 teithiwr (11% o deithwyr)
5. Gwirfoddoli a gofalu am berthynas**	Cwestiwnau 7b: "Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy ddarparu trafnidiaeth i ac o wirfoddoli?" Cwestiwn 7c: "Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy ddarparu trafnidiaeth i ac o ofalu am ffrind neu berthynas?"	Roedd sgorau o 8 neu fwy yn nodi bod y deiliant yn berthnasol ac yn arwyddocaol i'r teithwyr.	126 o 1729 teithiwr (7% o deithwyr)

*Cafodd gweithgareddau cymdeithasol neu siopa eu cyfuno fel un deiliant gan bod ymchwil yn nodi bod siopa yn rhan arwyddocaol o weithgarwch a chysylltedd cymdeithasol pobl hŷn (Toepoel, 2013). Gan bod siopa a gweithgareddau cymdeithasol yn hynod gydberthynol i bobl hŷn, cafodd gweithgareddau cymdeithasol (7d) a siopa (7f) eu cyfuno, yn hytrach na'u cyfrif ddwy waith. Defnyddiwyd y sgôr uchaf rhwng 7d a 7f fel swm y deiliant.

**Cafodd gwirfoddoli a gofalu am berthynas hefyd eu cyfuno fel un deiliant yn sgil natur debyg y gweithgaredd. Dengys ymchwil fod gwirfoddoli a gofalu am berthynas (fel gofalwr di-dâl), yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i iechyd a llesiant pobl yn y DU (The King's Fund, 2013). Gan yr ystyriwyd gwirfoddoli a gofalu am berthynas fel dau weithgarwch gwahanol gan deithwyr, cafodd y sgorau ar gyfer 7b a 7c eu hadio i bennu swm y deiliant.

8.2 Tystiolaethu deilliannau

Swm Deiliant 1: Mynediad at weithgareddau cymdeithasol a siopa

Adroddodd 53% o deithwyr (n = 909) ar y 39 llwybr cymorthdaledig bod cael mynediad at wasanaeth bws ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a siopa yn gwella eu bywyd ar sgôr o 8 ar raddfa o 0 i 10. Heb y bws, dywedodd llawer o deithwyr y buasent yn teimlo'n gaeth i'w cartref, yn ynysig, yn unig ac na fyddai modd iddynt fynd allan a chwrdd â ffrindiau. Adroddodd teithwyr bod y gwasanaeth bws yn eu galluogi i ymweld â ffrindiau a theulu, cael mynediad at siopau a thafarndai, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac awyr agored, teimlo'n gysylltiedig yn gymdeithasol, cynnal eu hannibyniaeth, a gwella eu hiechyd meddwl.

Cael mynediad at siopau a thafarndai

- ◆ "Dwi'n mynd allan i'r dafarn bob wythnos. Os nad oes bws, does gen i ddim gweithgaredd cymdeithasol" (Teithiwr 4, Llwybr 1E)
- ◆ "Faswn i ddim yn medru mynd i siopa. Mi faswn yn teimlo'n ynysig iawn ac ni fysa gen i unrhyw fywyd cymdeithasol" (Teithiwr 6, Llwybr 1N)
- ◆ "Dim ond siop fechan sydd yn y pentref, dim swyddfa bost na banc. Mae'n bwysig cael y gwasanaeth er mwyn medru mynd allan o'r pentref (Teithiwr 2, Llwybr 27)

Cynnal cyswllt cymdeithasol

- ◆ Faswn i ddim yn gallu mynd allan i weld ffrindiau. Faswn i ddim yn gallu mynd i siopa. Faswn i'n teimlo'n ynysig ac yn isel" (Teithiwr 1, Llwybr 1A)
- ◆ "Mae'r rhan fwyaf o fy ffrindiau wedi marw. Faswn i ar goll heb y bws. Yr unig bobl yr ydw i'n eu gweld yn ystod y dydd ydi'r bobl ar y bws (Teithiwr 5, Llwybr 17).
- ◆ "Byddai'n fywyd unig iawn heb y bws." (Teithiwr 2, Llwybr 3)

Cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac awyr agored

- ♦ “Mi fysa’n anodd i mi fynd i ddosbarthiadau nos bob nos” (Teithiwr 2, Llwybr 12E/12S)
- ♦ “Mi fysa gen i lai o amser y tu allan, llai o amser i gerdded a gweld pobl” (Teithiwr 2, Llwybr 8AB)
- ♦ “Dw i wedi bod ar y traeth bore ‘ma gyda ffrindiau, a faswn i ddim yn medru mynd os na fysa’r bws yma’n rhedeg” (Teithiwr 11, Llwybr 30)

Meithrin annibyniaeth

- ♦ “Dwi’n byw ar fy mhen fy hun ac mae’r bws yn hanfodol o ran fy mywyd cymdeithasol ac er mwyn mynd i’r banc. Mae’r bws yn fy helpu i fod yn annibynnol” (Teithiwr 2, Llwybr 3B)
- ♦ “Dwi wedi dibynnu ar y gwasanaeth hwn am dros bum mlynedd. Mae wedi gadael i mi fyw fy mywyd mor annibynnol â phosib. Oherwydd cyflwr ar fy nghalon, fedra i ddim cerdded ymhell iawn. Felly, dwi’n dibynnu ar y gwasanaeth i fynd â fi i siopa ac i gwrdd â ffrindiau” (Teithiwr 2, Llwybr 93)

Gwella iechyd meddwl

- ♦ “Dwi’n dibynnu ar y bws gyda’r nos er mwyn cymdeithasu a chwrdd â ffrindiau. Mae hyn yn rhoi rhyddid i mi ac yn gwneud i mi deimlo’n well” (Teithiwr 1, Llwybr 5E)
- ♦ “Mi fysa hi bron yn amhosib i mi fynd i siopa. Ni faswn i’n medru gweld fy nheulu. Dwi’n cael trafferth â gorbryder ac iselder. Heb y gwasanaeth bws, mi fysa hyn yn mynd yn llawer gwaeth. Mi fyswn yn mynd yn ynysig ac yn unig iawn” (Teithiwr 15, Llwybr 37)
- ♦ “Fyswn i ddim yn medru cymdeithasu. Mae’r gwasanaeth hwn mor bwysig i’m hiechyd meddwl” (Teithiwr 2, 67S)

Swm Deilliant 2: Mynediad at waith cyflogedig (llawn amser neu ran amser)

Adroddodd 23% o deithwyr (n = 405) bod cael mynediad at waith cyflogedig drwy’r gwasanaeth bws yn gwella eu bywyd ar sgôr o 8 neu fwy ar raddfa o 0 i 10. Heb y bws, adroddodd llawer y buasent yn colli eu swydd neu’n gorfod symud i leoliad newydd. Nododd teithwyr bod y bws yn golygu eu bod yn medru cadw eu swydd a chynnal ansawdd eu bywyd heb orfod talu prisiau uchel am dacsis neu hawlio budd-daliadau.

Colli eu swydd

- ♦ “Faswn i ddim yn medru gweithio, gan y byddai’n newid fy mhatrymau shift yn gyfan gwbl. Mae’n debyg y byswn i’n colli fy ngwaith gan na fyswn i’n gallu bodloni’r patrymau shift” (Teithiwr 13, Llwybr 67E)
- ♦ “Mi fyswn i’n colli oriau yn y gwaith. Mi fysa hyn yn ddigon i mi golli fy ngwaith. Heb waith, fydd gen i ddim pres. Dwi’n bwriadu mynd i’r brifysgol, ac ni fysa hyn yn bosib heb y bws” (Teithiwr 20, Llwybr 3B)

Talu pris uchel am dacsis

- ♦ “Fedra i ddim gweithio os na fydd bysiau, gan nad ydw i’n gyrru. Mi fydda i’n sownd. Mi fysa’n arwain at gymaint o wariant ar dacsis” (Teithiwr 6, Llwybr 5E)
- ♦ “Mi fysa’n llawer anoddach i gyrraedd y gwaith, a bysa’n rhaid i mi wario llawer mwy ar deithio” (Teithiwr 8, Llwybr 67S)

Gorfod symud

- ♦ “Mi fysa’n rhaid i mi symud er mwyn fy ngwaith” (Teithiwr 5, Llwybr 67E)

Mynd ar fudd-daliadau

- ♦ “Faswn i ddim yn medru gweithio ac mi fysa’n rhaid i mi fynd ar fudd-daliadau” (Teithiwr 19, Llwybr 18)

Profi caledi ariannol

- ♦ “Faswn i ddim yn medru gweithio ac mi fysa hynny’n effeithio ar fy sefyllfa ariannol. Does gen i ddim car” (Teithiwr 4, Llwybr 1NS)
- ♦ “Dwi’n gweithio yn SPAR, 8am - 12pm. Dwi’n dibynnu ar y bws ar gyfer y gwaith ac i gadw fy nheulu” (Teithiwr 8, Llwybr 30).
- ♦ “Os fyddai’r gwasanaeth bws yn mynd, mi faswn i’n colli fy swydd gan achosi caledi ariannol i mi a’m teulu” (Teithiwr 15, Llwybr 39/99)



Swm Deilliant 3: Mynediad at apwyntiadau gofal iechyd

Nododd 1,729 o holiaduron bws y byddai pob un teithiwr wedi methu cyfartaledd o 3.12 apwyntiad gofal iechyd y flwyddyn heb y gwasanaeth bws.

Talu gormod am dacsis

- ◆ “Mi fysa’n rhaid i mi dalu am dacs i fynd a mi at y meddyg, ac mi fysa hyn yn costio ffortiwn” (Teithiwr 7, Llwybr 1A)
- ◆ “Faswn i ddim yn medru mynd at y meddyg, i’r ysbyty nac at y deintydd yng Nghaernarfon. Dwi ar fy mhensiwn, felly fedra i ddim fforddio tacsis, a fedra i ddim fforddio rhedeg car” (Teithiwr 6, Llwybr 88)

Canslo apwyntiadau

- ◆ “Dwi’n mynd i’r ysbyty ym Mangor yn aml. Mi faswn i’n sownd ac mi fysa’n rhaid i mi ganslo fy apwyntiadau” (Teithiwr 12, Llwybr 1A)
- ◆ “Ni fysa modd i mi gyrraedd y deintydd a’r optegydd. Ni faswn i’n medru mynd i’r ysbyty ar gyfer apwyntiadau” (Teithiwr 19, Llwybr 3B)

Dibynnu ar ffynonellau cludiant eraill

- ◆ “Mae gen i glefyd siwgr. Mae’n rhaid i mi gyrraedd y feddygfa ym Mhenygroes a’r nyrs yng Nghaernarfon. Heb y bws, bysa’n rhaid i mi ddibynnu ar ffrindiau i fynd â fi yno” (Teithiwr 4, 1F)
- ◆ “Mae’n rhaid i mi fynd i’r ysbyty yn aml. Dim ond un lygaid sy’n gweithio gen i. Bysa’n rhaid i mi symud i fyw yn agosach at yr ysbyty neu ddefnyddio cludiant ambiwlans yn llawer mwy aml” (Teithiwr 14, Llwybr 18)

Swm Deilliant 4: Mynediad at addysg a hyfforddiant

Adroddodd 11% o deithwyr (n = 188) bod cael mynediad at y bws i fynd i addysg neu hyfforddiant yn gwella eu bywydau ar sgôr o 8 neu fwy ar raddfa o 0 i 10. Heb y bws, adroddodd llawer na fuasent yn medru cyrraedd yr ysgol neu y byddai’n rhaid iddynt ddibynnu ar aelodau’r teulu, megis rhieni, am gludiant. I nifer o deithwyr, ystyriwyd bod gwasanaethau bws yn hanfodol er mwyn cael mynediad at gyfleoedd addysg a hunan-ddatblygiad.

Rhoi’r gorau i fynd i’r ysgol

- ◆ “Heb y bws, ni faswn i’n medru mynd i’r ysgol” (Teithiwr 8 a 20, Llwybr 5E)
- ◆ “Fedra i ddim cyrraedd yr ysgol i gael addysg heb y bws” (Teithiwr 4, Llwybr 76)
- ◆ “Mae fy mam yn gweithio, felly dwi angen y bws i fynd i’r ysgol” (Teithiwr 8, Llwybr 91)

Dibynnu ar deulu i gyrraedd yr ysgol


- ◆ “Bysa’n rhaid i mi ofyn i fy nheulu fynd â fi i’r ysgol” (Teithiwr 11, Llwybr 91)

Hwyluso hunan-ddatblygiad

- ◆ “Mae’r bws yn bwysig er mwyn mynd allan ac addysgu fy hun” (Teithiwr 8, Llwybr 37)

Rhoi’r gorau i fynd i’r coleg neu’r brifysgol

- ◆ “Faswn i ddim yn medru mynd i’r brifysgol, na phasio fy nghwrs, heb y bysiau” (Teithiwr 3, Llwybr 85S)



Swm Deilliant 5: Mynediad at wirfoddoli neu ofalu am aelod o'r teulu

Adroddodd 7% o deithwyr (n = 126) bod cael mynediad at y gwasanaeth bws er mwyn gwirfoddoli neu ofalu am aelod o'r teulu yn gwella eu bywyd ar sgôr o 8 neu fwy ar raddfa o 0 i 10. Heb y bws, ni fyddai llawer o deithwyr yn medru gwirfoddoli neu ofalu am aelodau'r teulu.

Gwirfoddoli

- ◆ “Dwi'n wirfoddolwr yng nghlwb cinio Age Concern ym Mhenygroes, ac maen nhw'n dibynnu arna i droi i fyny” (Teithiwr 4, 1N)
- ◆ “Heb y bws, faswn i ddim yn medru cyrraedd fy ngwaith gwirfoddol yng Nghaernarfon” (Teithiwr 6, Llwybr 88)

Gofalu am rieni

- ◆ “Dwi'n gofalu am fy mam sy'n rhannol ddall, ac yn mynd i ofalu amdani bob dydd. Dwi ddim yn gwybod beth fyddai hi'n ei wneud os na faswn i'n medru cyrraedd yno” (Teithiwr 4, Llwybr 1N)
- ◆ “Dwi angen mynd i weld fy mam bob dydd, mae hi dros 80 oed. Dwi'n gofalu am fy mam, yn mynd i nôl neges iddi. Mae'r gwasanaeth bws yn bwysig iawn” (Teithiwr 9, Llwybr 3B)
- ◆ “Dwi'n ofalwr i'm tad. Dwi angen ei weld bob dydd i wneud yn siŵr ei fod yn iawn, ac i fynd â neges iddo” (Teithiwr 6, Llwybr 35)

Gofalu am aelodau eraill y teulu

- ◆ “Dwi'n ofalwr i'm brawd sy'n byw ym Mhorthmadog. “Os na fyddai'r gwasanaeth bws yn rhedeg, byddai'n cael effaith arwyddocaol arna i a'm teulu” (Teithiwr 7, Llwybr 3B)
- ◆ “Dwi'n dibynnu ar y bws i ymweld â'm gŵr yn yr ysbyty” (Teithiwr 2, Llwybr 2S)
“Byddai'n rhaid i mi symud. Dwi'n helpu i ofalu am yr wyrion tra mae eu rhieni'n mynd i weithio” (Teithiwr 13, Llwybr 18)



9. Rhoi gwerth ar ddeilliannau

Cafwyd procsi ariannol ar gyfer pedwar o'r pum prif ddeiliant o'r Banc Gwerth Cymdeithasol (HACT, Value Calculator v.4.0, 2019). Yn seiliedig ar werth llesiant, y Banc Gwerth Cymdeithasol yw'r ffynhonnell fwyaf o werthoedd cymdeithasol sy'n gyson ac yn gadarn yn fethodolegol sy'n darparu asesiad sylfaenol o effaith cymdeithasol a thystiolaeth o werth am arian. Ar gyfer un o'r prif ddeilliannau (h.y. mynediad at apwyntiadau gofal iechyd), cafwyd y procsi ariannol o GIG Cymru (2019) ac NHS England (2019).

- *Gwaith cyflogedig*: I roi gwerth ariannol ar 'waith cyflogedig', mae'r Banc Gwerth Cymdeithasol yn rhoi gwerth o £12,034 y flwyddyn ar swydd lawn amser a £1,229 y flwyddyn ar swydd ran amser (HACT, Value Calculator v.4.0, 2019). Y gwerth cymedrig rhwng cyflogaeth lawn amser a rhan amser yw £6,632 y flwyddyn.
- *Gweithgareddau cymdeithasol a siopa*: I roi gwerth ariannol ar 'weithgareddau cymdeithasol a siopa', mae'r Banc Gwerth Cymdeithasol yn rhoi gwerth o £1,850 y flwyddyn ar 'bod yn aelod o grŵp cymdeithasol', gan gynnwys 'mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd grŵp' (HACT, Value Calculator v.4.0, 2019).
- *Apwyntiadau gofal iechyd*: I roi gwerth ar 'apwyntiadau gofal iechyd', mae GIG Cymru yn amcangyfrif bod apwyntiad ysbyty a fethir yn costio £150 i'r GIG (GIG Cymru, 2019), a bod apwyntiad Meddyg Teulu a fethir yn costio £30 i'r GIG (NHS England, 2019). Y gwerth cymedrig rhwng apwyntiad ysbyty a fethir ac apwyntiad Meddyg Teulu a fethir yw £90 am bob apwyntiad gofal iechyd a fethir.
- *Gwirfoddoli a gofalu am ffrind/berthynas*: I roi gwerth ariannol ar 'gwirfoddoli a gofalu am berthynas', mae'r Banc Gwerth Cymdeithasol yn rhoi gwerth o £3,249 y flwyddyn ar 'gwirfoddoli'n rheolaidd o leiaf unwaith y mis' (HACT, Value Calculator v.4.0, 2019).
- *Addysg a hyfforddiant*: I roi gwerth ariannol ar 'addysg a hyfforddiant', mae'r Banc Gwerth Cymdeithasol yn rhoi gwerth o £1,224 y flwyddyn ar 'hyfforddiant galwedigaethol' (HACT, Value Calculator v.4.0, 2019).

Cyfrifo cyfanswm y gwerth cymdeithasol ar gyfer pob un o'r 39 llwybr cymorthdaledig

Cafodd swm pob deiliant (adran 8.2) yna'i luosi â'r procsi ariannol i bennu cyfanswm y gwerth cymdeithasol (Tabl 9.1).

Tabl 9.1: Swm y deilliannau a'r procsi ariannol


Deilliannau teithwyr	Nifer	Procsi Ariannol	Ffynhonnell	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (%)
Gwaith cyflogedig	405 o 1729 teithiwr	£6,632 y pen y flwyddyn	Social Value Calculator ¹	£2,685,960 (49%)
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	909 o 1729 teithiwr	£1,850 y pen y flwyddyn	Social Value Calculator ¹	£1,681,650 (31%)
Apwyntiadau gofal iechyd	3.12 apwyntiad wedi'i fethu fesul teithiwr (n=1729)	£90 fesul apwyntiad gofal iechyd a fethwyd	GIG Cymru ² NHS England ³	£485,503 (9%)
Gwirfoddoli a gofalu	126 o 1729 teithiwr (7%)	£3,249 y pen y flwyddyn	Social Value Calculator ¹	£409,374 (7%)
Addysg a hyfforddiant	188 o 1729 teithiwr (11%)	£1,124 y pen y flwyddyn	Social Value Calculator ¹	£211,312 (4%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol ar gyfer 1,729 o deithwyr a gwblhaodd holiaduron				£5,473,799

¹ <https://www.hact.org.uk/value-calculator>

² <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/59579>, 4 Mawrth 2019

³ <https://www.england.nhs.uk/2019/01/missed-gp-appointments-costing-nhs-millions/>, 2 January 2019

Ffigur 9.1: Cyfraniad y prif ganlyniadau i gyfanswm y gwerth cymdeithasol



10. Cyfrifo'r gymhareb gwerth cymdeithasol

Wrth gyfrifo'r gymhareb gwerth cymdeithasol, nid oedd modd cael data holiadur gan bob teithiwr ar lwybrau bws cymorthdaledig. Felly, cwblhawyd yr holiaduron gan ganran o deithwyr ar bob llwybr. O'r holiaduron hyn a gwblhawyd, cyfrifwyd y gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr ar gyfer pob llwybr.

Yn ogystal, bu i bob teithiwr a gwblhaodd holiadur roi cyfrif am fwy nag un siwrne teithiwr os oeddynt yn teithio yn ddyddiol, yn wythnosol neu'n fisol. Felly, roedd nifer y siwrneion teithwyr bob blwyddyn ar gyfer pob llwybr yn seiliedig ar ymatebion teithwyr i gwestiwn 3 yr holiadur, oed yn holi:

'Pa mor aml fyddwch chi'n defnyddio'r gwasanaeth bws?' (gallai teithwyr roi tic mewn blwch ar gyfer *dyddiol*, *wythnosol*, *misol* neu arall).

Yn seiliedig ar ymatebion teithwyr i gwestiwn 3, tybiwyd fod teithwyr oedd wedi rhoi tic yn y bwlch *'dyddiol'* yn teithio 3 siwrne yr wythnos ar gyfartaledd; bod y rhai oedd wedi rhoi tic yn y blwch *'wythnosol'* yn teithio 1 siwrne yr wythnos ar gyfartaledd; a bod y rhai oedd wedi rhoi tic yn y blwch *'misol'* yn teithio 1 siwrne y mis ar gyfartaledd. Yn ogystal, tybiwyd bod y rhai oedd wedi rhoi tic yn y blwch *dyddiol* ac *wythnosol* yn teithio am 47 wythnos y flwyddyn, a bod y rhai oedd wedi rhoi tic yn y blwch *misol* yn teithio am 11 mis y flwyddyn (Tabl 10.1).

Tabl 10.1: Tybiaethau ar gyfer amcangyfrif nifer y siwrneion teithwyr

Ymateb teithwyr i gwestiwn 3	Tybiaethau ar gyfer amcangyfrif siwrneion teithwyr	Siwrneion teithwyr bob blwyddyn
Dyddiol	3 siwrne y flwyddyn am 47 wythnos y flwyddyn	141
Wythnosol	1 siwrne y flwyddyn am 47 wythnos y flwyddyn	47
Misol	1 siwrne y mis am 11 mis y flwyddyn	11

Pan gymhwyswyd y tybiaethau hyn, cyfanswm nifer y siwrneion teithwyr bob blwyddyn ar gyfer y 1,729 o holiaduron a gwblhawyd oedd 147,168, oedd yn 12% o'r 1,230,054 siwrneion teithwyr blyneddol yr adroddwyd amdanynt yn y data a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol (Tabl 7.1).

10.1 Amcangyfrif y gymhareb gwerth cymdeithasol

Yna, cyfrifwyd y gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr drwy rannu cyfanswm y gwerth cymdeithasol ar gyfer y 1,729 teithiwr (£5,473,799, Tabl 9.1) ag amcan gyfanswm y siwrneion teithwyr ar gyfer y 1,729 o deithwyr (147,168). Y canlyniad oedd gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr o £37.19 (Tabl 10.2).

10.2 Amcangyfrif y llwyth ('deadweight')

I leihau'r risg o or-hawlio'r gwerth cymdeithasol, mae methodoleg SROI yn gofyn am ystyried 'llwyth'. Mae llwyth yn cyfeirio at yr hyn fyddai wedi digwydd beth bynnag, pe na bai'r gwasanaethau bws yn rhedeg. Yn y gwerthusiad hwn, amcangyfrifwyd y llwyth yn seiliedig ar ymatebion teithwyr i gwestiwn 9 yr holiadur bws, oedd yn holi:

'Os na fyddai'r bws hwn yn rhedeg, sut fydddech chi'n gwneud y siwrne hon?' (gallai teithwyr roi tic mewn blwch ar gyfer gyrru, cerdded, beicio, tacsï, lifft gan deulu/ffrindiau, neu ddim yn teithio ar y siwrne).

O'r 1,729 ymateb i'r holiaduron, bu i 69% o deithwyr nodi y buasent yn canfod dull amgen o deithio os na fyddai'r gwasanaeth bws yn rhedeg, ac adroddodd 31% na fuasent yn teithio ar y siwrne. Felly, amcangyfrifwyd bod y ganran llwyth yn 69%, sy'n cynrychioli canran y teithwyr fyddai wedi canfod dull amgen o deithio hyd yn oed os na fyddai'r bws yn rhedeg (Adran Trafnidiaeth, 2013).

Yn ôl yr Adran Trafnidiaeth (2013), mae gwerth cymdeithasol ar gyfer teithwyr bws yn cael ei gyfrif yn unig ar gyfer y rhai na fyddai'n medru teithio ar y siwrne (31%) os na fyddai'r gwasanaeth bws ar gael. Byddai teithwyr fyddai'n defnyddio dull arall o gludiant yn absenoldeb y bws yn parhau i fedru cael mynediad at weithgareddau (h.y. cyflogaeth, addysg, gofal iechyd, gweithgareddau cymdeithasol, siopa, gwirfoddoli neu ofalu), ac felly buasent yn derbyn y buddion cymdeithasol cysylltiedig. Pan gafodd y ganran llwyth o 69% ei gymhwyso, y gymhareb gwerth cymdeithasol oedd £7.63 ar gyfer pob £1 a fuddsoddwyd. Mae'r gymhareb hon yn cynrychioli'r senario achos sylfaenol ar gyfer y 39 gwasanaeth bws gyda'i gilydd (Tabl 10.2).

Tabl 10.2: Cyfrifo'r Gymhareb Gwerth Cymdeithasol

Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (1,729 o holiaduron teithwyr)	£5,473,799
Cyfanswm nifer y siwrneion teithwyr y flwyddyn (1,729 o holiaduron teithwyr)	147,168
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr	£37.19
Cost fesul siwrne teithiwr	£1.51
Cymhareb gwerth cymdeithasol (cyn y llwyth)	24.63
Cymhareb gwerth cymdeithasol (gyda llwyth o 69%)	£7.64 : £1 (achos sylfaenol)
Cymhareb gwerth cymdeithasol (gyda 50% o ddeilliannau)	£3.82 : £1 (achos ceidwadol)
Cymhareb gwerth cymdeithasol (gyda llwyth o 50%)	£12.32 : £1 (achos optimistaidd)

11. Dadansoddiad sensitifrwydd

Roedd y gymhareb achos sylfaenol o £7.64 : £1 yn seiliedig ar dybiaethau a gafwyd o'r data meintiol ac ansoddol yn y 1,729 o holiaduron a gwblhawyd. Roedd y senario achos sylfaenol yn tybio bod sgorau o 8 neu fwy yng nghwestiwn 7 yr holiadur yn nodi bod deilliant yn berthnasol ac yn arwyddocaol. Mae'n bosib nad oedd pob teithiwr a raddiodd ddeilliant penodol (h.y. mynediad at weithgareddau cymdeithasol/siopa, cyflogaeth, addysg, gwirfoddoli/gofalu am berthynas) ar sgôr o 8 neu fwy ar raddfa o 1 i 10 (cwestiwn 7 yr holiadur) yn gymwys am y gwerth cymdeithasol llawn a restrir yn y Banc Gwerth Cymdeithasol, mewn gwirionedd. Felly, ni fu i'r achos ceidwadol ond tybio 50% o ddeilliannau, gan arwain at gymhareb gwerth cymdeithasol o £3.82 : £1 (Tabl 10.2).

Mae'n bosib hefyd bod y ganran llwyth o 69% yn rhy uchel. Er y bu i 69% o deithwyr nodi y buasent yn canfod dull cludiant arall (os na fyddai'r gwasanaeth bws yn rhedeg), bu i nifer nodi bod tacsï yn hynod ddud, a bod dibynnu ar deulu a ffrindiau am lifft yn anghyfleus. Mae hyn yn nodi y gallai nifer uwch o deithwyr beidio â theithio ar y siwrne heb y bws. Felly, bu i senario optimistaidd dybio canran llwyth o 50%, a arweiniodd at gymhareb gwerth cymdeithasol o £12.32 : £1 (Tabl 10.2). O ystyried y senarios ceidwadol ac optimistaidd, mae'n debygol bod y gymhareb gwerth cymdeithasol ar gyfer y 39 llwybr bws cymorthdaledig gyda'i gilydd yn amrywio rhwng £3.82 a £12.32 am bob £1 a fuddsoddwyd (Tabl 10.2).

12. Cymharu llwybrau bws

Pan gymharwyd y llwybrau bws cymorthdaledig, roedd amrywiaeth eang o gymarebau gwerth cymdeithasol yn amrywio o £59.96 : £1 (llwybr 38) i £0.31 : £1 (llwybr 8AB) (Tabl 12.1).

Bu i naw llwybr bws adrodd am gymarebau gwerth cymdeithasol o fwy na £10 : £1 (wedi'u lliwio'n wyrdd, Tabl 12.1).

Dangosai pedwar llwybr gymarebau gwerth cymdeithasol o lai na £1 : £1 (wedi'u lliwio'n felyn, Tabl 12.1). Ar gyfer y pedwar llwybr hwn, roedd y gost fuddsoddiad teithiwr yn fwy na £6 (Tabl 12.1).

Tabl 12.1: Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr a chymarebau gwerth cymdeithasol

Gwasanaeth	Siwrne	Holiaduron a gwblhawyd (maint y sampl) ¹	Cost fesul siwrne teithiwr	Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr	Cymhareb gwerth cymdeithasol
38	Harlech - Abermaw	28 (5%)	£0.23	£13.79	£59.96 : £1
88	Caernarfon - Llanberis	60 (6%)	£0.39	£14.18	£36.36 : £1
3B	Porthmadog - Blaenau	142 (10%)	£0.59	£13.50	£22.89 : £1
30	Dolgellau - Tywyn	16 (4%)	£0.72	£11.79	£16.38 : £1
12E/12S	Pwllheli - Caernarfon (gyda'r nos)	33 (2%)	£0.52	£7.44	£14.31 : £1
93	Clipa Caernarfon	25 (3%)	£0.51	£6.95	£13.63 : £1
5E	Bangor - Caernarfon	138 (46%)	£1.04	£12.94	£12.44 : £1
1N	Caernarfon – Penygroes – Talysarn - Nantlle	65 (12%)	£1.04	£11.83	£11.38 : £1
78	Maesgeirchen	29 (28%)	£0.93	£9.94	£10.69 : £1
1F	Caernarfon - Carmel	42 (12%)	£1.38	£13.71	£9.93 : £1
8	Nefyn - Pwllheli	28 (4%)	£1.11	£10.87	£9.79 : £1
67S	Bangor – Bethesda (Sul)	28 (23%)	£1.62	£14.61	£9.02 : £1
28	Dolgellau - Tywyn	27 (6%)	£1.75	£14.93	£8.53 : £1
85	Caernarfon – Dinorwig	182 (31%)	£2.15	£17.54	£8.16 : £1
39	Dolgellau – Abermaw – Harlech - Porthmadog	71 (9%)	£1.50	£11.94	£7.96 : £1
35	Dolgellau – Blaenau Ffestiniog	27 (15%)	£2.03	£13.74	£6.77 : £1
92	Caernarfon – Maes Barcer	44 (13%)	£1.11	£6.89	£6.21 : £1
1A	Llanllfni - Nasareth	39 (9%)	£1.53	£9.41	£6.15 : £1
83	Bethel - Caernarfon	142 (43%)	£2.38	£13.97	£5.87 : £1
37	Blaenau Ffestiniog	37 (14%)	£1.41	£7.47	£5.30 : £1
76	Bangor - Bethesda	89 (23%)	£2.76	£13.81	£4.78 : £1
17	Pwllheli - Aberdaron	28 (8%)	£2.87	£11.41	£3.98 : £1
1E	Caernarfon - Porthmadog	12 (8%)	£3.91	£15.27	£3.91 : £1
18	Pwllheli - Abersoch	59 (16%)	£2.69	£9.78	£3.64 : £1
3	Pwllheli - Porthmadog	75 (57%)	£3.87	£13.30	£3.44 : £1
3S	Pwllheli - Porthmadog (Sul)	20 (16%)	£2.55	£8.35	£3.27 : £1
91	Caernarfon – Dinas Dinlle a Lleol	53 (21%)	£2.89	£9.00	£3.11 : £1
33	Dolgellau – Dinas Mawddwy	6 (3%)	£3.38	£10.41	£3.08 : £1
29	Clipa Tywyn	10 (6%)	£3.88	£11.53	£2.97 : £1
27	Pwllheli - Llithfaen	16 (8%)	£3.43	£9.43	£2.75 : £1
1S	Caernarfon (Sul)	8 (5%)	£3.92	£9.16	£2.34 : £1
1NS	Caernarfon – Nantlle (Sul)	13 (28%)	£3.26	£7.34	£2.25 : £1
23	Clipa Pwllheli	27 (13%)	£2.71	£5.95	£2.20 : £1
88S	Caernarfon – Llanberis (Sul)	23 (35%)	£5.27	£10.70	£2.03 : £1
67E	Bangor - Bethesda (gyda'r nos)	28 (52%)	£6.17	£8.06	£1.31 : £1
8S/18S	Pwllheli – Abersoch (Sul)	13 (26%)	£6.32	£8.30	£0.76 : £1
14	Caernarfon – Pwllheli (Berwyn)	21 (68%)	£18.45	£13.26	£0.72 : £1
2S	Bangor – Dolgellau (Sul)	9 (20%)	£10.86	£4.83	£0.44 : £1
8AB	Dinas – Rhydyclafdy - Pwllheli	16 (29%)	£15.49	£4.73	£0.31 : £1
Cyfartaledd y llwybrau bws cymorthdaledig gyda'i gilydd		44 (12%)	£1.51	£11.54	£7.64 : £1

¹ maint y sampl yn seiliedig ar nifer y siwrneion teithiwr blynyddol o'r holiaduron (Tabl 10.1)


12.1 Cymharu'r dull gwerth cymdeithasol â'r dull cost fesul siwrne

Pan gymharwyd y dull gwerth cymdeithasol (Tabl 12.2) â'r gost fesul dull siwrne (Tabl 12.3), roedd naw llwybr ar ben y ddau restr (wedi'u lliwio'n wyrdd), ac roedd chwe llwybr ar waelod y ddau restr (wedi'u lliwio'n felyn).

Tabl 12.2: Dull gwerth cymdeithasol ar gyfer cymharu llwybrau bws

Cymarebau gwerth cymdeithasol yn fwy na £10 : 1		Cymarebau gwerth cymdeithasol rhwng £10 : 1 a £6 : 1		Cymarebau gwerth cymdeithasol rhwng £6 : 1 a £3 : 1		Cymarebau gwerth cymdeithasol llai na £3 : 1	
1) Llwybr 38	£59.96	10) Llwybr 1F	£9.93	19) Llwybr 83	£5.87	29) Llwybr 29	£2.97
2) Llwybr 88	£36.36	11) Llwybr 8	£9.79	20) Llwybr 37	£5.30	30) Llwybr 27	£2.75
3) Llwybr 3B	£22.89	12) Llwybr 67S	£9.02	21) Llwybr 76	£4.78	31) Llwybr 1S	£2.34
4) Llwybr 30	£16.38	13) Llwybr 28	£8.53	22) Llwybr 17	£3.98	32) Llwybr 1NS	£2.25
5) Llwybr 12E	£14.31	14) Llwybr 85	£8.16	23) Llwybr 1E	£3.91	33) Llwybr 23	£2.20
6) Llwybr 93	£13.63	15) Llwybr 39	£7.96	24) Llwybr 18	£3.64	34) Llwybr 88S	£2.03
7) Llwybr 5E	£12.44	16) Llwybr 35	£6.77	25) Llwybr 3	£3.44	35) Llwybr 67E	£1.31
8) Llwybr 1N	£11.38	17) Llwybr 92	£6.21	26) Llwybr 3S	£3.27	36) Llwybr 8S/18S	£0.76
9) Llwybr 78	£10.69	18) Llwybr 1A	£6.15	27) Llwybr 91	£3.11	37) Llwybr 14	£0.72
				28) Llwybr 33	£3.08	38) Llwybr 2S	£0.44
						39) Llwybr 8AB	£0.31

Tabl 12.3: Cost fesul dull siwrne ar gyfer cymharu llwybrau bws

Cost fesul siwrne teithiwr llai na £1		Cost fesul siwrne teithiwr rhwng £1 - £2		Cost fesul siwrne teithiwr rhwng £2 - £3		Cost fesul siwrne teithiwr mwy na £3	
1) Llwybr 38	£0.23	8) Llwybr 1N	£1.04	18) Llwybr 35	£2.03	27) Llwybr 1NS	£3.26
2) Llwybr 88	£0.39	9) Llwybr 5E	£1.04	19) Llwybr 85	£2.15	28) Llwybr 33	£3.38
3) Llwybr 93	£0.51	10) Llwybr 8	£1.11	20) Llwybr 83	£2.38	29) Llwybr 27	£3.43
4) Llwybr 12E	£0.52	11) Llwybr 92	£1.11	21) Llwybr 3S	£2.55	30) Llwybr 3	£3.87
5) Llwybr 3B	£0.59	12) Llwybr 1F	£1.38	22) Llwybr 18	£2.69	31) Llwybr 29	£3.88
6) Llwybr 30	£0.72	13) Llwybr 37	£1.41	23) Llwybr 23	£2.71	32) Llwybr 1E	£3.91
7) Llwybr 78	£0.93	14) Llwybr 39	£1.50	24) Llwybr 76	£2.76	33) Llwybr 1S	£3.92
		15) Llwybr 1A	£1.53	25) Llwybr 17	£2.87	34) Llwybr 88S	£5.27
		16) Llwybr 67S	£1.62	26) Llwybr 91	£2.89	35) Llwybr 67E	£6.17
		17) Llwybr 28	£1.75			36) Llwybr 8S/18S	£6.32
						37) Llwybr 2S	£10.86
						38) Llwybr 8AB	£15.49
						39) Llwybr 14	£18.45

12.2 Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr

Roedd y gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr ar lwybr bws cymorthdaledig yn amrywio o £ 4.73 i £17.54 (Tabl 12.4). Adroddodd llwybrau gyda gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr o fwy na £10 (wedi'u lliwio'n wyrdd) ganrannau oedd gan amlaf yn uwch o ran gwerth cymdeithasol o gludiant i ac o gyflogaeth (Tabl 12.4). Bu i bum llwybr (wedi'u lliwio'n felyn) adrodd am werth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr o lai na £7. Roedd gan y llwybrau hyn ganran sylweddol is (20%) neu lai o werth cymdeithasol o gludiant i ac o gyflogaeth (Table 12.4).

Tabl 12.4: Cymharu llwybrau bws gan ddefnyddio gwerth cymdeithasol fesul siwrne

Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr o fwy na £10			Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr o lai na £10		
Gwasanaeth	Siwrne	Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr (% y gwerth cymdeithasol o gyflogaeth)	Gwasanaeth	Siwrne	Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr (% o werth cymdeithasol o gyflogaeth)
85	Caernarfon - Dinorwig	£17.54 (57%)	78	Maesgeirchen	£9.94 (49%)
1E	Caernarfon - Porthmadog	£15.27 (60%)	18	Pwllheli - Abersoch	£9.78 (57%)
28	Dolgellau - Tywyn	£14.93 (39%)	27	Pwllheli - Llithfaen	£9.43 (29%)
67S	Bangor – Bethesda (Sul)	£14.61 (74%)	1A	Llanllyfni - Nasareth	£9.41 (0%)
88	Caernarfon - Llanberis	£14.18 (59%)	1S	Caernarfon (Sul)	£9.16 (0%)
83	Bethel - Caernarfon	£13.97 (52%)	91	Caernarfon – Dinas Dinlle	£9.00 (27%)
76	Bangor - Bethesda	£13.81 (41%)	3S	Pwllheli - Porthmadog (Sul)	£8.35 (20%)
38	Harlech - Barmouth	£13.79 (28%)	8S/18S	Pwllheli – Abersoch (Sul)	£8.30 (31%)
35	Dolgellau – B. Ffestiniog	£13.74 (57%)	67E	Bangor – Bethesda (gyda'r nos)	£8.06 (72%)
1F	Caernarfon - Carmel	£13.71 (51%)	37	Blaenau Ffestiniog	£7.47 (46%)
3B	Porthmadog - Blaenau	£13.50 (53%)	12E/12S	Pwllheli - Caernarfon (gyda'r nos)	£7.44 (57%)
3	Pwllheli - Porthmadog	£13.30 (49%)	1NS	Caernarfon – Nantlle (Sul)	£7.34 (62%)
14	C'fon – Pwllheli (Berwyn)	£13.26 (53%)	93	Clipa Caernarfon	£6.95 (19%)
5E	Bangor - Caernarfon	£12.94 (54%)	92	Caernarfon – Maes Barcer	£6.89 (20%)
39	Dolgellau – Harlech - Port	£11.94 (24%)	23	Clipa Pwllheli	£5.95 (0%)
1N	C'fon – Penygroes - Nantlle	£11.83 (41%)	2S	Bangor – Dolgellau (Sul)	£4.83 (0%)
30	Dolgellau - Tywyn	£11.79 (33%)	8AB	Dinas – Rhydyclafdy - Pwllheli	£4.73 (0%)
17	Pwllheli - Aberdaron	£11.41 (41%)	Cyfartaledd		£7.74 (29%)
8	Nefyn - Pwllheli	£10.87 (52%)			
88S	Caernarfon – Llanberis (Sul)	£10.70 (51%)			
33	Dolgellau – Dinas Mawddwy	£10.41 (0%)			
Cyfartaledd		£13.37 (46%)			

13. Trafodaeth

Defnyddiodd yr astudiaeth hon fethodoleg SROI ar gyfer meintioli a rhoi gwerth ariannol ar bum prif ddeiliant i deithwyr, oedd yn cynnwys mynediad at: gyflogaeth, gweithgareddau cymdeithasol/siopa, gofal iechyd, addysg, a gwirfoddoli/gofalu. Cafodd y pum deiliant hwn eu dewis gan y grŵp ffocws ar ddechrau'r gwerthusiad ac fe'u hysbyswyd gan dystiolaeth o astudiaethau blaenorol oedd yn amcangyfrif gwerth cymdeithasol gwasanaethau bws i deithwyr (Gauge NI, 2011); Adran Trafnidiaeth, 2013; KPMG, 2016).

Cryfderau'r astudiaeth hon

Mae astudiaethau blaenorol wedi gwerthuso gwerth cymdeithasol cyffredinol gwasanaethau bws, ond dyma'r cyntaf i gymharu'r gwerth cymdeithasol i deithwyr ar wahanol lwybrau bws cymorthdaledig mewn un Awdurdod Lleol. Yn ail, roedd dilysrwydd y canlyniadau yn cael ei gryfhau o ddata meintiol ac ansoddol a gasglwyd i 1,729 o holiaduron a gwblhawyd gan deithwyr, gan roi llais i'r prif fuddiolwr. Yn drydydd, gyda phwyslais ar gynnwys budd-ddeiliaid yn uniongyrchol, roedd y gwerthusiad hwn wedi'i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn bedwerydd, cafwyd y deilliannau a roddwyd gwerth ariannol arnynt a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad hwn o ddull cyson a chadarn (h.y. y gwerth llesiant) a argymhellir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (2018) ar gyfer mesur Dadansoddiad Cost-Budd cymdeithasol.

Cyfyngiadau'r astudiaeth hon

Yn gyntaf, efallai bod dibynadwyedd y canlyniadau wedi'u llesteirio gan amrywiaethau yng nghyfanswm y data a gasglwyd ar gyfer pob llwybr. Nifer cyfartalog yr holiaduron a gwblhawyd fesul llwybr oedd 44, ond roedd hyn yn amrywio o 6 (Llwybr 33) i 182 (Llwybr 85). Maint y sampl (yn seiliedig ar amcangyfrif o nifer y siwrneion teithwyr) ar gyfer Llwybr 33 oedd 3%, oedd yn sylweddol lai na maint y sampl o 31% ar gyfer Llwybr 85 (Tabl 12.1). Roedd maint y sampl ar gyfer pob llwybr yn bwysig wrth ystyried i ba raddau oedd y data o holiaduron a gwblhawyd yn cynrychioli'r holl siwrneion teithwyr ar gyfer llwybr penodol. Roedd yn bosib nad oedd data'r holiaduron o lwybrau gyda meintiau sampl llai yn gynrychioliadol o'r holl deithwyr oedd yn defnyddio'r llwybrau hyn.

Mae hefyd yn bosib y gallai 'tuedd strategol' fod wedi dylanwadu ar y canlyniadau. Yn yr astudiaeth hon, mae tuedd strategol yn cyfeirio at y posibilrwydd bod teithwyr bws yn gor-adrodd gwerth y gwasanaeth bws er mwyn dylanwadu ar broses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod Lleol (Meginnis et al., 2018). Er y gallai tuedd strategol fod wedi effeithio ar y cymarebau gwerth cymdeithasol ar gyfer y 39 gwasanaeth cymorthdaledig gyda'i gilydd, ni fyddai wedi effeithio ar y gymhariaeth rhwng llwybrau.

13.1 Prif ganfyddiadau

1) Mae gwasanaethau bws cymorthdaledig yng Ngwynedd yn cyflawni gwerth cymdeithasol cadarnhaol i deithwyr

Dengys canlyniadau'r astudiaeth hon bod gwasanaeth bws cymorthdaledig yn creu gwerth cymdeithasol cadarnhaol i deithwyr. Dangosodd data meintiol ac ansoddol o 1,729 o holiaduron bod gwasanaethau cymorthdaledig yn galluogi teithwyr i deithio i ac o'r gwaith, addysg, siopa, gweithgareddau cymdeithasol, apwyntiadau gofal iechyd, cyfleoedd gwirfoddoli a gofalu am rieni oeddrannus. Pan cyfunwyd y 39 llwybr bws cymorthdaledig, roedd y gymhareb gwerth cymdeithasol yn amrywio o £3.82 : £1 (achos ceidwadol) i £12.32 : £1 (achos optimistaidd), gydag achos sylfaenol o £7.64 : £1 (Tabl 10.2).

Dengys y canlyniadau hyn ar gyfer pob £1 a fuddsoddir mewn gwasanaethau bws cymorthdaledig, fod oddeutu £3 i £13 o werth cymdeithasol yn cael ei greu i deithwyr. Gellir cymharu'r cymarebau gwerth cymdeithasol hyn ag astudiaethau cludiant cymunedol a chludiant bws blaenorol lle'r oedd y cymarebau gwerth cymdeithasol yn amrywio o £3.07 : £1 (Wright, 2009) i £8.17 : £1 (Adran Trafnidiaeth, 2013) i £12 : £1 (Gauge, 2011).

2) Roedd cludiant i ac o gyflogaeth yn gysylltiedig â gwerth cymdeithasol uwch fesul siwrne teithiwr

Roedd y gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr ar gyfer pob un o'r 39 llwybr yn amrywio o £4.73 (Llwybr 8AB) i £17.54 (Llwybr 85). Yn gyffredinol, y llwybrau â'r gwerth cymdeithasol uchaf fesul siwrne teithiwr oedd y rhai oedd yn darparu cludiant i ac o gyflogaeth (Tabl 12.4). Adroddodd pum llwybr gyda gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr o lai na £7 ganran is (20% neu lai) o siwrneion teithwyr i ac o gyflogaeth (Tabl 12.4).

3) Argymhellwyd ailstrwythuro ar gyfer pedwar llwybr gyda chymarebau gwerth cymdeithasol o lai na £1 : £1

Dangosai pedwar llwybr (85/185, 14, 25, 8AB) gymarebau gwerth cymdeithasol o lai na £1 : £1. Adroddodd pob un o'r llwybrau hyn lai na 100 o siwrneion teithwyr yr wythnos. Amrywiai'r gost fesul siwrne teithwyr ar gyfer y pedwar llwybr hwn rhwng £6.32 a £18.45 (Ffigur 13.1). Argymhellir ailstrwythuro'r pedwar llwybr hyn (Ffigur 13.1).

Fodd bynnag, bu i un o'r pedwar gwasanaeth (Llwybr 14) adrodd am werth cymdeithasol uchel fesul siwrne teithiwr (£13.26) yn sgil canran uwch (53%) o siwrneion teithwyr i ac o waith cyflogedig. Er nad oedd hyn yn ddigon i'w osod yn erbyn y costau gweithredu blynyddol uchel (£47,290) a nifer isel o siwrneion teithwyr (49 yr wythnos), argymhellir cymryd gofal wrth ailstrwythuro Llwybr 14 i sicrhau y gall teithwyr gael mynediad at gyflogaeth, gan osgoi'r posibilrwydd o ynysu cymdeithasol a thaliadau budd-dal.

Ffigur 13.1: Proffil pedwar llwybr gyda chymarebau gwerth cymdeithasol llai na £ 1 : £ 1

Llwybr 8S/18S: Nefyn, Abersoch, Pwllheli (Sul)		Llwybr 14: Caernarfon – Pwllheli	
Pellter:	12 milltir	Pellter:	21 milltir
Cost Flynyddol:	£8.30	Cost Flynyddol:	£13.26
Siwrneion teithwyr bob blwyddyn:	41 - 59	Siwrneion teithwyr bob blwyddyn:	41 - 59
Siwrneion teithwyr bob wythnos:	13	Siwrneion teithwyr bob wythnos:	21
Cost fesul siwrne teithiwr:	26%	Cost fesul siwrne teithiwr:	68%
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr:	£8.30	Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr:	£13.26
% o werth cymdeithasol o gyflogaeth:	31%	% y gwerth cymdeithasol o gyflogaeth:	53%
Oedran cymedrig y teithwyr	41 - 59	Oedran cymedrig y teithwyr:	41 - 59
Holiaduron a gasglwyd:	13	Holiaduron a gasglwyd:	21
Maint y sampl (yn seiliedig ar siwrneion teithwyr):	26%	Maint y sampl (yn seiliedig ar siwrneion teithwyr):	68%

Llwybr 2S: Bangor i Ddolgellau		Llwybr 8AB: Dinas, Rhydyclafdy, Pwllheli	
Pellter:	49 milltir	Pellter:	25 milltir
Cost Flynyddol:	£8.30	Cost Flynyddol:	£13.26
Siwrneion teithwyr bob blwyddyn:	41 - 59	Siwrneion teithwyr bob blwyddyn:	41 - 59
Siwrneion teithwyr bob wythnos:	13	Siwrneion teithwyr bob wythnos:	21
Cost fesul siwrne teithiwr:	20%	Cost fesul siwrne teithiwr:	29%
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr:	£8.30	Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr:	£13.26
% o werth cymdeithasol o gyflogaeth:	0%	% o werth cymdeithasol o gyflogaeth:	0%
Oedran cymedrig y teithwyr	26 - 40	Oedran cymedrig y teithwyr	41 - 59
Holiaduron a gasglwyd:	9	Holiaduron a gasglwyd:	16
Maint y sampl (yn seiliedig ar siwrneion teithwyr):	20%	Maint y sampl (yn seiliedig ar siwrneion teithwyr):	29%

14. Casgliad

Dangosodd data meintiol ac ansoddol o holiaduron 1,729 o deithwyr bod 41 o lwybrau bws cymorthdaledig wedi creu gwerth cymdeithasol sylweddol i deithwyr. Darparu cludiant i ac o waith cyflogedig oedd y ffynhonnell fwyaf o werth cymdeithasol i deithwyr, ac roedd llwybrau gyda chanran uwch o siwrneion teithwyr i waith cyflogedig yn creu gwerth cymdeithasol uwch.

Pan gymharwyd y 39 llwybr, roedd amrediad eang o gymarebau gwerth cymdeithasol, gyda naw llwybr yn adrodd am gymarebau oedd yn fwy na £10 am bob £1 a fuddsoddwyd, a phedwar llwybr yn dangos cymarebau gwerth cymdeithasol o lai na £1 am bob £1 a fuddsoddwyd. Roedd y cymarebau gwerth cymdeithasol isel yn bennaf yn sgil costau gweithredu blynyddol uchel, nifer isel o siwrneion teithwyr bob blwyddyn, a llai o siwrneion teithwyr i ac o waith cyflogedig. Argymhellir ailstrwythuro'r pedwar llwybr gyda chymarebau gwerth cymdeithasol o lai na £1 : £1.

Er bod angen gwneud peth ailstrwythuro i'r llwybrau, dangosodd data'r holiaduron o'r 39 gwasanaeth cymorthdaledig gyda'i gilydd bod buddion i deithwyr o bob oedran. Adroddodd pobl ifanc bod y gwasanaeth bws yn eu galluogi i gyrraedd yr ysgol, treulio amser â'u ffrindiau ac i ddibynnu llai ar eu rhieni er mwyn mynychu gweithgareddau. Nododd oedolion oedran gweithio bod y gwasanaeth bws yn hanfodol er mwyn mynd i ac o gyflogaeth, a'i fod yn ddull cludiant pwysig wrth ofalu am eu rhieni oedrannus. Roedd pobl hŷn angen y bws er mwyn gadael y tŷ, i leihau unigrwydd, i siopa, i fynd i weithgareddau cymdeithasol ac i ymweld â'r Meddyg Teulu. Heb y bws, dywedodd pobl hŷn y buasant yn teimlo'n ynysig, yn unig ac yn isel. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym yng Ngwynedd a chyda mwy nag un ymhob pum cartref heb gar, roedd gwasanaethau bws cymorthdaledig yn darparu dull hanfodol o cludiant i nifer o bobl yng Ngwynedd.

15. Cyfeiriadau

- Adran Trafnidiaeth (2013). Valuing the social impacts of public transport.
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (2017). Asesiad Llesiant Gwynedd.
- Campaign for Better Transport (2011). Buses matter: report by Campaign for Better Transport for the RMT.
- Campaign for Better Transport (2018). The future of rural bus services in the UK. Llundain.
- Carpenter, B. (2015). SROI and HACT's social value bank linkages paper.
- Fujiwara, D. a Campbell, R. (2011), Valuation Techniques for Social Cost-Benefit Analysis: Stated Preference, Revealed Preference and Subjective Well-Being Approaches.
- Fujiwara, D. (2014). Measuring the social impact of community investment: The methodology paper. HACT Ideas and Innovation in Housing.
- Gauge NI (2011). The benefits of Rural Community Transport: SROI Report.
- GIG Cymru (2019). Cancel Your Hospital Appointment: Don't be a no-show <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/59579>, 4 Mawrth 2019.
- HACT (2019). Social Value Bank Calculator 4.0. <https://www.hact.org.uk/value-calculator>
- Kahneman, D., Ritov, I., Jacowitz, K. E., a Grant, P. (1993). Stated Willingness to Pay for Public Goods: A Psychological Perspective. *Psychological Science*, 4(5), 310–315.
- KPMG (2016). A study of the value of local bus services to society: A report for Greener Journeys.
- Llywodraeth Cymru (2015). Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol.
- Llywodraeth Cymru (2018). Dogfen Ymgynghori: Gwella trafndiaeth gyhoeddus.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2015). Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caerdydd.
- Meginnis, K., Burton, M., Chan, R., a Rigby, D. (2018). Strategic bias in discrete choice experiments. *Journal of Environmental Economics and Management*, <https://doi.org/10.1016/j.jeem.2018.08.010>.
- NHS England (2019). Missed GP appointments costing NHS millions, <https://www.england.nhs.uk/2019/01/missed-gp-appointments-costing-nhs-millions/>, 2 Ionawr 2019
- New Economics Foundation (2013). Social CBA and SROI. London
- Swyddfa'r Cabinet (2012). A Guide to Social Return on Investment. Llundain.
- The King's Fund (2013). Volunteering in health and care: Securing a sustainable future. Llundain.
- Toepoel, V. (2013). Ageing, leisure, and social connectedness: How could leisure help reduce social isolation of older people? *Social Indicators Research*, 113(1), 355–372.
- Transport Scotland (2015). Research into the Social and Economic Benefits of Community Transport in Scotland.
- Trysorlys EM (2018). The Green Book: Central Government Guidance on Appraisal and Evaluation. Llundain.
- UK Government (1985). Transport Act 1985.
- Wright, S., Nelson, J. D., Cooper, J. M., a Murphy, S. (2009). An evaluation of the Transport to Employment (T2E) scheme in Highland Scotland using Social Return on Investment (SROI). *Journal of Transport Geography*, 17(6), 457-467.



Atodiad 1: Holiadur Bws Lleol Gwynedd 2019

Gwasanaeth _____ Dyddiad _____ Amser: _____

Man Codi: _____

Pen y Daith: _____

1) Eich Oedran

< 16	16 - 25	26 - 40	41 - 59	60-79	80+

2) Eich rhywedd

Gwryw	
Benyw	
Mae'n well gen i beidio â dweud	

3) Pa mor aml fyddwch chi'n defnyddio'r gwasanaeth bws hwn?

Yn ddyddiol	Yn wythnosol	Yn fisol	Arall (nodwch)

4) Yn ystod wythnos arferol, ar ba ddyddiau ydych chi'n defnyddio'r gwasanaeth bws hwn?

Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul

5) Sut wnaethoch chi dalu am y siwrne hon?

Tocyn bws mantais	
Tocyn wythnosol neu misol (60+)	
Tocyn wythnosol neu misol (anabl)	
Tocyn 16+	
Arian parod	
Arall (nodwch isod os gwelwch yn dda)	


Arall _____

6) Y rheswm dros y siwrne hon heddiw?


Mynd i'r gwaith	Gwirfoddol	Gofalu am rywun	Gwasanaethau ieuchyd	Mynd i siopa	Addysg/hyfforddiant	Gweithgareddau corfforol	Gweithgareddau cymdeithasol

7) Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy ddarparu trafndiaeth i ac o...


a) **a) gwaith cyflogedig?** Amherthnasol




b) **gwirfoddoli?** Amherthnasol




c) **gofalu am ffrind neu berthynas?** Amherthnasol




d) **gweithgareddau cymdeithasol (h.y. cwrdd â ffrindiau)?** Amherthnasol




e) **apwyntiadau gofal iechyd?** Amherthnasol



f) **Mynd i siopau, gan gynnwys banciau a'r swyddfa bost?** Amherthnasol




g) **addysg neu sesiynau hyfforddiant?** Amherthnasol




8) Faint mae'r gwasanaeth bws hwn yn gwella'ch bywyd drwy eich helpu i...


a) mynd allan yn amlach a rhyngweithio gydag eraill? Amherthnasol



b) gael mwy o ryddid ac annibyniaeth? Amherthnasol




c) gwneud pethau sy'n eich galluogi i deimlo'n fwy positif a hapusach? Amherthnasol



d) mynd allan yn amlach i gerdded, gwneud ymarfer corff a gwella eich iechyd corfforol?

Amherthnasol



9) Os na fyddai'r bws hwn yn rhedeg, sut fydddech chi'n gwneud y siwrne hon?

Gyrru	Cerdded	Beicio	Tacsi	Gwasanaeth bws arall	Liff gan ffrindiau/teulu	Ni fyddwn yn gwneud y siwrne	Arall (nodwch isod)

Arall _____

10) Os na fyddai'r bws hwn yn rhedeg, faint fyddai'n ei gostio i chi wneud y siwrne hon?

<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
£0	£0 - £3	£3 - £6	£6 - £9	£9 - £12	£12 - £15	£15 - £18	£18 - £21	Over £21

11) Os na fyddai'r bws hwn yn rhedeg, faint o apwyntiadau gofal iechyd fydddech chi wedi eu colli y llynedd?

<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
0	1	2	3	4	5 - 9	10 - 14	15 - 19	Over 20

12) Os na fyddai'r bws hwn yn rhedeg, sut fyddai'n effeithio ar eich bywyd (e.e. gwaith, addysg, gweithgareddau cymdeithasol, ac ati)?

Atodiad 2: Crynodeb o werth cymdeithasol pob llwybr bws

Llwybr 1A Port - Llanllyfni – Penygroes – C’fon	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	39		
% papur	72%		
% ar-lein	28%		
% benywod	69%		
Oedran cymedrig	60-79		
Tocyn mantais	69%		
Cost flynyddol y llwybr			
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)			
Cost fesul siwrne teithiwr	£1.53		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	3,030		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	9%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	27/39	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£49,950 (54%)
♦ Gwasanaethau iechyd	5.49(39)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£19,270 (21%)
♦ Cyflogaeth	0/39	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£0 (0%)
♦ Addysg	3/39	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£3,372 (4%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	6/39	£3,249 (gwirfoddoli)	£19,494 (21%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£92,086
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£92,086 x 0.31	£28,547
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£28,547 / 3,030	£9.41
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£9.41 / £1.53	£6.15/£1

Llwybr 1A	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd allan i weld ffrindiau. Faswn i ddim yn gallu mynd i siopa. Faswn i'n teimlo'n ynysig ac yn isel. Does dim siopau yn y Groeslon (Teithiwr 1). ♦ Dw i'n 85 mlwydd oed, ac yn fy oed i ni ddylwn i orfod stryffaglio i gario bagiau o Benygroes i Lanllyfni. Hefyd, mae fy mhensiwn yn mynd i mewn i HSBC, a chan nad oes banc ym Mhenygroes, mae'n rhaid i mi deithio i Gaernarfon (Teithiwr 3). ♦ Mae ambell fws yn teithio drwy Lanllyfni er mwyn mynd i siopa i Gaernarfon. Byddai'n rhaid i mi gael tacsï, a byddai hyn yn ddrud (Teithiwr 4). ♦ Faswn i'n ynysig yn gymdeithasol. Faswn i ddim yn gallu gwneud fy siopa wythnosol ar gyfer fy maeth, na chymdeithasu gydag eraill a mynd i gaffis a chlybiau cinio. Ni faswn i'n gallu cael mynediad i'r banc, gan nad oes HSBC ym Mhenygroes. Does gen i ddim teulu lleol i fynd â fi i siopa mor aml ag yr hoffwn (Teithiwr 10).
Apwyntiadau gofal iechyd	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mae ambell fws yn teithio drwy Lanllyfni er mwyn mynd at y meddyg ym Mhenygroes. Byddai'n rhaid i mi gael tacsï, a byddai hyn yn ddrud (Teithiwr 4). ♦ Mi fysa'n rhaid i mi dalu am dacsï i fynd a mi at y meddyg, ac mi fysa hyn yn costio ffortiwn (Teithiwr 7). ♦ Faswn i ddim yn gallu cyrraedd Caernarfon i'r clinig i dorri fy ewinedd traed. Faswn i ddim yn gallu mynd i Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon ar gyfer fy apwyntiadau bob tri mis (Teithiwr 8). ♦ Dw i'n dibynnu'n fawr ar fysiau, gan fod fy ngŵr wastad yn yr ysbyty. Pan nad ydi o yno, mae gennym ni apwyntiadau o hyd gyda meddygon. Dw i hefyd yn dibynnu ar fysiau ar gyfer siopa a chwrrd â ffrindiau a theulu. Oherwydd salwch fy ngŵr, mae'n rhaid i mi fynd allan er mwyn fy iechyd fy hun hefyd (Teithiwr 9). ♦ Dw i'n mynd i'r ysbyty ym Mangor yn aml. Faswn i'n sownd ac yn gorfod canslo fy apwyntiadau. Dw i'n hoffi mynd ar y bws, ac mae hyn yn helpu fy iechyd meddwl (Teithiwr 12).
Arall:	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Byddai'n rhaid i mi ystyried symud tŷ. Dw i ddim eisiau gwneud hynny gan fy mod wedi byw yn y Groeslon am 45 mlynedd. (Teithiwr 1).



Llwybr 1E Caernarfon - Porthmadog	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	12		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	33%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	33%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£3.91		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	893		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	8%		
Gwerth Cymdeithasol			
◆ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	6/12	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£11,100 (25%)
◆ Gwasanaethau iechyd	0(12)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£0 (0%)
◆ Cyflogaeth	4/12	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£26,528 (60%)
◆ Addysg	0/12	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0 (0%)
◆ Gwirfoddoli a gofalu	2/12	£3,249 (gwirfoddoli)	£6,498 (15%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£44,126
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£44,126 x 0.31	£13,679
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£13,679 / 893	£15.27
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£15.27 / £3.91	£3.91/£1

Llwybr 1E	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Does dim tafarn yn y pentref, felly dw i'n mynd ar y bws ddwywaith yr wythnos er mwyn mynd i'r dafarn (Teithiwr 3). ◆ Dwi'n mynd allan i'r dafarn bob wythnos. Os nad oes bws, does gen i ddim gweithgaredd cymdeithasol (Teithiwr 4).
Cyflogaeth:	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Faswn i'n colli fy swydd (Teithiwr 1). ◆ Dw i'n gweithio ac angen y bws hwyr (Teithiwr 8). ◆ Dw i'n gwarchod plant, a faswn i ddim yn gallu cyrraedd fy ngwaith (Teithiwr 2). ◆ Faswn i'n colli fy swydd ac yn cymdeithasu llai (Teithiwr 5).
Annibyniaeth:	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Faswn i'n colli fy annibyniaeth (Teithiwr 6).

Llwybr 1F Caernarfon – Carmel - Porthmadog	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	42		
% papur	24%		
% ar-lein	76%		
% benywod	64%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	48%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£1.38		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	3,215		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	12%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	22/42	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£40,700 (29%)
♦ Gwasanaethau iechyd	4.17(42)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£15,763 (11%)
♦ Cyflogaeth	11/42	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£72,952 (51%)
♦ Addysg	3/42	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£3,372 (2%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	3/42	£3,249 (gwirfoddoli)	£9,747 (7%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£142,534
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£142,534 x 0.31	£44,186
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£44,186 / 3,215	£13.71
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£13.71 / £1.38	£9.93/£1

Llwybr 1F	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ. Mi faswn yn gorfod dibynnu ar y plant, ond maen nhw'n gweithio ac mae ganddyn nhw fywydau prysur. Mae tacsî'n ddrud os ydych chi ar bensiwn bach (Teithiwr 1). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ ac yn dibynnu ar fy mhlant, ond maen nhw'n gweithio felly fyddai hyn ddim yn bosib drwy'r amser (Teithiwr 2). ♦ Faswn i'n colli fy annibyniaeth ac yn methu mynd i'r llyfrgell (Teithiwr 3). ♦ Faswn i hefyd yn colli fy rhyddid i gwrdd â ffrindiau. Dw i ddim eisiau bod yn y tŷ drwy'r dydd. Faswn i'n teimlo'n isel (Teithiwr 4).
Apwyntiadau gofal iechyd	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mae gen i glefyd siwgr. Mae'n rhaid i mi gyrraedd y feddygfa ym Mhenygroes a'r nyrs yng Nghaernarfon. Heb y bws, byddai'n rhaid i mi ddibynnu ar ffrindiau i fynd â mi yno (Teithiwr 4).



Llwybr 1N C'fon – Penygroes - Talysarn - Nantlle	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	65		
% papur	31%		
% ar-lein	69%		
% benywod	78%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	35%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£1.04		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	5,998		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	12%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	36/65	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£66,600 (29%)
♦ Gwasanaethau iechyd	4.65(65)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£27,203 (12%)
♦ Cyflogaeth	14/65	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£92,848 (41%)
♦ Addysg	6/65	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£6,744 (3%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	11/65	£3,249 (gwirfoddoli)	£35,739 (15%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£229,134
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£229,134 x 0.31	£71,032
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£71,032 / 5,998	£11.83
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£11.83 / £1.04	£11.38/£1

Llwybr 1N	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n gaeth i'r tŷ heb fywyd na gweithgareddau cymdeithasol (Teithiwr 2). ♦ Faswn i fwy neu lai yn gaeth i'r tŷ. Dw i'n mynd i Gaernarfon bob dydd. Dwi i'n hoffi rhoi bet ar y ceffylau, a dw i'n gwneud hynny yng Nghaernarfon. Dw i hefyd yn mynd i Iceland, Morrisons, Asda, Home Bargains a'r Swyddfa Bost (Teithiwr 3). ♦ Faswn i hefyd yn teimlo'n ynysig iawn, heb unrhyw fywyd cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth bws yma'n hanfodol ar gyfer bywyd cymuned ein pentref (Teithiwr 6). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd i siopa, a faswn i hefyd yn teimlo'n ynysig iawn, heb unrhyw fywyd cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth bws yma'n hanfodol ar gyfer bywyd cymuned ein pentref (Teithiwr 6).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n colli fy swydd ac yn teimlo'n ynysig (Teithiwr 7). ♦ Byddai cyrraedd fy ngwaith yn anodd iawn (Teithiwr 6).
Gwirfoddoli a gofalu	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i'n gwirfoddoli yng nghlwb cinio Age Concern ym Mhenygroes. Maen nhw'n dibynnu arnaf i droi i fyny (Teithiwr 4). ♦ Dw i hefyd yn gofalu am fy mam sy'n rhannol ddall, a dw i'n mynd i ofalu amdani bob dydd. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddai hi'n ei wneud os na fuaswn yn medru cyrraedd yno. Dw i hefyd yn mynd gyda hi ar y bws i apwyntiadau ysbyty (Teithiwr 4).
Annibyniaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i ddim mor annibynnol heb y bws (Teithiwr 5).

Llwybr 1NS Caernarfon – Nantlle - Porthmadog	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	13		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	69%		
Oedran cymedrig	26-40		
Tocyn mantais	31%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£3.26		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	1,363		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	28%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	6/13	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£11,100 (34%)
♦ Gwasanaethau iechyd	1.08(13)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£1,264 (4%)
♦ Cyflogaeth	3/13	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£19,896 (62%)
♦ Addysg	0/13	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0 (0%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	0/13	£3,249 (gwirfoddoli)	£0 (0%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£32,260
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£32,260 x 0.31	£10,001
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£10,001 / 1,363	£7.34
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£7.34 / £3.26	£2.25/£1

Llwybr 1NS	Sylwadau gan deithwyr y bus
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ ac yn methu teithio o gwmpas (Teithiwr 1). ♦ Faswn i ddim yn gallu gweld ffrindiau (Teithiwr 2).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n colli fy swydd ac yn teimlo'n ynysig (Teithiwr 3). ♦ Ni fyddai modd i mi weithio a byddai hynny'n effeithio ar fy sefyllfa ariannol. Does gen i ddim car (Teithiwr 4).



Llwybr 1S Caernarfon - Porthmadog	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	8		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	50%		
Oedran cymedrig	26-40		
Tocyn mantais	13%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£3.92		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	310		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	5%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	3/8	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£5,500 (60%)
♦ Gwasanaethau iechyd	0.5(8)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£360 (4%)
♦ Cyflogaeth	0/8	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£0 (0%)
♦ Addysg	0/8	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0 (0%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	1/8	£3,249 (gwirfoddoli)	£3,249 (36%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£9,159
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£9,159 x 0.31	£2,839
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£2,839 / 310	£9.16
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£9.16 / £3.92	£2.34/£1

Llwybr 1S	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Heb y bws, faswn i ddim yn gallu cwrdd â ffrindiau (Teithiwr 2). ♦ Mi fyddai'n lleihau amllder yr ymweliadau (Teithiwr 3).

Llwybr 2S Bangor - Dolgellau	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	9		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	67%		
Oedran cymedrig	26-40		
Tocyn mantais	22%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£10.86		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	492		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	20%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	4/9	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£7,400 (95%)
♦ Gwasanaethau iechyd	0.33(9)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£268 (5%)
♦ Cyflogaeth	0/9	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£0 (0%)
♦ Addysg	0/9	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0 (0%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	0/9	£3,249 (gwirfoddoli)	£0 (0%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£7,668
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£7,668 x 0.31	£2,377
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£2,377 / 492	£4.83
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£4.83 / £10.86	£0.44 / £1

Llwybr 2S	Sylwadau gan deithwyr y bus
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd i ymweld â ffrindiau (Teithiwr 1). ♦ Dw i angen y bus yma i ymweld â fy rhieni sy'n byw ym Mangor (Teithiwr 3). ♦ Rydw i'n gweithio drwy'r wythnos, ac yn defnyddio'r gwasanaeth yma i fynd i weld fy nheulu ar y penwythnosau (Teithiwr 4).
Gwirfoddoli a gofalu	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Rydw i'n dibynnu ar y bus i ymweld â fy ngŵr yn yr ysbyty (Teithiwr 2).



Llwybr 3 Porthmadog - Pwllheli	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	75		
% papur	33%		
% ar-lein	67%		
% benywod	73%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	45%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£3.87		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	6,053		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	57%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	39/75	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£72,150 (28%)
♦ Gwasanaethau iechyd	3.47(75)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£23,423 (9%)
♦ Cyflogaeth	19/75	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£126,008 (49%)
♦ Addysg	6/75	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£5,620 (2%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	10/75	£3,249 (gwirfoddoli)	£32,490 (12%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£259,691
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£259,691 x 0.31	£80,504
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£80,504 / 6,053	£13.30
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£13.30 / £3.87	£3.44/£1

Llwybr 3	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dydw i ddim yn gyrru felly dw i'n dibynnu ar y bws. Heb y gwasanaeth bws, mi fyddai fy mywyd yn hynod o gyfyngedig. Byddai'n effeithio ar fy mywyd yn fawr iawn, gan y byddaf ond yn gallu teithio pan fo fy ngŵr adref (h.y. gyda'r nosau a phenwythnosau). Rydym ni'n byw mewn ardal wledig, a faswn i'n ynysig ac unig iawn. Gan fy mod yn dioddef o iselder, mi fuasai hyn yn cael effaith fawr (Teithiwr 1). ♦ Mi fasa'n fywyd unig iawn heb y bws, ac yn anodd mynd i nôl bwyd gan nad oes siop yn y pentref. Pwllheli yw'r ganolfan siopa agosaf, sy'n siwrne yn ôl ac ymlaen o dros bedair milltir. Mae'n rhy bell i rywun sydd dros 80 oed i gerdded gyda throli siopa (Teithiwr 2). ♦ Faswn i ddim yn gallu siopa'n iawn. Fasa gen i lai o fwyd yn y tŷ, a diffyg arian oherwydd prisiau tacsï. Faswn i'n teimlo'n isel ac yn ynysig (Teithiwr 3). ♦ Fasa'n rhaid i mi aros adref gan na faswn i'n gallu fforddio'r teithiau tacsï wythnosol i ymweld â ffrindiau a theulu (Teithiwr 4). ♦ Buasai'n niwsans. Faswn i'n gorfod siopa'n lleol, sydd llawer drytach (Teithiwr 6). ♦ Faswn i'n colli cysylltiad gyda ffrindiau (Teithiwr 9). ♦ Mi fuaswn i'n gorfod cael tacsï, ond mae hyn yn ddrud. Faswn i ddim yn mynd allan mor aml (Teithiwr 12).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mi fuasai'n rhaid i mi ddysgu sut i yrru er mwyn mynd i fy ngwaith (Teithiwr 8).
Gwirfoddoli a gofalu	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n mynd yn llai aml, ac yn gorfod talu rhywun i ofalu am fy rhieni (Teithiwr 10). ♦ Faswn i'n treulio llai o amser gyda fy mam. Faswn i ddim yn gallu mynd â hi i lefydd (Teithiwr 11).
Annibyniaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n ei chael yn anodd, ac yn gorfod gofyn i fy rhieni am lifft (Teithiwr 5). ♦ Byddai'n anodd. Mi fuasai fy rhieni'n gorfod mynd yn ôl ac ymlaen i fynd â fi i Bwllheli (Teithiwr 7).

Llwybr 3B Porthmadog – Blaenau Ffestiniog	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	142		
% papur	36%		
% ar-lein	64%		
% benywod	57%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	37%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£0.59		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	11,882		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	10%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	68/142	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£125,800 (24%)
♦ Gwasanaethau iechyd	2.90(142)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£37,062 (7%)
♦ Cyflogaeth	41/142	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£271,912 (53%)
♦ Addysg	13/142	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£14,612 (3%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	21/142	£3,249 (gwirfoddoli)	£68,229 (13%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£517,615
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£517,615 x 0.31	£160,461
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£160,461 / 11,882	£13.50
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£13.50 / £0.59	£22.89/£1

Llwybr 3B	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i'n byw ar fy mhen fy hun ac mae'r bws yn hanfodol o ran fy mywyd cymdeithasol ac er mwyn mynd i'r banc. Mae'r bws yn fy helpu i fod yn annibynnol. Mae gen i nam ar fy ngolwg, ac mae'r bws yn fy ngalluogi i fynychu grŵp golwg gwan sy'n cefnogi fy llesiant (Teithiwr 2). ♦ Faswn i'n ddynes unig. Faswn i ddim yn gallu cwrdd â fy ffrind i fynd i ddosbarthiadau Cymraeg. Mi fasa siopa'n ddrytach, a faswn i ddim yn gallu mynd dim pellach na Blaenau Ffestiniog (Teithiwr 14). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd i nunlle. Faswn i'n gorfod dibynnu ar ffrindiau sydd dros 80 oed, a faswn i ddim yn licio gofyn iddyn nhw. Faswn i'n aros i mewn. Heb y gwasanaeth bws, faswn i'n teimlo'n ynysig ac yn isel (Teithiwr 17). ♦ Faswn i'n teimlo'n ynysig. Faswn i heb symud i Flaenau os na fuasai gwasanaeth bws. (Teithiwr 22).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mi fyswn i'n colli oriau yn y gwaith. Mi fysa hyn yn ddigon i mi golli fy ngwaith. Heb waith, fydd gen i ddim pres. (Teithiwr 20) ♦ Heb y bws, faswn i'n colli fy swydd (Teithiwr 21). ♦ Mi faswn i'n gorfod ffeindio swydd arall (Teithiwr 24). ♦ Dw i'n dibynnu ar y gwasanaeth bws i gyrraedd fy ngwaith (Teithiwr 30).
Apwyntiadau gofalu iechyd	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Gan nad ydw i'n gyrru, dw i'n dibynnu ar y bws i fynd i apwyntiadau ysbyty ac yn ôl. Dw i wedi talu dros £300 am dacs i fynd i apwyntiadau ysbyty (Teithiwr 15). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd at y deintydd na'r optegydd, neu fynd i'r ysbyty ar gyfer apwyntiadau (Teithiwr 19). ♦ Faswn i'n gorfod dibynnu ar fy nheulu i fynd â fi i weld y meddyg (Teithiwr 27).
Gwirfoddoli a gofalu	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i'n ofalwr i fy mrawd sy'n byw ym Mhorthmadog. Os na fyddai'r gwasanaeth bws yn rhedeg, byddai'n cael effaith arwyddocaol arna i a fy nheulu (Teithiwr 7). ♦ Fasa hyn yn cael effaith anferthol arna i, dw i angen mynd i weld fy mam bob dydd sydd dros 80 oed ac sy'n byw ym Mlaenau. Dw i'n gofalu am fy mam, yn mynd i nôl neges iddi. Mae'r gwasanaeth bws yn bwysig iawn (Teithiwr 9). ♦ Faswn i ddim yn gallu gwirfoddoli Tud. 60 a fynd i'n dirywio fy iechyd meddwl (Teithiwr 19).



Llwybr 3S Porthmadog – Pwllheli (Dydd Sul)	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	20		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	50%		
Oedran cymedrig	26-40		
Tocyn mantais	15%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£2.55		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	1,220		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	16%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	13/20	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£24,050 (73%)
♦ Gwasanaethau iechyd	1.20(20)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£2,160 (7%)
♦ Cyflogaeth	1/20	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£6,632 (20%)
♦ Addysg	0/20	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0 (0%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	0/20	£3,249 (gwirfoddoli)	£0 (0%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£32,842
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£32,842 x 0.31	£10,181
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£10,181 / 1,220	£8.35
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£8.35 / £2.55	£3.27/£1

Llwybr 3S	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	♦ Faswn i'n gweld ffrindiau yn llai aml (Teithiwr 3).
Cyflogaeth	♦ Faswn i methu cyrraedd fy ngwaith heb y bws (Teithiwr 1).
Apwyntiadau gofal iechyd	♦ Mi fasa'n llawer anoddach i gyrraedd apwyntiadau gofal iechyd (Teithiwr 2).
Annibyniaeth	♦ Heb y bws, mi fasa fy ffrind yn gorfod mynd â fi, a faswn i'n colli fy annibyniaeth (Teithiwr 4).

Llwybr 5E Bangor – Caernarfon (Gyda'r nosau)	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	138		
% papur	45%		
% ar-lein	55%		
% benywod	49%		
Oedran cymedrig	26-40		
Tocyn mantais	19%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£1.04		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	12,120		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	46%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	61/138	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£112,850 (22%)
♦ Gwasanaethau iechyd	3.25(138)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£40,365 (8%)
♦ Cyflogaeth	41/138	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£271,912 (54%)
♦ Addysg	17/138	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£19,108 (4%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	19/138	£3,249 (gwirfoddoli)	£61,731 (12%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£505,966
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£505,966 x 0.31	£156,849
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£156,849 / 12,120	£12.94
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£12.94 / £1.04	£12.44/£1

Llwybr 5E	Sylwadau gan deithwyr y bus
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Rwyf yn dibynnu ar y bus gyda'r nos er mwyn cymdeithasu a chwrdd â ffrindiau. Mae hyn yn rhoi rhyddid i mi ac yn gwneud i mi deimlo'n well (Teithiwr 1) ♦ Dw i'n fyfyrwr! Dw i'n defnyddio'r bus ar gyfer symudedd cymdeithasol. Mae'n bwysig gallu dal y bus er mwyn bod yn annibynnol (Teithiwr 2). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd allan, oni bai bod ffrind neu aelod o'r teulu yn gallu rhoi lifft imi. Dyma'r unig ffordd i mi allu mynd i'r eglwys, sy'n bwysig iawn i mi (Teithiwr 13). ♦ Faswn i ddim yn gallu gweld fy ffrindiau (Teithiwr 17). ♦ Faswn i ddim yn gallu gweld teulu, ac mi fasa'n effeithio ar fy mywyd cymdeithasol (Teithiwr 18). ♦ Faswn i ddim yn gweld fy ffrindiau/cariad mor aml, gan eu bod nhw'n byw yng Nghaernarfon (Teithiwr 22). ♦ Mae'n ei gwneud yn anoddach i mi fynd i'r gampfa gan ei fod yn rhy bell i'w gyrraedd (Teithiwr 16).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Alla i ddim gweithio os nad oes unrhyw fysiau, gan nad ydw i'n gyrru. Faswn i'n sownd, ac mae hynny'n golygu gwario gymaint ar dacsis (Teithiwr 6). ♦ Faswn i'n colli fy swydd (Teithiwr 7). ♦ Faswn i'n colli fy swydd; faswn i allan o waith (Teithiwr 9). ♦ Dyma'r unig ffordd i mi allu mynd i fy ngwaith; mi fuaswn i'n gorfod cael swydd yn agosach at adref (Teithiwr 12). ♦ Heb y bus, faswn i allan o waith (Teithiwr 21).
Addysg a hyfforddiant	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i'n dibynnu ar y gwasanaeth bus i gyrraedd y coleg (Teithiwr 5). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd i'r ysgol (Teithiwr 8). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd i'r ysgol (Teithiwr 20).
Gwirfoddoli a gofalu	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i angen y gwasanaeth bus ar gyfer gwirfoddoli (Teithiwr 4).
Annibyniaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n llwyr ddibynnol ar fy rhan i fynd i'r ysgol i'r ym 2 fi i lefydd (Teithiwr 10).



Llwybr 8 Nefyn - Abersoch - Pwllheli	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	28		
% papur	36%		
% ar-lein	64%		
% benywod	64%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	43%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£1.11		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	2,560		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	4%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	17/28	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£31,450 (35%)
♦ Gwasanaethau iechyd	3.82(28)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£9,626 (11%)
♦ Cyflogaeth	7/28	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£46,424 (52%)
♦ Addysg	2/28	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£2,248 (2%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	0/28	£3,249 (gwirfoddoli)	£0 (0%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£89,748
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£89,748 x 0.31	£27,822
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£27,822 / 2,560	£10.87
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£10.87 / £1.11	£9.79/£1

Llwybr 8	Sylwadau gan deithwyr y bus
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i angen y bus i fynd i siopa (Teithiwr 3). ♦ Dw i'n dibynnu ar y bus i fynd i siopa (Teithiwr 4).
Cyflogaeth	♦ Faswn i'n gorfod dibynnu ar fy ffrindiau a fy nheulu i fynd â fi i'r gwaith ym Mhwllheli ac yn ôl (Teithiwr 5).
Apwyntiadau gofal iechyd	♦ Dw i'n dibynnu ar y bus i fynd at y deintydd (Teithiwr 4).
Arall	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i'n ddigalon heb y bus. Dw i ar fudd-daliadau, a fedra i ddim cerdded adref ar faglau (Teithiwr 1). ♦ Fedra i ddim cyrraedd y ganolfan waith, a faswn i'n colli allan ar daliadau (Teithiwr 2).

Llwybr 8AB Dinas – Rhydyclafdy - Pwllheli	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	16		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	44%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	50%		
Cost flynyddol y llwybr	■		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	■		
Cost fesul siwrne teithiwr	£15.49		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	1,338		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	29%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	8/16	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£14,800 (73%)
♦ Gwasanaethau iechyd	1.63(16)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£2,347 (11%)
♦ Cyflogaeth	0/16	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£0 (0%)
♦ Addysg	0/16	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0 (0%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	1/16	£3,249 (gwirfoddoli)	£3,249 (16%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£20,396
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£20,396 x 0.31	£6,323
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£6,323 / 1,338	£4.73
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£4.73 / £15.49	£0.31/£1

Llwybr 8AB	Sylwadau gan deithwyr y bus
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n gweld ffrindiau yn llai aml (Teithiwr 1). ♦ Mi fasa gen i lai o amser y tu allan, llai o amser i gerdded a gweld pobl (Teithiwr 2). ♦ Faswn i ddim yn gweld ffrindiau (Teithiwr 3).
Cyflogaeth	♦ Faswn i ddim yn gallu gweithio (Teithiwr 4).
Arall	♦ Faswn i ddim yn ymarfer corff gymaint. Fel arfer, dw i ddim yn cerdded llawer (Teithiwr 5).



Llwybr 8S Nefyn - Abersoch - Pwllheli (Sul)	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	13		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	46%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	54%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£6.32		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	799		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	26%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	7/13	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£12,950 (61%)
♦ Gwasanaethau iechyd	1.54(13)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£1,802 (8%)
♦ Cyflogaeth	1/13	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£6,632 (31%)
♦ Addysg	0/16	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0
♦ Gwirfoddoli a gofalu	0/16	£3,249 (gwirfoddoli)	£0
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£21,384
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£21,384 x 0.31	£6,629
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£6,629 / 799	£8.30
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£8.30 / £6.32	£0.76/£1

Llwybr 8S	Sylwadau gan deithwyr y bus
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n cael llai o anturiaethau, llefydd cyfyngedig i ymweld â nhw (Teithiwr 2). ♦ Faswn i ddim yn gadael y tŷ nac yn mynd i siopa bwyd (Teithiwr 3). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ, ac yn methu mynd i nunlle (Teithiwr 4).
Cyflogaeth	♦ Faswn i'n ei chael yn anodd mynd i'r gwaith ac yn ôl. Mae'n 7 milltir i gerdded (Teithiwr 1).

Llwybr 12E/12S Caernarfon – Trefor- Pwllheli (Gyda'r nosau, Dyddiau Sul)	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	33		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	48%		
Oedran cymedrig	26-40		
Tocyn mantais	27%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£0.52		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	2,925		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	2%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	13/33	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£24,050 (34%)
♦ Gwasanaethau iechyd	1.00(33)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£2,970 (4%)
♦ Cyflogaeth	6/33	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£39,792 (57%)
♦ Addysg	3/33	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£3,372 (5%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	0/33	£3,249 (gwirfoddoli)	£0 (0%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£70,184
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£70,184 x 0.31	£21,757
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£21,757 / 2,925	£7.44
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£7.44 / £0.52	£14.31/£1

Llwybr 12E/12S	Sylwadau gan deithwyr y bus
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mi fasa'n anodd i mi fynd i ddosbarthiadau nos bob nos, a faswn i'n colli gweld pobl (Teithiwr 2). ♦ Faswn i ddim yn gallu gweld fy ffrindiau, yn enwedig pan fo'r tywydd yn wael (Teithiwr 3). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd am beint gyda ffrind gyda'r nos (Teithiwr 7). ♦ Dw i ddim yn gyrru, felly faswn i ddim yn gallu gweld ffrindiau a theulu ar y penwythnos (Teithiwr 8). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd i ASDA yn y dref i siopa (Teithiwr 10). ♦ Faswn i ddim yn mynd i Bwllheli i siopa (Teithiwr 12). ♦ Faswn i'n aros adref yn amlach, yn ynysig, yn gweld neb ac yn mynd i deimlo'n isel (Teithiwr 14).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n colli fy swydd, sy'n talu'n dda (Teithiwr 13).
Annibyniaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mi fasa'n rhaid i mi ddiwynnu ar mam gael lifft (Teithiwr 1). ♦ Mi fasa'n rhaid i mi ofyn am lifftiau a chael taci (Teithiwr 6). ♦ Faswn i methu mynd i nofio. Faswn i'n gorfod dibynnu ar fy mam i fynd â fi yno ac yn ôl (Teithiwr 11).



Costau	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dydi fy mhensiwn i ddim yn ymdrin â chostau ychwanegol, a fedra i ddim fforddio teithio mewn unrhyw fodd arall (Teithiwr 5). ♦ Dwi ar fy mhensiwn, felly fedra i ddim fforddio tacsis, a fedra i ddim fforddio rhedeg car (Teithiwr 6).



Llwybr 885 Caernarfon – Llanberis (Sul)	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	23		
% papur	100%		
% ar-lein	0%		
% benywod	43%		
Oedran cymedrig	26-40		
Tocyn mantais	22%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£5.27		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	1,501		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	35%		
Gwerth Cymdeithasol			
◆ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	10/23	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£18,500 (36%)
◆ Gwasanaethau iechyd	2.74(23)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£5,672 (11%)
◆ Cyflogaeth	4/23	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£26,528 (51%)
◆ Addysg	1/23	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£1,124 (2%)
◆ Gwirfoddoli a gofalu	0/23	£3,249 (gwirfoddoli)	£0 (0%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£51,824
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£51,824 x 0.31	£16,065
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£16,065 / 1,501	£10.70
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£10.70 / £5.27	£2.03/£1

Llwybr 885	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Faswn i ddim yn mynd i siopa ar y penwythnos (Teithiwr 3). ◆ Dw i'n gwneud bob dim yng Nghaernarfon - gweithio, siopa, mynd i'r gampfa. Heb fws, fasa bob dim yn newid (Teithiwr 4). ◆ Faswn i ddim yn medru mynd allan i siopa neu weld ffrindiau (Teithiwr 5). ◆ Mi fasa'n anoddach gweld fy ffrindiau a theulu (Teithiwr 7). ◆ Mi fuaswn yn cael trafferth mynd a dod o'r ardal. Dw i'n dibynnu ar y bws i weld ffrindiau (Teithiwr 8). ◆ Fuasai gen i ddim mynediad rheolaidd i'r dref er mwyn siopa (Teithiwr 9). ◆ Faswn i ddim yn gallu mynd i siopa (Teithiwr 11). ◆ Faswn i'n isel ac yn unig iawn heb y bws (Teithiwr 12). ◆ Fasa gen i lai o rwydweithio cymdeithasol (Teithiwr 13).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Mi faswn yn gorfod seiclo i'r gwaith (Teithiwr 1). ◆ Faswn i methu mynd i fy ngwaith (Teithiwr 5). ◆ Fedra i ddim gyrru a dw i'n dibynnu ar y bws i allu mynd i fy ngwaith (Teithiwr 8). ◆ Faswn i ddim yn gallu mynd i fy ngwaith (Teithiwr 11).
Apwyntiadau gofal iechyd	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Faswn i ddim yn gallu mynd at y meddyg (Teithiwr 11).
Annibyniaeth	<ul style="list-style-type: none"> ◆ Mi fasa'n rhaid i mi ddibynnu ar fy rhieni i gael lifftiau (Teithiwr 2). ◆ Faswn i'n gorfod cerdded yn bell, a dibynnu ar fy nheulu (Teithiwr 6).

Llwybr 91 Caernarfon – Dinas Dinlle	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	53		
% papur	38%		
% ar-lein	62%		
% benywod	55%		
Oedran cymedrig	26-40		
Tocyn mantais	30%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£2.89		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	4,990		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	21%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	29/53	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£53,650 (37%)
♦ Gwasanaethau iechyd	2.94(53)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£14,024 (10%)
♦ Cyflogaeth	6/53	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£39,792 (27%)
♦ Addysg	13/53	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£14,612 (10%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	7/53	£3,249 (gwirfoddoli)	£22,743 (16%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£144,821
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£144,821 x 0.31	£44,895
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£44,895 / 4,990	£9.00
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£9.00 / £2.89	£3.11/£1

Llwybr 91	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i ddim yn gyrru. Faswn i ddim yn gallu mynd i Gaernarfon a gweld fy ffrindiau (Teithiwr 1). ♦ Heb y bws, fasa gen i ddim bywyd cymdeithasol gyda'r nosau a faswn i methu mynd i siopa (Teithiwr 3). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ fwy, a faswn i ddim yn mynd allan mor aml (Teithiwr 4). ♦ Dw i'n dibynnu ar y bws i fynd i siopa a gweld pobl (Teithiwr 5). ♦ Dw i'n dibynnu ar y bws i nôl bwyd ar gyfer y plant (Teithiwr 6).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i ddim yn gyrru. Faswn i'n colli fy swydd (Teithiwr 1). ♦ Dw i angen mynediad i'r bws i fynd i fy ngwaith er mwyn darparu ar gyfer y plant. Faswn i'n ei chael yn anodd talu am dacsis (Teithiwr 6).
Apwyntiadau gofal iechyd	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Heb y bws, faswn i ddim yn gallu cyrraedd apwyntiadau ysbyty/meddyg/deintydd (Teithiwr 3).
Addysg a hyfforddiant	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i methu mynd i'r ysgol (Teithiwr 7). ♦ Mae fy mam yn gweithio, felly dw i angen y bws i fynd i'r ysgol (Teithiwr 8) ♦ Dw i angen y bws i fynd i'r ysgol ac i weld ffrindiau a fy nghariad yn ystod y penwythnos (Teithiwr 9). ♦ Faswn i ddim yn medru mynd i'r ysgol. Mae'r taci'n ddrud, a faswn i methu cwrdd â fy ffrindiau yn ystod y penwythnos (Teithiwr 10). ♦ Bysa'n rhaid i mi ofyn i fy nheulu fynd â fi i'r ysgol (Teithiwr 11).
Gwirfoddoli neu ofalu	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mi fasa'n ei gwneud yn anodd i ofalu am berthynas gyda dementia (Teithiwr 2).



Llwybr 92 Caernarfon (Doc Fictoria/Cae Gwyn)	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	44		
% papur	80%		
% ar-lein	20%		
% benywod	86%		
Oedran cymedrig	41-59		
Tocyn mantais	50%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£1.11		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	5,792		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	13%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	34/44	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£62,900 (49%)
♦ Gwasanaethau iechyd	5.00(44)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£19,800 (16%)
♦ Cyflogaeth	4/44	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£25,528 (20%)
♦ Addysg	0/44	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0 (0%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	6/44	£3,249 (gwirfoddoli)	£19,494 (15%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£128,722
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£128,722 x 0.31	39,904
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£39,904 / 5,792	£6.89
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£6.89 / £1.11	£6.21/£1

Llwybr 92	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n teimlo'n ynysig (Teithiwr 1). ♦ Faswn i ddim yn mynd allan mor aml ac faswn i ddim yn gwario gymaint (Teithiwr 2). ♦ Faswn i'n ynysig (Teithiwr 6). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd i siopa (Teithiwr 7). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ, a faswn i ddim yn mynd allan mor aml (Teithiwr 8). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ fwy, a faswn i'n gweld neb (Teithiwr 12). ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd i'r dref mor aml. Faswn i ddim yn gallu cario fy neges (Teithiwr 14). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ, ac yn methu cerdded yn bell (Teithiwr 16). ♦ Faswn i ddim yn mynd allan o'r tŷ a baswn i'n isel (Teithiwr 17). ♦ Dw i'n dibynnu ar y bws i fynd allan a gweld ffrindiau (Teithiwr 18). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ. Faswn i ddim yn gweld neb ac yn teimlo'n fwy isel (Teithiwr 20).
Cyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mi fasa'n ei gwneud yn anodd i mi fynd i fy ngwaith (Teithiwr 4). ♦ Dw i'n defnyddio'r bws i fynd i'r gwaith (Teithiwr 9).
Gwirfoddoli / gofalu	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Dw i'n ofalwr i fy chwaer, ac yn defnyddio'r bws i fynd â hi allan (Teithiwr 3). ♦ Dw i angen y bws gan fy mod yn ofalwr i fy chwaer (Teithiwr 19).
Costau	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i ddim yn gallu mynd allan. Mae taccis yn rhy ddrud (Teithiwr 10). ♦ Mi fuasai'n costio mwy i mi ddefnyddio taccis. Faswn i ddim yn mynd allan mor aml (Teithiwr 13). ♦ Mi faswn i'n sownd yn y tŷ. Mae'r taccsi'n ddrud (Teithiwr 15).

Llwybr 93 Gwasanaeth lleol Caernarfon	Nifer	Gwerthoedd Procsi (Banc Gwerth Cymdeithasol, GIG Cymru)	Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (% cyfanswm gwerth cymdeithasol)
Holiaduron a gwblhawyd	25		
% papur	92%		
% ar-lein	8%		
% benywod	80%		
Oedran cymedrig	60-79		
Tocyn mantais	88%		
Cost flynyddol y llwybr	██████		
Siwrneion y teithwyr (bob blwyddyn)	██████		
Cost fesul siwrne teithiwr	£0.51		
Siwrneion y teithwyr (o'r Holiaduron)	3,149		
% siwrneion blynyddol y teithwyr	3%		
Gwerth Cymdeithasol			
♦ Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	22/25	£1,850 (aelod o grŵp cymdeithasol)	£40,700 (58%)
♦ Gwasanaethau iechyd	7.40(25)	£90 fesul apwyntiad a gollwyd	£16,650 (23%)
♦ Cyflogaeth	2/25	£6,632 (cyflogaeth llawn amser/rhan amser)	£13,264 (19%)
♦ Addysg	0/25	£1,124 (hyfforddiant galwedigaethol)	£0 (0%)
♦ Gwirfoddoli a gofalu	0/25	£3,249 (gwirfoddoli)	£0 (0%)
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol			£70,614
Llwyth (<i>Deadweight</i>)			69%
Cyfanswm y Gwerth Cymdeithasol (ar ôl y llwyth)		£70,614 x 0.31	£21,890
Gwerth cymdeithasol fesul siwrne teithiwr		£21,890 / 3,149	£6.95
Cymhareb Gwerth Cymdeithasol		£6.95 / £0.51	£13.63/£1

Llwybr 93	Sylwadau gan deithwyr y bws
Gweithgareddau cymdeithasol a siopa	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i ddim mynd allan mor aml i siopa (Teithiwr 1). ♦ Oherwydd cyflwr ar fy nghalon, fedra i ddim cerdded ymhell iawn. Felly, y rhan fwyaf o'r dyddiau dw i'n dibynnu ar y gwasanaeth i fynd â fi i siopa ac i gwrdd â ffrindiau ac i gyrraedd fy apwyntiadau (Teithiwr 2) ♦ Faswn i ddim yn mynd allan mor aml (Teithiwr 4). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ (Teithiwr 6). ♦ Dw i angen y bws i fynd i siopa. Fedra i ddim cario bagiau trwm (Teithiwr 8). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ a ddim yn gweld neb (Teithiwr 9). ♦ Faswn i'n aros adref yn amlach (Teithiwr 11). ♦ Faswn i'n sownd yn y tŷ (Teithiwr 12). ♦ Faswn i ddim yn medru mynd allan a faswn i'n aros adref yn amlach (Teithiwr 13).
Apwyntiadau gofal iechyd	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Faswn i'n methu llawer o apwyntiadau gyda'r meddyg (Teithiwr 7).
Annibyniaeth	<ul style="list-style-type: none"> ♦ Mi fasa'n rhaid i mi ddibynnu ar bobl eraill a thacsi (Teithiwr 3). ♦ Buasai'n effeithio ar fy annibyniaeth ac yn cyfyngu ar lle fedra i fynd (Teithiwr 10).



Gwybodaeth am yr awduron

Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards

Mae'r Athro Rhiannon Tudor Edwards yn Gyd-Gyfarwyddwr Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME), Prifysgol Bangor. Mae Rhiannon wedi graddio o Brifysgol Cymru, Aberystwyth, Prifysgol Calgary, Canada a Phrifysgol Efrog, lle ymgwymerodd â'i hymchwil doethurol. Mae Rhiannon yn cydweithio'n agos â nifer o Unedau Treialu cofrestredig UKCRC ac mae'n economydd iechyd ar nifer o dreialon y DU wedi'u hariannu gan HTA a NIHR. Mae ganddi ddiddordeb penodol yn y methodoleg o werthuso economaidd ar y cyd â threialon ymyraethau iechyd cyhoeddus a seicogymdeithasol. Wrth ddod â gwaith ynghyd gan gydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Glasgow, bu iddi gyd-olygu pumed cyfres 'Handbooks in Health Economic Evaluation'. Mae Rhiannon yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru ac yn Uwch Ymchwilydd Arweiniol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, lle mae hi'n cyd-gyfarwyddo'r Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd (WHESS).



Dr Ned Hartfiel

Mae Dr Ned Hartfiel yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Economeg Iechyd a Meddyginiaethau (CHEME), Prifysgol Bangor. Mae gan Ned Ddiploma mewn Astudiaethau Nyrsio o Brifysgol Lerpwl John Moores ynghyd â PhD mewn Economeg Iechyd o Brifysgol Bangor. Ers cwblhau ei PhD yn 2016, mae Ned wedi gweithio fel Swyddog Ymchwil yn CHEME, gan ganolbwyntio ar ddadansoddi adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad. Ym mis Mehefin 2019, bu i Ned gynorthwyo i lansio Hwb Gwerth Cymdeithasol Prifysgol Bangor, sy'n cynnig hyfforddiant gwerth cymdeithasol a gwasanaethau ymgynghoriaeth a gwerthuso ar hyd a lled Cymru a'r DU.



Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

CHEME

Centre for Health Economics and Medicines Evaluation

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
Neuadd Ardudwy, Safle'r Normal
Prifysgol Bangor
Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ

cheme@bangor.ac.uk

@CHEMEBangor



Tud. 92





PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



© COPYRIGHT EFAN THOMAS

ISBN: 978-1-84220-182-4

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
Neuadd Arduw, Safle Normal, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ
Ffôn: 01829 8153

Tud. 93

Eitem 9

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad	13eg Gorffennaf 2021
Teitl	Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i Wynedd ac Ynys Môn
Aelod Cabinet	Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Pwrpas	Darparu adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

1. Cyflwyniad a chyd-destun

1. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

1.2 Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Yn wir sefydlwyd Bwrdd ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru i sicrhau cydweithio ymysg gyrff cyhoeddus i greu gwell dyfodol ar gyfer pobl Cymru. Y penderfyniad a wnaethpwyd yng ngogledd Orllewin Cymru oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i Wynedd fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn.

1.3 Yn ystod 2017 rhannodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ein cymunedau yn 14 o ardaloedd llai er mwyn cynnal gwaith ymchwil manwl, a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Cyhoeddwyd y wybodaeth ar ffurf yr Aseidiadau Llesiant. Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r aseidiadau i lunio blaenoriaethau'r Bwrdd sydd wedi eu cadarnhau yn y Cynllun Llesiant (2018). Cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol:

- Yr iaith Gymraeg
- Cartrefi ar gyfer bobl leol;
- Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau;
- Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau;
- Iechyd a gofal oedolion a Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc.

1.4 Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r gwaith sy'n digwydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar draws Gwynedd a Môn, penderfynodd y Bwrdd nad oedd angen iddynt ymgymryd â rôl bendant yn y maes yma ar hyn o bryd ond y byddent yn derbyn cyflwyniadau'n rheolaidd ar y gwaith sy'n digwydd ac yn ystyried a oes rôl i'r Bwrdd gamu mewn i'r dyfodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau eraill, sefydlodd y Bwrdd bedwar is-grŵp gweithredol, ac mae diweddariadau ar gynnydd yr is-grwpiau hynny wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.

1.5 Fel y nodwyd yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mae gan y Bwrdd bedwar aelod statudol sef yr Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Yn ogystal mae yna gyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd. Mewn perthynas ag unrhyw newid diweddaraf i aelodaeth y Bwrdd, mae Dafydd Gibbard ers iddo ddod yn Brif Weithredwr i'r Cyngor bellach yn aelod statudol o'r Bwrdd.

2 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

2.1 Yn amgaaedig cyflwynir adroddiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer y cyfnod 2020/21. Cyflwynwyd sawl adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y misoedd diwethaf i'r pwyllgor craffu a dyma'r adroddiad sy'n edrych yn ôl ar gyflawniadau yn ystod 2020/21.

2.2 Ers mis Mawrth 2020 rydym wedi wynebu argyfwng Covid-19 a chyfnod heriol iawn. Defnyddiwyd yr adroddiad i hunan-fyfyrio ar waith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gymryd i ystyriaeth effaith yr argyfwng ar waith a chynnydd y Bwrdd. Strwythurir yr adroddiad i gyfeirio at gynnydd gwaith pedwar is-grŵp y Bwrdd.

2.3 Mae arweinyddion is-grwpiau'r Bwrdd yn aelodau o'r Bwrdd, a'u cyfrifoldeb hwy fu cyflwyno adroddiadau cynnydd yn ystod y cyfnod 2021/21. Adroddwyd ganddynt fod cynnydd wedi arafu gan fod ymateb i'r argyfwng a rhoi sylw i'r gwaith o adfer ein cymunedau wedi cymryd blaenoriaeth. Er hynny mae'r is-grwpiau i gyd bellach yn ail afael yn eu gwaith.

2.4 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grwpiau wedi gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol. Cytunodd y Bwrdd trwy'r Cynllun Llesiant eu bod am ychwanegu dwy egwyddor sy'n bwysig i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn Sef yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb. Mae pob un o'r is-grwpiau wedi sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy eu gwaith. Bydd yr is-grwpiau hefyd yn parhau i roi sylw i anghydraddoldeb ac anfantais trwy'r asesiadau effaith perthnasol.

2.5 Mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar adfer ein cymunedau yn y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnodd y Grŵp Rhanbarthol oedd yn gyfrifol am adfer o'r argyfwng i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried eu rôl yn y gwaith o adfer, gan ganolbwyntio ar wytnwch cymunedol. Felly gofynnwyd i bob aelod o'r Bwrdd gynnal dadansoddiad sefyllfaol er mwyn gwella ein dealltwriaeth am y materion hynny sy'n effeithio ein cymunedau fwyfwy ers yr argyfwng. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi 2020 i drafod y materion hynny ymhellach, gan roi ystyriaeth i sut allwn weithio efo'n gilydd i ymateb iddynt. Penderfynwyd fod nifer o sefydliadau'r Bwrdd yn cydweithio eisoes er mwyn ymateb iddynt ac mai rôl y Bwrdd felly fyddai cadw trosolwg o'r gwaith a cheisio sicrwydd ein bod fel cyrff cyhoeddus yn ymateb yn briodol.

3. Trefniadau Craffu

3.1 Er mwyn cael atebolrwydd democrataidd i gynnydd gwaith y Bwrdd mae'r ddeddf wedi gosod gofyniad ar gynghorau i ddynodi Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu ar waith y Bwrdd. Felly mae gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei graffu gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar bwyntiau penodol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig¹ yn nodi tair rôl ar gyfer pwyllgorau craffu Awdurdodau Lleol sef:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd
- Bod yn Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y Bwrdd wrth weithredu'r Cynllun Llesiant.

3.2 Golygir hyn fod y pwyllgorau craffu yn cael cyfle i graffu perfformiad ac effaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ystyriwyd yr opsiwn o sefydlu un panel craffu, i weithredu ar draws y ddwy sir i graffu gwaith y Bwrdd. Gwerthuswyd gwahanol opsiynau gan dimoedd craffu'r ddau Awdurdod a daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn argymhell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn

¹ Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

hytrach am ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y ddwy Sir a pharhau efo'r trefniadau craffu bresennol. Bydd modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau Awdurdod eto maes o law.

4. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Bydd yr is-grwpiau cyflawni yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol, ble mae hynny'n briodol, i gyd-fynd a'u cynlluniau gweithredu. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw fydd yn newid a datblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni.

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2021

Rhagair y Cadeirydd

Dyma gyflwyno ein trydydd adroddiad blynyddol. Yn yr adroddiad byddwn yn hunan-adlewyrchu ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein [Cynllun Llesiant \(2018\)](#). Wrth gwrs, nid oes modd edrych yn ôl ar 2020/21 heb gyfeirio at argyfwng Covid-19 a'r effaith a gafodd ar ein gwasanaethau, ein busnesau a'n trigolion. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes e.e. materion iechyd meddwl, gwytnwch cymunedol, gor-dwristiaeth, ail gartrefi a bygythiadau i'r Gymraeg. Bydd yn bwysig ein bod fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod ein hamcanion Llesiant yn derbyn sylw fel rhan allweddol o'r adferiad yn dilyn yr argyfwng.

Cyflwyniad

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy ac mae'n rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant ac i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn cyfeirio at bum ffordd o weithio y mae disgwyl i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt er mwyn ein helpu i gydweithio'n well ac i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor sy'n ein hwynebu. Y pum dull yw ystyried yr hirdymor, atal problemau rhag digwydd, gweithio'n integredig rhwng cyrff cyhoeddus, cydweithio er mwyn cyflawni'r amcanion a chynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, gan sicrhau fod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maen nhw'n ei wasanaethu.

Gwnaeth y Ddeddf hefyd sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n cynnwys cynrychiolaeth o wahanol gyrff cyhoeddus. Rôl y byrddau yw i asesu cyflwr llesiant eu hardaloedd ac i bennu amcanion i sicrhau'r cyfraniad gorau posib tuag atynt. Mae'n ddyletswydd arnom fel Bwrdd i gyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol yn nodi'n amcanion yn dilyn gwneud yr asesiadau llesiant.

Yn dilyn ei asesiadau llesiant yn ôl yn 2017, blaenoriaethwyd chwe maes gan y Bwrdd: Yr Iaith Gymraeg; Cartrefi i bobl leol; Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau; Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau; Iechyd a gofal oedolion a Lles i llwyddiant plant a phobl ifanc. Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r gwaith sy'n digwydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar draws Gwynedd a Môn, penderfynodd y Bwrdd nad oedd angen iddynt ymgymryd â rôl pendant yn y maes yma ar hyn o bryd ond y byddent yn derbyn cyflwyniadau'n rheolaidd ar y gwaith sy'n digwydd ac yn ystyried a oes rôl i'r Bwrdd gamu mewn i'r dyfodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau eraill, sefydlodd y Bwrdd bedwar is-grŵp gweithredol:

- Newid Hinsawdd
- Cartrefi ar gyfer pobl leol
- Iechyd a Gofal Integredig
- Yr Iaith Gymraeg

Mae'r adroddiad yma felly'n cyfeirio at waith yr is-grwpiau uchod. Yn bennaf, mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar adfer ein cymunedau yn y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnodd y Grŵp Rhanbarthol oedd yn gyfrifol am adfer o'r argyfwng i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried eu rôl yn y gwaith o adfer, gan ganolbwyntio ar wytnwch cymunedol. Felly gofynnwyd i bob aelod o'r Bwrdd gynnal dadansoddiad sefyllfaol er mwyn gwella ein dealltwriaeth am y materion hynny sy'n effeithio ein cymunedau fwyfwy ers yr argyfwng. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi 2021 i drafod y materion hynny ymhellach, gan roi ystyriaeth i sut allwn weithio efo'n gilydd i ymateb iddynt. Penderfynwyd fod nifer o

sefydliadau'r Bwrdd yn cydweithio eisoes er mwyn ymateb iddynt ac mai rôl y Bwrdd felly fyddai cadw trosolwg o'r gwaith a cheisio sicrwydd ein bod fel cyrff cyhoeddus yn ymateb yn briodol.

Bydd y Bwrdd yn parhau gyda'r gwaith o asesu cyflwr ein cymunedau fel rhan o'u hasesiad o lesiant 2021/22, ac fel rhan o hynny bydd cyfle i glywed gan bobl a chymunedau Ynys Môn a Gwynedd am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd yr asesiad yn gwella dealltwriaeth y Bwrdd am anghenion ein cymunedau, gan edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd i'r dyfodol.

Adroddiad ar waith Is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Newid Hinsawdd

Pam fod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?

Sefydlwyd is-grŵp Newid Hinsawdd i annog cydweithio ymysg sefydliadau cyhoeddus ar liniaru effaith newid hinsawdd, ac yn benodol effaith llifogydd arfordirol a mewndirol ar ein cymunedau. Rydym wedi adnabod yr angen i addysgu a chydweithio gyda'n cymunedau er mwyn eu paratoi ar gyfer heriau presennol newid hinsawdd a'r rhai sy'n ein wynebu i'r dyfodol. Y nod wrth wneud hyn yw i geisio lliniaru'r effaith y mae unrhyw ddigwyddiadau o dywydd eithafol yn ei gael ar y cymunedau hynny.

Diweddariad ar ein gwaith hyd yma

Er bod argyfwng Covid-19 wedi mynd a'n sylw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae materion newid hinsawdd dal yn her fawr i ni. Ni allwn ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau ar ein pen ein hunain felly bydd ymdrech gydweithredol yn hanfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru waith i edrych ar ddull rhanbarthol o liniaru effaith Newid Hinsawdd. Roedd hyn ar ran pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Prif allbwn y gwaith yma oedd cytundeb i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru i ymateb i'r her, trwy sefydlu grŵp Newid Hinsawdd ar gyfer Gogledd Cymru. Prif nod y grŵp yma fydd i gyrraedd nodau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau Carbon. Bydd ffocws y gwaith gan Fwrdd Gwasanaethau Gwynedd ac Ynys Môn yn parhau i fod yn ymateb ar lefel lleol i'r heriau newid hinsawdd.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai, a gwahoddwyd nifer fawr o sefydliadau i gyfrannu a chytuno ar gynllun gweithredu tymor byr, canolig a hir. Daethpwyd i gasgliad mai'r camau nesaf fydd gweithio'n agos efo cymunedau i gynnal sgysiau angenrheidiol am yr hyn sy'n bwysig mewn perthynas â newid hinsawdd, a llifogydd yn benodol.

Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal sgysiau efo'n cymunedau fel rhan o'u Datganiadau Ardal. Bu'r sgysiau yn gyfle i ni feddwl beth sydd angen i ni wneud fel unigolion, cymunedau a sefydliadau i ymateb i Newid yn yr Hinsawdd. Bydd y canfyddiadau a'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r sgysiau yn cael ystyriaeth gan yr is-grŵp newid hinsawdd.

Yn ystod y cyfnod clo bu i nifer ohonom sylweddoli pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol. Roeddem yn defnyddio llai ar ein ceir ac fe welom effeithiau positif ar ansawdd ein haer a dŵr .

Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy:

- ddeall anghenion cymunedau penodol sy'n ein galluogi i gynllunio ar gyfer yr **hirdymor**
- **cydweithio** gyda nifer o gyrff cyhoeddus a'n cymunedau
- **cynnwys** ein rhanddeiliaid yn rhan annatod o waith yr is-grŵp

Cartrefi ar gyfer pobl leol

Pam fod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?

Yn wreiddiol gofynnodd y Bwrdd i'r grŵp sefydlu trefn cydweithio yn y sector dai a datblygu mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir. Wrth gwrs roedd gan nifer o bartneriaid y Bwrdd gynlluniau i ddatblygu tai fforddiadwy yn barod ond un mantais o gydweithio oedd i gyflawni arbedion maint – sef datblygu tai ar y cyd er mwyn lleihau'r costau datblygu ac i allu canolbwyntio ar ddatblygu tai arloesol. I gyflawni'r arbedion maint rhagwelwyd bod angen datblygu mwy nag un safle ar yr un pryd ac i gyd-gaffael y gwaith datblygu ynghlwm â hynny.

Diweddariad ar ein gwaith hyd yma

Am resymau y tu allan i reolaeth yr is-grŵp a gan nad oedd digon o safleoedd wedi eu cyflwyno gan bartneriaid y Bwrdd, ni fu'r weithred o gyd-gaffael y datblygiadau tai oedd dan ystyriaeth yn bosib.

Er hyn, sefydlwyd trefn gydweithio dda yn y sector dai a chanolbwyntiwyd ar y gwaith o gynllunio ar gyfer datblygu mwy o dai fforddiadwy yn y llefydd cywir, gyda phwyslais ar ddatblygu tai arloesol ag ôl troed carbon isel. Ni fu'n bosib datblygu mwy o dai fforddiadwy y tu hwnt i drefniadau presennol y sefydliadau. Fodd bynnag, bu adolygiad o'r holl safleoedd segur o fewn dalgylch Gwynedd a Môn, ac fe lwyddodd y Cymdeithasau Tai a Chyngor Môn i ddenu cymorth ariannol drwy'r drefn grant IHP4 (“Innovative Housing Programme Phase 4”) sydd wedi sicrhau rhaglen i ddatblygu 139 o dai arloesol fforddiadwy ym Môn. Cyfrannodd gwaith yr is-grŵp at y broses trwy gydweithio ar y cais grant.

Mae sefydlu trefn cydweithio wedi bod yn fanteisiol iawn i'r partneriaid. Mae hyn wedi arwain at werth ychwanegol i waith sydd eisoes yn mynd rhagddo gan bartneriaid trwy rannu syniadau a gwybodaeth, ac arfer dda. Trwy gydweithio hefyd, llwyddwyd i werthuso gwahanol fodolau o dai arloesol a bydd yr ymarfer hwn o ddefnydd i nifer o'r partneriaid perthnasol wrth iddynt ddatblygu tai yn y dyfodol.

Yn ogystal, trwy gydweithio fe rannwyd ymarferion da, a gwnaethpwyd trefniant i rannu gwybodaeth rhwng swyddogion cyllid rhai o'r sefydliadau cyhoeddus. Rhannwyd eu methodoleg a rhagdybiaethau ariannol wrth ystyried hyfywedd ariannol cynlluniau datblygu'r wahanol bartneriaid. Bydd canlyniad hyn o ddefnydd i'r partneriaid perthnasol wrth iddynt ddatblygu tai yn y dyfodol.

Yn dilyn hyn felly, mae'r is-grŵp cartrefi wedi ystyried a chytuno fod eu gwaith yn dirwyn i ben gan nad oes gwerth pellach y gallent ei ychwanegu at waith sydd eisoes yn cael ei gyflawni yn y maes tai gan sefydliadau unigol. Bydd angen i'r Bwrdd felly ailystyried y flaenoriaeth hon a chytuno ar y ffordd ymlaen.

Yn ychwanegol i waith yr is-grŵp cartrefi mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn ystyried effaith argyfwng Covid-19 ar faterion eraill tai. Yn ystod gweithdy a gynhaliwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi 2020 trafodwyd dau fater yn benodol sydd wedi eu hamlygu fwyfwy yn sgil yr argyfwng, sef digartrefedd ac ail gartrefi. Yn amlwg mae gan bartneriaid y Bwrdd rôl i'w chwarae wrth ymdrin â'r materion yma ond am y tro, cytunwyd mai rôl y Bwrdd fyddai i gadw trosolwg o'r materion ac i dderbyn diweddariadau gan y partneriaid i'r dyfodol. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i deimlo sicrwydd fod y materion yma yn cael yr ymdriniaeth briodol gan y cyrff cyhoeddus.

Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf, drwy:

- cyfrannu at gyflawni cynlluniau **hirdymor** o ddatblygu tai y sefydliadau sydd ynghlwm â'r prosiect
- annog **cydweithio** rhwng nifer fawr o sefydliadau cyhoeddus.

Iechyd a Gofal

Er mwyn cyflawni yn erbyn y maes blaenoriaeth yma fe sefydlwyd is-grwpiau yn y meysydd plant, oedolion ac iechyd meddwl. Mae pob un o'r is-grwpiau yma'n adrodd i'r is-grwp iechyd a gofal. Pwrpas yr is-grŵp iechyd a gofal yw sefydlu trefn cydweithio yn y sector dan sylw a chadw trosolwg o'r gwaith o datblygu a thrawsnewid gwasanaethau, a'r ffordd yr ydym yn cefnogi unigolion yn ein cymunedau.

Profodd y gwaith yn y maes iechyd a gofal i fod yn allweddol bwysig wrth i ni ymdrin ag argyfwng Covid-19 ac wrth i ni gynnal y gwaith o adfer ein cymunedau wedyn. Datblygwyd ffyrdd newydd o weithio yn rhithiol sydd wedi bod o fantais mawr i'r timau aml-ddisgyblaethol. Trefnwyd cyfarfodydd wythnosol ymysg y partneriaid yn ystod cyfnod yr argyfwng hefyd er mwyn trafod y gwasanaethau oedd fwyaf dan bwysau a chynnig ymatebion ar y cyd. Dangoswyd parodrwydd i gydweithio ac addasu i amgylchiadau gwaith heriol iawn.

O ganlyniad i'r angen i'r gwasanaethau perthnasol flaenoriaethu eu hymateb i'r argyfwng, gohiriwyd gwaith yr is-grŵp iechyd a gofal am gyfnod, sef y gwaith o drawsnewid ein gwasanaethau. Erbyn hyn mae'r gwaith wedi ail gychwyn a cheir isod ddiweddariad ar eu cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Iechyd Meddwl

Mae'r ffrwd gwaith yma'n canolbwyntio ar ddatblygu system fwy integredig gyda ffocws ar waith ataliol. Mae pedair rhan i'r rhaglen:

- Cydweithio i hyrwyddo iechyd a lles emosiynol ac atal argyfyngau iechyd meddwl rhag datblygu
- Darparu ymateb cyfannol, amserol i anghenion unigol gyda'r nod o gefnogi pobl i aros yn ddiogel yn y gymuned
- Datblygu'r gweithlu- Mae gwaith integreiddio iechyd gofal yn cyflwyno newidiadau i'n ffordd o weithio. Byddwn yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer gweithredu ar y cyd.
- Datblygu tai mwy hygyrch a phriodol (a chymorth) i bobl sydd mewn perygl o argyfwng iechyd meddwl.

Yn fwy diweddar mae Ymarferwyr Iechyd Meddwl sydd â rolau i gefnogi unigolion yn gweithio mewn pedwar meddygfa teulu yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Golygir hyn fod unigolion yn gallu cael mynediad amserol i asesiad a chefnogaeth iechyd meddwl. Mae hyn yn gam cadarnhaol ymlaen ac yn ymateb i'n hamcan o gynllunio gwasanaethau ataliol.

Oedolion

Mae ffocws wedi'i roi ar osod sylfeini cryf ar gyfer y Timau Adnoddau Cymunedol (TAC), sef timau sydd wedi eu sefydlu o fewn 5 ardal ac sy'n cynnwys aelodau o staff yr awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd. Pwrpas y TAC yw tynnu gwasanaethau ynghyd i ddarparu'r gefnogaeth briodol i'n trigolion, i sicrhau un pwynt cyswllt i faterion iechyd a gofal unigolion, ac yn y pen draw i'w cefnogi i fyw'n annibynnol.

Mae nifer o dasgau wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn diwethaf ar osod y sylfeini ar gyfer y TAC, sydd i gyd yn cyfrannu at gyflwyno a gweithredu'r ffordd newydd yma o weithio. Rhoddwyd sylw i faterion llywodraethu gwybodaeth i sicrhau bod cytundebau rhannu data addas mewn lle; darparwyd hyfforddiant mewn arweinyddiaeth amlddisgyblaethol; datblygwyd system Sharepoint sy'n caniatáu i holl aelodau'r TAC rannu gwybodaeth berthnasol am eu gwaith a'r rhwystrau maent yn eu hwynebu ac mae'r holl ddatblygiadau yn cael eu cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth ohonynt.

Yn ogystal â'r gwaith o sefydlu trefniadau'r TAC mae'r is-grŵp iechyd a gofal hefyd wedi bod yn datblygu prosiectau ar lefel Awdurdod Lleol ac is-rhanbarthol megis:

- prosiect drws ffrynt SPOA -ystyried modelau o sefydlu llefydd canolog i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal
- prosiect rhyddhau o'r ysbyty – i sicrhau fod pobl yn gallu cael eu rhyddhau o'r ysbyty mor fuan a diogel â phosib, trwy gydweithio fel tîm i gefnogi'r unigolyn i adael yr ysbyty.
- model gofal cartref newydd i Wynedd – sy'n edrych ar y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal, gan canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n derbyn y gwasanaethau hynny
- prosiect gweithio'n ddwyieithog - er mwyn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal.

Yn ogystal, mae gwaith yn digwydd yn rhanbarthol i ymateb i'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth. Bydd yr is-grŵp yn annog y cydweithio rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd ac yn cadw trosolwg o'r gwaith ar gyfer yr Asesiad hwnnw.

Plant

Yn wreiddiol y bwriad oedd i ddatblygu tîm aml disgyblaethol sy'n cwmpasu ystod eang o weithwyr proffesiynol a fyddai yn darparu gwasanaeth trawsnewidiol o ansawdd uchel i blant a theuluoedd ar gyrion gofal. Bu i'r gwaith gael ei ohirio oherwydd argyfwng Covid-19. Fodd bynnag, mae'r is-grŵp plant bellach wedi ymgynghori â rheolwyr tîm a staff y sefydliadau ac wedi llunio rhaglen hyfforddiant sy'n cynnwys amrywiaeth eang o hyfforddiant i staff. Bydd hyn yn eu galluogi i weithio'n well gyda phlant a theuluoedd ar gyrion gofal, er mwyn darparu'r gofal a chefnogaeth briodol.

O safbwynt cymorth cynnar i blant a theuluoedd mewn cymunedau lleol, mae'r is-grŵp yn cydweithio gyda'r trydydd sector gyda'r nod o helpu teuluoedd i ailintegreiddio yn eu cymunedau ar ôl y cyfnod clo ac i ddarparu cymorth a chefnogaeth gynnar i'r teuluoedd hynny.

Mae trefniadau cadarn bellach wedi eu sefydlu gan yr is-grŵp iechyd a gofal er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen wrth i ni ailgydio yn dilyn gorfod blaenoriaethu ein hymateb i argyfwng Covid-19. Mae'r is-grŵp hefyd wedi cael amser i ail edrych ar eu cylch gorchwyl, ac mae'r allbynnau disgwylidig yn glir am y 6-12 mis nesaf sef:

- Gwneud cynnydd yn y ffrydiau gwaith plant, oedolion ac iechyd meddwl gan mai rôl yr is grŵp fydd cydweithio gydag arweinyddion yr is-grwpiau ar ymateb i'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gweithredu yn llawn.
- Parhau gyda'r trefniant i rannu gwybodaeth a data ymysg ein partneriaid er mwyn cynllunio gwasanaethau'n effeithiol.
- Cyflawni'r camau gweithredu a gytunwyd ar gyfer yr is-grŵp gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf ac yn cyd-fynd â llawer o'r egwyddorion dylunio cenedlaethol sydd yn 'Cymru Iachach', Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Llywodraeth, trwy:

- roi ystyriaeth i dueddiadau'r **dyfodol** ac ymateb i newidiadau mewn demograffeg
- roi cynaliadwyedd ein system iechyd yn allbwn i'r is-grŵp er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol
- datblygu model **ataliol**

- **integreiddio** ein gwasanaethau iechyd a gofal er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau ein trigolion
- cydnabod ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles (gan gynnwys addysg, tai, llai o ddigartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd)
- sylweddoli'r buddiannau o **weithio mewn partneriaeth**

Yr Iaith Gymraeg

Pam fod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?

Mae'r Bwrdd yn deall pa mor bwysig yw'r Gymraeg i'n cymunedau ar draws Wunedd a Môn, a'i fod yn rhan o wead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae gallu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn y Gymraeg yn bwysig i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.

Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi cyflwyno rhai heriau sylweddol i sefydliadau wrth geisio sicrhau parhad eu gwasanaethau. Mae'r amodau a'r cyfyngiadau o orfod gweithio'n rhithiol, yn ogystal â'r diffyg gallu i grwpiau cymunedol ddod at ei gilydd wedi ei gwneud hi'n anodd cynnal rhai gwasanaethau a chyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym ni fel cyrff cyhoeddus wedi ceisio sicrhau fod y dinesydd yn parhau i gysylltu ac ymwneud â'r cyrff cyhoeddus yn eu dewis iaith, ac yn parhau i fod yr un mor angerddol am gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Diweddariad ar y gwaith hyd yma

Mae'n deg cydnabod fod gwaith yr is-grŵp hwn i bob pwrpas wedi'i oedi'n gyfan gwbl yn ystod 2020/21 o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19. Oherwydd bod aelodau o staff perthnasol wedi eu harallgyfeirio i waith gwahanol neu wedi gorfod newid eu blaenoriaethau, ni lwyddodd yr is-grŵp i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn gyrru'r rhaglen waith yn ei blaen.

O ganlyniad felly, nid oes cynnydd i adrodd arno ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, nodwyd yn Adroddiad Blyneddol y Bwrdd ar gyfer 2019-20 fod yr is-grŵp yn ystyried prosiect sy'n ymwneud ag ymddygiad ieithyddol mewn derbynfeydd ac mae hyn yn parhau'n flaenoriaeth. Y bwriad gwreiddiol oedd i dreialu gwahanol fathau o ymyraethau er mwyn medru darparu arweiniad i staff derbynfeydd o wahanol sefydliadau ar sut mae annog defnydd o'r Gymraeg gyda'r nod o gynyddu hyder y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â chyrff cyhoeddus.

Er bod y prosiect hwn wedi'i gymeradwyo gan aelodau'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020, ni fu'n bosib ei roi ar waith wrth i nifer o dderbynfeydd ar draws y cyrff cyhoeddus gau oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Fodd bynnag, ers yn fuan yn 2021 rydym wrthi'n adolygu'r cynnig prosiect gwreiddiol er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni bellach. Mae hyn yn cynnwys ystyried y newid sydd wedi bod yn y ffordd y mae'r cyhoedd yn cyfathrebu gyda sefydliadau cyhoeddus ac unrhyw newid mewn rôl derbynfeydd.

Ein gobaith yw medru cychwyn ar y gwaith yn dilyn cymeradwyaeth buan gan y Bwrdd. Yr amcan yw normaleiddio'r Gymraeg wrth i bobl fynd o amgylch eu busnes cyhoeddus ac yn y pendraw, gallai hynny arwain at nid yn unig mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n ei geisio a'i ddisgwyl gan gyrff o bob math. O bersbectif y trigolyn, mae mynegiant yn aml yn rhwyddach wrth ddefnyddio iaith gyntaf yn enwedig wrth drafod materion sensitif, megis materion yn ymwneud â llesiant unigolion, felly'r nod yw symleiddio'r broses o gael cymorth briodol.

Mae'r is-grŵp hefyd wrthi'n ystyried prosiectau posibl eraill i fynd i'r afael â'r ymrwymiad yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn er mwyn gallu rhoi rhaglen waith am y flwyddyn i ddod mewn lle.

Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

Mae is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf, yn ogystal a'r ffyrdd ychwanegol sydd wedi eu cytuno gan y BGC sef y Gymraeg a Chydraddoldeb trwy:

- sicrhau fod yr **Iaith Gymraeg** yn rhan naturiol o waith Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

- **cydweithio** i godi ymwybyddiaeth, rhannu arferion da, datblygu sgiliau a hyder y gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u hannog i wneud defnydd o'r Gymraeg dro ar ôl tro
- **cynnwys** barn rhanddeiliaid perthnasol wrth iddynt gyflwyno prosiectau newydd.

Edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod

Pob 5 mlynedd, ac fel un o ofynion statudol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wedi cychwyn ar y broses o adolygu'r Asesiad Llesiant .

Unwaith eto bydd yr Asesiad yn tynnu ynghyd ystod o wybodaeth am gymunedau Ynys Môn a Gwynedd. Golygir hyn y byddwn yn edrych ar waith ymchwil, casglu data ac ymgysylltu efo'n trigolion er mwyn canfod beth sy'n dda am ein cymunedau, a beth sydd ddim cystal. Bydd yn gyfle i ni ystyried heriau a chyfleoedd ein cymunedau, gan roi ystyriaeth i effaith argyfwng Covid-19 a Brexit arnynt.

Mae cydweithio gyda'n cymunedau ar yr asesiadau yn rhan allweddol er mwyn i ni ddeall beth yw eu gwir anghenion. Bydd y wybodaeth a rennir gan ein cymunedau yn cyfrannu at ein hasesiadau llesiant sydd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2022. Bydd yr asesiad yn llywio blaenoriaethau'r Bwrdd fel rhan o'r Cynllun Llesiant.

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Rhaglen Waith Ddrafft

13/07/2021
<ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus• Biniau Halen• Trafnidiaeth – Gwerth Cymdeithasol
23/09/2021
<ul style="list-style-type: none">• Newid Hinsawdd• Asedau Arfordirol• Risg Dŵr a Llifogydd
04/11/2021
<ul style="list-style-type: none">• Aseiad Llesiant - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus• Cynllun Gweithredu Hawliau Tramwy
13/01/2022
<ul style="list-style-type: none">• Diweddariad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol• Glendid Stryd• Torri Gwair a Chynnal Tir
10/03/2022
<ul style="list-style-type: none">• Grŵp Tasg Parcio